# Gwerthuso Effaith Strategaeth Sgiliau Sylfaenol ar gyfer Cymru

ADRODDIAD CAM I TERFYNOL i:

**Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Mis Chwefror 2007

**Adroddiad gan**


Old Bell 3
Economic Development and European Services
3, Old Bell Cottages
Park Road
Ludford
Llwydlo
SY8 1PP

www.oldbell3.co.uk

Miller Research (UK) Cyf
Pen-y-Wyrlod, Llanvetherine.
Y Fenni. Sir Fynwy.
NP7 8RG

Ffôn: (01873) 851880
Ffacs: (01873) 821704

info@miller-research.co.uk
www.miller-research.co.uk

Dateb
8, Kennedy Road
Yr Amwythig
SY3 7AD

*Mewn cydweithrediad â*

Beaufort Research Cyf
2 Museum Place
Caerdydd CF10 3BG
Ffôn: 029 20 378565
Ffacs: 029 20 370600
www.beaufortresearch.co.uk

**Cynnwys**


**Crynodeb Gweithredol** **6**

**1 Cyflwyniad, Cefndir a Sail Rhesymegol i'r Gwerthusiad** **24**

**1.1** Cyflwyniad

**1.2** Sail Resymegol y Gwerthusiad 24

**1.3** Strwythur yr Adroddiad 26

**2 Strategaeth Sgiliau Sylfaenol / Cynllun Cyflenwi i Gymru** **27**

**2.1** Cyflwyniad 27

**2.2** Y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol i Gymru 27

**2.3** Cynllun Cyflenwi'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol 2006-07 a'r Cynnydd Hyd Yma 28

**3 Fframwaith Gwerthuso** **31**

**3.1** Cyflwyniad 31

**3.2** Cyflwyniad i'r Fframwaith Gwerthuso 31

**3.3** Materion i'w Hystyried 34

**3.4** Model y Fframwaith 35

**4 Ymdrin â'r Allanoldebau / Asesu'r Gwrthffeithiol** **72**

**4.1** Cyflwyniad 72

4.2 Rheolyddion Ffurfiol 74

4.3 Cynnal Peilot 74

4.4 "Dewch â Chyfaill" 75

4.5 Rheolaeth Rithwir / Grwpiau cymharu 75

4.6 Ymdriniaeth Ofodol 76

4.7 Asesu Effeithiau'r Ddarpariaeth Sgiliau Sylfaenol 77

4.8 Ymchwilio Materion Gwrthffeithiol 80

**5 Ymdrin â Phrofion Sgiliau Sylfaenol** **85**

**5.1** Sgrinio Presennol/Asesiad o Oedolion sy'n dysgu – ASS/Deunyddiau Asesu Coleg Gorllewin Swydd Nottingham 85

**5.2** Crynodeb 89

**6 Defnydd o Ardaloedd Astudiaeth Achos** **90**

**6.1** Dull Matrics 91

**7 Ymdrin â'r Gwaith Ymarferol** **92**

**7.1** Cyflwyniad 92

**8 Rhaglen Waith 2006-07** **95**

**8.1** Gwaith Paratoi 95

**8.2** Lefel 1: Gwerthuso Strategol 96

**8.3** Lefel 2: Gwerthuso Rheoli Cyflenwi 100

**8.4** Gwerthuso'r effaith ar Fuddiolwyr y Strategaeth 102
**8.5** Trefniadau Adrodd, Monitro a Rheoli'r Prosiect 102

**9 Rhaglen Waith 2007-08 104**
**9.1** Gwerthuso'r Broses Gyflenwi / Datblygiad Isadeiledd 104
**9.2** Gwerthuso'r Effaith ar Fuddiolwyr y Strategaeth 105
**9.3** Gwerthuso'r Effaith ar Fuddiolwyr y Strategaeth 111
9.4 Trefniadau Adrodd, Monitro a Rheoli'r Prosiect 114
**10 Rhaglen Waith 2008-09 115**
**10.1** Gwerthuso'r Broses Gyflenwi / Datblygiad Isadeiledd 115
**10.2** Gwerthuso'r Effaith ar Fuddiolwyr y Strategaeth 117
**10.3** Trefniadau Adrodd, Monitro a Rheoli'r Prosiect 120
**11 Rhaglen Waith 2009-10 121**
**11.1** Ailymweld â'r Gwerthuso Strategol (34 Diwrnod) 121
**11.2** Gwerthuso'r Broses Gyflenwi / Datblygu Isadeiledd 121
**11.3** Gwerthuso'r Effaith ar Fuddiolwyr y Strategaeth 122
**11.4** Monitro'r Prosiect a Rheoli'r Prosiect 123
**12 Trefniadau Staffio 125**
**13** Rhaglen Waith a Chostau
13.1 Atodiad 1 Gwersi o Waith Ymchwil Diweddar i Fethodoleg 140

Ffigur 1 Crynodeb o Gysyniad Fframwaith Gwerthuso 9
Ffigur 2 Amlinelliad Cychwynnol o'r Dull Ymchwil 16
Ffigur 3 Strategaeth Sgiliau Sylfaenol – Gweithgareddau Cyflenwi a'r hyn sy'n wybyddus am Faint y Cynydd ym mis Hydref 2006 30
Ffigur 4 Fframwaith Gwerthuso Model Cysyniadol 33
Ffigur 5 Fframwaith Gwerthuso Datblygiad Isadeiledd 40
Ffigur 6 Fframwaith Gwerthuso Cyflenwi Dysgu 64
Ffigur 7 Clystyru - Y Goeden Hierarchaidd 79
Ffigur 8 Amlinelliad Cychwynnol o'r Dull Ymchwil 93
Ffigur 9 Cynllun Prosiect 2006/2007 136
Ffigur 10 Cynllun Prosiect 2007/2008 137
Ffigur 11 Cynllun Prosiect 2008/2009 138
Ffigur12Cynllun Prosiect 2009/2010 139

Tabl 1 Cyfrifoldebau Arwain ac Amserlen Waith 18
Tabl 2 Strategaeth Sgiliau Sylfaenol – Themâu Llorweddol.................................................. 27
Tabl 4 Fframwaith Gwerthuso Datblygiad Isadeiledd – Mesurau Canlyniad 41
Tabl 5 Fframwaith Gwerthuso Datblygiad Isadeiledd –Mesurau Cynnyrch 50
Tabl 6 Fframwaith Gwerthuso Datblygiad Isadeiledd –Mesurau Proses................................ 56
Tabl 7 Fframwaith Gwerthuso Cyflenwi Dysgu – Mesurau Effaith ........................................ 65
Tabl 8 Fframwaith Gwerthuso Cyflenwi Dysgu – Mesurau Canlyniad .................................. 68
Tabl 9 Fframwaith Gwerthuso Cyflenwi Dysgu –Mesurau Cynnyrch .................................... 69
Tabl 10 Fframwaith Gwerthuso Cyflenwi Dysgu – Mesurau Proses ..................................... 71
Tabl 11 Newidynnau Allweddol: Llinell Sylfaen a Newid ....................................................... 81
Tabl 12 Segmentiad Posibl ar gyfer Ardaloedd Astudiaethau Achos Daearyddol ................. 90
Tabl 13 Dyryniadau Posib o Brosiectau Cymorth Cenedlaethol (NSP)................................. 91
Tabl 14 Esiamplau o Ystadegau Llinell Sylfaen .................................................................. 104
Tabl 15 Cyfrifoldebau Arwain ac Amserlen Waith ............................................................ 125
Tabl 16 Cyfrifoldebau Arwain - Ardaloedd Astudiaethau Achos Daearyddol ....................... 130
Tabl 17 Matrics o Ymdriniaeth Bosibl drwy Grwpio Cynulleidfa a Graddfa Amser............... 131
Tabl 18 Cyfrifoldebau a Chostau'r Prosiect 2006/07 .......................................................... 132
Tabl 19 Cyfrifoldebau a Chostau'r Prosiect 2007/08 .......................................................... 133
Tabl 20 Cyfrifoldebau a Chostau'r Prosiect 2008/09 .......................................................... 134
Tabl 21 Cyfrifoldebau a Chostau'r Prosiect 2009/10 .......................................................... 135

## Crynodeb Gweithredol

### Cyflwyniad

Ym Mis Mehefin 2006, comisiynodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gonsortiwm dan arweiniad Miller Research (UK) Cyf i werthuso effaith Strategaeth Sgiliau Sylfaenol i Gymru, hyd at 2010. Bwriedir i'r gwerthusiad: *"ymchwilio'r Strategaeth yn gadarn ac yn annibynnol er mwyn gwerthuso ei effaith"* a chomisiynwyd y prosiect mewn dau gam:

- Astudiaeth gwmpasu i ddarparu fframwaith gwerthuso
- Gwerthuso effaith y Strategaeth hyd at 2009-10

Mae Cam 1 yr adroddiad yn gosod canlyniadau a chasgliadau'r cyfnod cwmpasu ac yn darparu fframwaith gwerthuso, dull o asesu effaith a rhaglen waith gychwynnol i'r prosiect.

Y sail resymegol i'r gwaith hwn yw darparu gwell sylfaen tystiolaeth i danlinellu polisi a strategaeth datblygu ym myd sgiliau sylfaenol. Yn benodol, bydd yn archwilio:

- effeithiolrwydd gweithgareddau cyfredol a rhai wedi'u cynllunio, o ran codi ymwybyddiaeth, ac ymestyn a gwella gallu'r darparwr
- y graddau'r mae'r gweithgareddau hyn yn effeithio ar wella sgiliau sylfaenol poblogaeth Cymru
- y graddau y mae naill ai gweithgareddau'r strategaeth, neu unrhyw godiad dilynol mewn lefelau sgiliau sylfaenol yn effeithio ar wella byd unigolion yng Nghymru yn economaidd a chymdeithasol.

Wrth roi'r rhaglen waith at ei gilydd ar gyfer ei gwerthuso, rydym wedi cydnabod y pwyslais cynyddol oddi fewn i gyflenwi'r ail strategaeth ar fonitro mewnol y rhaglenni. O ganlyniad mae ein dull yn anelu at ddefnyddio data a gwybodaeth sy'n deillio o'r gweithgaredd hwn, ac ar yr un pryd yn:

- asesu ei gryfder a'i effeithiolrwydd wrth werthuso y gweithgaredd cyflenwi
- llenwi bylchau ble bynnag maent yn digwydd, neu
- dylanwadu ar weithgareddau monitro'r dyfodol i wella'r ymdriniaeth o'r wybodaeth

Wrth ddylunio ein dull o weithredu, gwnaethpwyd cryn dipyn o ymdrech i drin y pynciau sy'n ymwneud ag asesu dylanwad ac yn benodol yr agweddau:

- wrth gynnal arolwg eang o fyfyrwyr
- wrth brofi sgiliau sylfaenol y sampl eang ar gerrig milltir allweddol yn y gwerthusiad
- wrth ymdrin ag allanolion / asesu'r gwrthffeithiol

Bydd gan y rhaglen waith yn gyffredinol ganolbwynt deuol:

- Asesu effeithiolrwydd cyflenwi'r strategaeth ac i ba raddau y bu llwyddiant wrth gyrraedd ei nodau a'i amcanion. Asesiad o "beth sy'n gweithio, i bwy a dan ba amgylchiadau"
- Asesu effaith ehangach – ystyried y newidiadau lefelau sgiliau sylfaenol y myfyrwyr a arolygwyd ac unrhyw fudd economaidd a chymdeithasol a gododd o'r ymyriadau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth.

Awgryma hyn ddau ddull cyflenwol i'r gwerthusiad – yn seiliedig i ddechrau ar werthusiad trwyadl ond un ansoddol cychwynnol, o'r strategaeth a'i isadeiledd cyflenwi a'r prosesau, ac yn ail ar arolwg eang o sgiliau sylfaenol myfyrwyr, i ganfod unrhyw newidiadau mewn ymddygiad sy'n codi o gymryd rhan mewn ymyriadau sgiliau sylfaenol.

### Strategaeth Sgiliau Sylfaenol i Gymru

Cyhoeddwyd *Geiriau'n Galw – Rhifau'n Cyfri* gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Ebrill 2005 ac mae'n gosod dull pum mlynedd i godi safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Strwythurwyd y Strategaeth gan ddeg thema llorweddol a deg grŵp blaenoriaeth, sydd o anghenraid yn diffinio'r prif fannau ymyrraeth a'r buddiolwyr y bwriedir iddynt elwa o'r Strategaeth. Er fod rhai o'r Grwpiau Blaenoriaeth yn cael eu diffinio yn nhermau ystod oedran, (er enghraifft, blynyddoedd cynnar, addysg oedolion), mae eraill yn draws doriad ac, mewn rhai achosion, yn fwy anodd i'w diffinio (e.e. grwpiau eraill mewn perygl o amddifadedd cymdeithasol).

Cyflenwir y Strategaeth yng Nghymru gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (ASS), sydd ar hyn o bryd dan gytundeb tan 2008. Cyhoedda'r ASS Gynllun Cyflenwi blynyddol, sy'n gosod y gweithgareddau a fwriedir ar gyfer y flwyddyn i gefnogi'r Strategaeth. Cyflenwir y gweithgareddau gan yr ASS, Awdurdodau Lleol ac isgontractwyr penodedig. Gosodwyd nifer o Brosiectau Cynnal Cenedlaethol (NSP) i gefnogi nifer o ardaloedd o weithgarwch. Mae cyllideb gyflenwi o £12.8m ar gael i gyflenwi Sgiliau Sylfaenol yn 2006-07.

### Y Fframwaith Gwerthuso

Mae'r Fframwaith Gwerthuso a gynigiwn wedi'i selio ar Fodel y Trysorlys ac mae'n darparu strwythur proses, cynnyrch, canlyniad a mesurau effaith i'w hadolygu ar adegau penodol. Cafodd ei ddylunio i fynegi cyfres o fesurau sy'n cynnig ar y cyd mewnwelediad i effeithiolrwydd ystod eang o weithgareddau wrth weithio tuag at ddibenion a osodwyd yn y Strategaeth[1].

---

[1] Y bwriadon y strategaeth iw:

• bod ein holl blant ifanc yn cael eu paratoi ar gyfer dysgu pan fyddant yn dechrau'r ysgol;

Un her oedd yn ein wynebu wrth roi'r Fframwaith at ei gilydd oedd, er mai uchelgais y strategaeth yw gwella sgiliau sylfaenol grwpiau allweddol, mae'r Cynllun Cyflenwi wedi'i ganoli ar gryfhau cynhwysedd yr 'isadeiledd dysgu' – sef amrywiaeth o sefydliadau sy'n cynnwys AALl / ysgolion, colegau, darparwyr dysgu, mudiadau gwirfoddol a chyflogwyr. Felly, mae ein model wedi'i ddylunio i ddal effeithiau'r ymyriadau a gyllidir gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn ogystal â'r gwasanaethau a gyflenwir i fyfyrwyr gan y sefydliadau eraill. Yn ei hanfod, mae'r Fframwaith yn ceisio mynegi beth yw:

- Effeithiau disgwyliedig y Strategaeth ar 'isadeiledd dysgu' sydd yn bennaf yn ymdrin â gweithredu Cynllun Cyflenwi Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol ac, ar wahân:
- Effeithiau disgwyliedig y gwasanaethau a gyflenwyd gan yr 'isadeiledd dysgu' ar unigolion, sy'n canolbwyntio'n agosach ar uchelgais y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol ei hun.

Mae hefyd yn fwriad dangos mai'r her allweddol i'r gwerthusiad hwn fydd profi'r dolenni achosol rhwng:


- buddsoddi,
- gwelliannau i'r isadeiledd dysgu
- gwelliannau yn lefelau llythrennedd a rhifedd ymhlith y buddiolwyr a dargedwyd a:
- mesurau economaidd a chymdeithasol ehangach

Mae'r model hefyd yn dangos fod llwyddiant y Strategaeth neu fel arall yn dibynnu ar effeithiau'r 'allanoldebau', neu ffactorau y tu hwnt i reolaeth yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (ASS).

---

- ein bod yn parhau i leihau nifer y plant sy'n cael trafferth i ddarllen, ysgrifennu neu ddefnyddio rhifau wrth adael yr ysgol gynradd;
- bod llai o bobl ifanc yn parhau i gael trafferthion â sgiliau sylfaenol wrth adael yr ysgol;
- ein bod yn lleihau nifer yr oedolion sydd â sgiliau sylfaenol gwael yn sylweddol.

**Ffigur 1 Crynodeb o  Gysyniad Fframwaith Gwerthusiad**




Wrth ddatblygu'r fframwaith, bu'n angenrheidiol i ni ystyried nifer o faterion, yn bennaf:

- Cymhlethdod Cynhenid y Strategaeth – mae angen i'r Fframwaith gadw'n weddol syml er mwyn sicrhau ei fod yn ymarferol.
- Priodoledd ac Allanoldebau – Mae'n bwysig fod y Fframwaith yn ystyried yn ofalus i ba raddau y gellir priodoli'r newidiadau a welir yn yr isadeiledd dysgu, i'r gweithgareddau a gefnogir dan y Strategaeth ac i fod yn effro i effeithiau cadarnhaol a negyddol yr allanolion tebyg i, er enghraifft, gostwng lefelau cyllido ac i amodau'r farchnad waith. Ar y lefel nesaf, mae'r priodoledd yn troi'n her sydd hyd yn oed yn fwy ac mae effaith tebygol y ffactorau allanol yn dod hyd yn oed yn fwy amlwg.
- Anghenion ac Argaeledd Data - Mae'r fframwaith a awgrymir wedi'i siapio gan ystyriaeth argaeledd y data a hefyd ymarferoldeb a'r gost o gael gafael ar ddata newydd. Mae'n angenrheidiol fod defnydd llawn yn cael ei wneud o ddata a gasglwyd i bwrpas arall ac na fydd darparwyr dysgu, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill yn gorfod cario baich dianghenraid.

**Model y Fframwaith**

Mae Model y Fframwaith yn cynnwys cyfres o ddangosyddion wedi'u strwythuro dan y penawdau dilynol:

- **Mesurau Effaith:** Mae rhain yn ymwneud yn bennaf â statws marchnad waith a rhagolygon gwaith y buddiolwyr, incwm, tuedd i ddal ati i ddysgu ac iechyd a lles.
- **Mesurau Deilliant:** Rhennir y rhain i ddwy lefel:
    - **Mesurau Deilliant sy'n Canolbwyntio ar Isadeiledd**: Mae rhain yn ymwneud â gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth, gwella lefelau sgiliau'r ymarferwyr, codi safon ac effeithiolrwydd systemau'r darparwyr a gwella'r cysylltiadau rhwng ymyriadau.
    - **Mesurau Deilliant sy'n Canolbwyntio ar y Cwsmer:** Bwriedir i'r mesurau deilliant hyn amlygu effeithiau canolradd ar sgiliau sylfaenol y bobl ifanc a'r oedolion sy'n elwa o'r gwasanaethau a gyflenwir gan ddarparwyr dysgu ac eraill.
- **Mesurau Cynnyrch:** Fel gyda mesurau deilliant, rhennir y rhain i ddwy lefel, sy'n berthnasol i ddatblygu isadeiledd a gweithredoedd i fynd i'r afael â diffygion sgiliau sylfaenol.
    - **Mesurau cynnyrch sy'n canolbwyntio ar Isadeiledd:** Ymgais i ddal canlyniadau'r ymyriadau'n uniongyrchol yw mesurau cynnyrch, wedi'i anelu at wella isadeiledd cyflenwi.
    - **Mesurau cynnyrch sy'n canolbwyntio ar y Cwsmer:** Ceisio amlygu effeithiau unionyrchol y dysgu a'r gefnogaeth a dderbyniwyd ar grwpiau blaenoriaeth y Strategaeth.
- **Mesurau Proses:** Unwaith eto, yn gweithredu ar ddwy lefel, bydd y mesurau proses yn cynnwys:
    - **Mesurau Cynnyrch sy'n canolbwyntio ar Isadeiledd:** Mae'r mesurau hyn yn ymgais i edrych ar waith a wnaed gan nifer o actorion eraill, naill ai "mewn partneriaeth gyda'r" ASS neu dan gontract i'r ASS (i wneud prosiectau penodol) yn ogystal â gwaith yr ASS ei hun wrth gomisiynu, rheoli neu ddylanwadu gweithgareddau o'r fath.
    - **Mesurau Cynnyrch sy'n canolbwyntio ar y Cwsmer:** Anela'r Fframwaith i ddal y cymryd rhan gan blant, pobl ifanc ac oedolion mewn dysgu sydd wedi'i ganolbwyntio ar sgiliau sylfaenol sydd wedi'i annog neu ei wella gan weithgaredd datblygu isadeiledd a gefnogwyd gan yr ASS, neu drwy raglenni sydd wedi'u

cefnogi'n uniongyrchol gan raglenni fel Grantiau AALl, Bagiau Llyfrau a Stori Sydyn.

Mae'r fframwaith yn cynnwys set gynhwysfawr o dablau, sy'n rhoi'r manylion am y mesurau, y dangosyddion perthnasol, ffynonellau data sy'n bodoli neu ddulliau o gasglu data, amserlenni a lefelau gofodol ble y cesglir gwybodaeth. Atodir ystyriaethau allanoldeb neilltuol ble mae'n briodol.

### Asesu Effeithiau Darpariaeth Sgiliau Sylfaenol: Trosolwg

Yn nhermau asesiad effaith allanol, asgwrn cefn y gwaith fydd dadansoddiad o'r arolwg eang o banel o 600 o fyfyrwyr. Fodd bynnag, fe fydd lle i asesiadau effaith ar raddfa lai drwy ddulliau gwahanol, megis arolwg grymus o athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd. Bwriad hyn yw nid yn unig i ddeall eu profiadau o unrhyw newidiadau yn ymddygiad disgyblion ysgol, ond hefyd yr effaith ar eu bywydau eu hunain a'u gyrfa o ganlyniad i ymyriadau sgiliau sylfaenol. Y dull a gynlluniwyd gennym i grwpiau eraill o fuddiolwyr yw asesu'r effeithiau'n ansoddol drwy grwpiau ffocws a chyfweliadau manwl gydag unigolion.

### Ymdrin ag Allanoldebau / Asesu'r Gwrthffeithiol

Wrth roi'r dull gwerthuso at ei gilydd, rydym wedi rhoi cryn bwyslais ar ymchwilio'r gwrthffeithiol – hynny yw, beth fyddai wedi digwydd petai yna ddim strategaeth wedi cael ei gosod yn ei lle, ac i asesu effaith y Strategaeth.

Mae yna nifer o anawsterau cynhenid wrth wneud asesiad o'r fath, pan fyddir yn ystyried effeithiau yr hyn sydd yn ei hanfod yn strategaeth hollbresennol. Er enghraifft:

- Bydd effeithiau'r strategaeth yn bennaf yn fudd economaidd a chymdeithasol, fel newidiadau mewn statws cyflogaeth, cymryd rhan mewn dysgu a marchnadoedd gwaith. Yn ymarferol, byddai'n anodd os nad yn amhosibl i fonitro'r effeithiau hyn mewn plant oedran ysgol dros gyfnod y gwaith ymchwil, am y bydd llawer o'r buddiolwyr yn dal mewn addysg gorfodol ar ddiwedd y cyfnod ymchwil. Mae ein cynigion i olrhain yr effeithiau ehangach felly yn canolbwyntio ar fyfyrwyr sgiliau sylfaenol ôl-16.
- Yn ail, mae'r ystyriaeth fod yn rhaid i bob oedolyn sy'n cael ei gyllido orfod wynebu asesiad sgiliau sylfaenol cyn cychwyn ar unrhyw raglen dysgu. Mae'r ymdriniaeth gyffredinol o'r asesiad yn awgrymu na fydd yn bosibl yn gyffredinol i wahaniaethu rhwng oedolion sy'n fyfyrwyr prif lif gyda nodweddion tebyg eraill sydd, neu nad ydynt, yn derbyn cefnogaeth ychwanegol mewn rhifedd a llythrennedd.

Fodd bynnag, efallai fod yna ddewisiadau rheolaeth neu gymhariaeth o ganlyniad i, er enghraifft:

- Cynnal peilot, ble mae llinynnau newydd o gyflenwi yn cael eu cyflwyno ar sail rhanbarth neu isranbarth i ddechrau, neu i grwpiau targed neilltuol.
- Cymharu y rhai sydd yn dysgu ac yn derbyn cefnogaeth sgiliau sylfaenol gyda'r rhai nad ydynt yn dysgu, ond fel arall gyda nodweddion tebyg. Gallai hyn gael ei wneud naill ai drwy ddefnyddio technegau fel sefydlu rheolydd ffurfiol gan ddefnyddio Cydweddu Sgoriau Tueddiad (*Propensity Score Matching)* neu y dull "Canfod Cyfaill" a ddisgrifir yn ddiweddarach yn yr adran hon.

- Yn drydydd, mae yna amrywiaeth eang o allanoldebau sy'n effeithio ar yr un grwpiau targed a'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol, efallai yn arbennig yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ble mae'n debyg y bydd yna nifer o weithgareddau cyflenwol neu gystadleuol wedi'u targedu at y garfan sydd o ddiddordeb.

Wrth i ni ddylunio'r rhaglen waith, rydym wedi ystyried amrywiaeth o ddewisiadau i asesu'r gwrthffeithiol a nodir rhai o'r rhain isod, ynghyd â'u potensial i gael eu defnyddio yn ystod y Gwerthusiad.

- **Rheolyddion Ffurfiol.** Mewn theori, byddai'n bosibl gwneud ymdrech i sefydlu grŵp rheolydd ffurfiol neu grŵp cymharu, er mwyn cymharu sampl o fyfyrwyr sgiliau sylfaenol. Er enghraifft, gellid ailgysylltu â'r unigolion wnaeth gymryd rhan yn yr Arolwg Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol ac yr oedd eu sgôr yn y prawf ar Lefel mynediad mewn rhifedd ac heb fod yn uwch na Lefel 1 mewn llythrennedd. Fodd bynnag, byddai hyn yn ddwys o ran adnoddau ac yn cael ei gyfyngu gan faint y sampl sydd ar gael i ni.
- **Cynnal Peilot.** Ble mae cyfle'n codi, byddwn yn cymryd mantais o'r rhaglenni peilot i gymharu profiadau buddiolwyr o fewn yr un ardal neu ardaloedd peilot, gyda phrofiadau unigolion tebyg neu sy'n gyfatebol sy'n byw yn rhywle arall.
- **"Dewch â Chyfaill"** Byddai hyn yn golygu defnyddio dull 'paru' mwy anffurfiol ble y byddid yn gofyn i fuddiolwyr unigol ar darpariaeth i "ddod â chyfaill" (yn llythrennol neu'n drosiadol), i enwi rhywun yn eu rhwydwaith cymdeithasol hwy sydd (yn eu barn hwy) gyda phrofiad, cymwysterau a sgiliau gweddol debyg, ac sydd hefyd yn barod i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil. Yn ystod y gwerthusiad, mae yna botensial i ddefnyddio hwn mewn ardaloedd bach neu grwpiau, ble byddai hyblygrwydd y dull yn fuddiol.
- **Rheolyddion Rhithwir / Grwpiau Cymharu.** Efallai ei bod yn bosibl adeiladu proffil o sampl myfyrwyr ac wedyn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau ystadegol ac arolwg i gymharu deilliannau ehangach ein sampl gyda grwpiau tebyg yn y boblogaeth gyfan. Yn anochel, bydd hyn yn caniatáu yn unig i gymariaethau gael eu gwneud, a bydd hefyd angen arbenigedd da iawn wrth ddehongli setiau o ddata amrywiol, ond er hynny rydym yn ystyried, ei fod yn cynnig dewis hyfyw i asesu'r gwrthffeithiol.

- **Dull Gofodol.** Awgrymwn y bydd gwerth mewn defnyddio dulliau gofodol, fel ardaloedd astudiaethau achos, er mwyn caniatáu cymariaethau rhwng llinynnau o weithgareddau ac effeithiau cyflenwi ar unigolion mewn gwahanol rannau o Gymru. Yn ychwanegol, mae yna le i ystyriaeth ofodol ble mae'r cyflenwi yn canolbwyntio ar leoliadau neilltuol – er enghraifft Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Yn yr achosion hyn, bydd cyfleoedd i wneud cymariaethau rhwng newidiadau yn ymddygiad y buddiolwyr a rhai'r unigolion sydd wedi'u paru (naill ai drwy PSM[2] neu Canfod Cyfaill) mewn ardaloedd sydd heb fod yn rhai Cymunedau yn Gyntaf.

**Dadansoddiad Arolwg Eang**

Awgrymwn y dulliau canlynol i archwilio ymhellach ddata yr arolwg, profi'r canlyniadau, ac i asesu elfennau o'r gwrthffeithiol:

- **Dadansoddiad Clwstwr:** Ein hamcan yma yw dosbarthu'r cyfranogwyr i grwpiau yn y fath fodd, er enghraifft, fel fod maint y cydgysylltiad rhwng dau gyfranogwr yn cael ei facsimeiddio os gosodir hwy mewn un grŵp ond yn cael ei finimeiddio os rhoir hwy mewn grwpiau gwahanol. Bydd nodweddion grŵp yn cynnwys ffactorau fel lleoliad, statws marchnad waith, oed, enillion, iechyd etc.
- **Dadansoddiad Ystadegol Eraill**: Bydd y panel o ddata hefyd yn caniatáu dadansoddiad mwy ffurfiol o faint y mae dwyster a natur y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol (er enghraifft, os yw ynghanol darpariaeth arall neu wedi'i gyflenwi ar ei ben ei hun) yn arwyddocaol gysylltiedig gyda maint canlyniadau'r prawf.

**Ymchwilio Materion Gwrthffeithiol**

Byddwn yn ymdrin â'r gwrthffeithiol yn ei hanfod mewn dwy brif ffordd. Bydd **Asesiad Llinell Sylfaen** yn darparu man cychwyn i'r tîm ymchwil i archwilio cyfres o dueddiadau yn yr ardaloedd ble ceir y buddiolwyr. Yn y ffordd hon, gellir cysylltu maintioli'r deilliannau positif i broffil deinamig yr economïau lleol, a bydd yn bosibl ymchwilio y tebygolrwydd o ddeilliannau tebyg i grwpiau o gylchoedd cyfoedion sy'n gysylltiedig. Ceir gwybodaeth am natur y cylchoedd cyfoedion gan y dadansoddi clwstwr a amlinellwyd uchod. Wrth wneud y dadansoddiad hwn, byddwn yn monitro newidiadau yn amgylchiadau ein panel o fyfyrwyr sgiliau sylfaenol yn erbyn y newidiadau yn amgylchiadau "cefndir" carfannau tebyg yn y boblogaeth ehangach, gan ddefnyddio amrywiaeth o setiau data. Awgrymwn fod yr ardaloedd Awdurdod Unedig yn cynrychioli'r lefel ofodol mwyaf priodol ar gyfer y gweithgaredd hwn. Yn ail bydd **y Rhaglen Gwaith Maes** yn cyfrannu at asesu'r gwrthffeithiol drwy amrywiaeth o dechnegau, gan gynnwys:

---

[2] Cydweddu Sgoriau Tueddiad (PSM)

- Cyfweliadau ansoddol gyda swyddogion prosiect a darparwyr hyfforddiant mewn ardaloedd astudiaethau achos.
- Arolygon meintiol ar raddfa lai o ddarparwyr hyfforddiant, athrawon ac is-grwpiau o fyfyrwyr hŷn.
- Profi ar-lein o ddangosyddion seicolegol y myfyrwyr fel locws rheoli neu hunanhyder, gan ddefnyddio deunyddiau a ddatblygwyd ar yfer gwaith yn UDA.
- Grwpiau ffocws gyda buddiolwyr o Grwpiau Targed mewn ardaloedd astudiaethau achos.

**Dull Ymchwilio Gwaith Maes**

Cynlluniwyd rhaglen gwaith maes fydd yn cyfarfod â gofynion y Fframwaith Gwerthuso oddi mewn i'r gyllideb sydd ar gael a'r amserlen ar gyfer y gwerthusiad. Penderfynwyd yn gynnar y dylai'r dull gynnwys cyfuniad o waith maes meintiol ac ansoddol, gan gynnwys arolwg eang o fyfyrwyr ac asesiad sgiliau sylfaenol cyn ac ar ôl dysgu, gydag asesiad pellach 12 mis ar ôl cwblhau (neu derfyniad) dysgu. Fodd bynnag, mae rhai cwestiynau allweddol sydd angen eu datrys er mwyn dod â'r dull i ben:

- **Ymdrin â Phrofion Sgiliau Sylfaenol.** Wrth ddewis dull o brofi sgiliau sylfaenol myfyrwyr, ystyriwyd nifer o wahanol ddulliau, yn arbennig y profion a ddatblygwyd gan CDELL ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol yng Nghymru, y rhai a ddefnyddiwyd gan yr NRDC ar gyfer y '*British Cohort Study'* (BCS), a'r cyfuniad o brofion NIESR a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad eang cyfredol o Sgiliau Bywyd (*Skills for Life*) yn Lloegr. Er bod pob un o'r rhain yn cynnig rhai manteision arwyddocaol yn nhermau cynllunio neu gydweddu gyda'r setiau data mwyaf, penderfynwyd maï'r ffordd fwyaf effeithiol i roi prawf fyddai gweithio gyda darparwyr dysgu er mwyn gwneud defnydd o asesiadau myfyrwyr sydd eisoes yn bodoli, cyn ac ar ôl dysgu. Byddai hyn yn cael ei ddilyn gydag asesiad gan y tîm ymchwil 12 mis ar ôl dysgu yng nghartref y buddiolwyr. Byddai hyn yn golygu defnyddio yr un offer asesu – naill ai yr un ddatblygwyd gan yr ASS neu fodel Coleg Gorllewin Swydd Nottingham a ddefnyddir gan nifer o ddarparwyr.

  Byddai manteision dull o'r fath yn cynnwys:

  - Llai o faich ar y myfyrwyr yn nhermau y nifer o asesiadau a wnaed
  - Arbed costau, ac felly rhyddhau adnoddau i ehangu'r sampl neu i ymchwilio cylchoedd gwaith ychwanegol
  - Cymaroldeb gyda set data LLWR (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru)
- **Defnydd o ardaloedd Astudiaethau Achos.** Cynigiwn y defnydd o ardaloedd astudiaethau achos wedi'u seilio o amgylch Awdurdodau Unedol ar gyfer elfennau

unigol y gwerthusiad, er mwyn darparu darlun manylach o weithgareddau mewn nifer o ardaloedd yn hytrach na golwg mwy gwasgaredig ar weithgaredd ledled Cymru. Yn amlwg, efallai na fydd hyn yn ymarferol ar gyfer rhai agweddau o'r cyflenwi; er enghraifft yn achos cefnogaeth i droseddwyr mewn sefydliadau, gan nad oes carchardai yng Ngogledd Cymru nac yn wir yn y mwyafrif o ardaloedd Yr Awdurdodau Unedol. Oddi fewn i'r gwerthusiad, bwriadwn ymdrin â gwaith maes i ddechrau drwy Brosiectau Cefnogaeth Cenedlaethol (NSP) (gan gynnwys y rhai hynny a weinyddir gan yr ASS) a'r grwpiau blaenoriaeth perthnasol[3], ond hefyd wedi'u traws gyfeirio yn erbyn yr ardaloedd astudiaethau achos, ble mae'n briodol.

[3] Blynyddoedd Cynnar, Cynradd, Uwchradd, Ôl-16, Traws gyfnod

**Ffigur 2 Amlinelliad Cychwynnol o'r Dull Ymchwil**

| Thema Gwerthuso | Materion Ymchwil | Gweithgareddau Enghreifftiol |
|---|---|---|
| Lefel 1<br>Gwerthuso Strategol | • Cydweddu â'r polisi<br>• Icyfannu a Chylynu Rhaglenni SS gydag ymyriadau eraill ar Lefel Strategol<br>• Perthynas Reoli rhwng LICC a'r ASS<br>• Perthynas gyda'r ASS yn y DU | • Adolygu Polisi<br>• Cyfweliadau hysbyswyr allweddol e.e.:<br>LICC / ASS DG/ Rheolaeth ASS Cymru / AADGOS / Estyn/ CBI/ TUC Cymru / Fforwm/ CLILC |
| Lefel 2<br>Gwerthuso Rheoli Cyflenwi | • Perthynas Reoli rhwng yr ASS ag Isgontractwyr y Cynllun Cyflenwi<br>• Dyluniad y Cynllun Cyflenwi<br>• Rperthynas rhwng Amcanion y Cynllun Cyflenwi a Nodau ac Amcanion y Strategaeth<br>• Monitro'r Cynllun Cyflenwi a Gweithgareddau Gwerthuso<br>• I ba raddau mae Rhwydweithio / Rhannu Gwybodaeth yn digwydd ar draws pob gweithgaredd | • Adolygu Dogfennaeth y Rhaglen<br>• Adolygu System Wybodaeth Reoli'r Rhaglen<br>• Cyfweliadau gyda Staff ASS<br>• Cyfweliadau gyda e.e.:<br>Contractwyr Cyflenwi<br>Staff NSP<br>AALI |
| Lefel 3<br>Gwerthuso'r Broses Gyflenwi / Datblygiad Isadeiledd | • Cyrraedd Amcanion y Cynllun Cyflenwi<br>• Perthynas rhwng ASS / Isgontractwyr Cyflenwi a Buddiolwyr y Cynllun Cyflenwi<br>• Effaith ar Fuddiolwyr y Cynllun Cyflenwi e.e.:<br>Gwelliant o ganlyniad I Gymrud Rhan mewn Gweithgareddau SS<br>Gwell Ymwybyddiaeth o faterion SS<br>Mwy o Adnoddau ar gyfer Materion SS | • Gwybodaeth Gwerthuso a Monitro<br>• Cyfweliadau gyda Buddiolwyr y Cynllun Cyflenwi e.e:<br>Darparwyr Dysgu<br>Cyflogwyr<br>Athrawon |
| Lefel 4<br>Gwerthuso'r Effaith ar Gyflenwi / Buddiolwyr y Strategaith | • Profiadau Myfyrwyr o Ddarpariaeth sy'n cael ei Gefnogi gan y Strategaeth<br>• Newidiadau yn Lefelau Sgiliau Sylfaenol Myfyrwyr<br>• Newidiadau yn Ymddygiad / Amgylchiadau Myfyrwyr<br>• Y Graddau y gellir priodoli'r Newidiadau I'r Strategaeth | • Arolwg Eang o Fyfyrwyr Hyn<br>• Cyfweliadau Ansoddol gyda Buddiolwyr y Strategaeth<br>• Profi levelau Sgiliau Dysgwyr Cynt ac Wedyn: Economaidd / Iechyd / Cymdeithasol.<br>• Mesurau I Fynd I'r Afael â'r Allanoldebau a'r Gwrthffeithiol |

Mae Ffigur 2 uchod yn rhoi trosolwg cychwynnol o sut y gellid mynd ati i wneud y gwaith maes gwerthuso. Mae'r diagram yn dangos, yn ei hanfod, y gallai'r ymdriniaeth â gwaith maes gynnwys pedair lefel o fewn dwy, gan orgyffwrdd gwerthusiadau sy'n berthnasol i weithgareddau'r Cynllun Cyflenwi – yn bennaf datblygiad yr isadeiledd dysgu, ac Amcanion y Strategaeth – yn bennaf cyflenwi dysgu a'i effeithiau cysylltiol.

Mae Tabl 1 isod yn rhoi mwy o fanylion am y gwaith maes sydd wedi'i gynllunio dros dair blynedd y gwerthusiad. Mae'r gweithgareddau ar gyfer blynyddoedd 2007-08 ac ymhellach ar ffurf drafft ar hyn o bryd, gan fod yna ddiffyg gwybodaeth am ymyriadau sydd wedi'u cynllunio dan y Strategaeth mewn blynyddoedd dilynol.

### Trefniadau Cyflwyno Adroddiadau

Bydd adroddiadau cynnydd rheolaidd yn cael eu hanfon i'r Cleient ar bob cam o'r gwerthusiad. Bydd yr adroddiadau yn anelu at grynhoi gweithgareddau gwerthuso i'r pwynt hwn ac i roi gwybodaeth am y newidiadau mewn polisi ac yn ymarferol yng nghyfnodau cyflenwi dilynol y Strategaeth.

**2006/07:** Anfonir Adroddiadau Gwerthuso i'r cleient yn ystod 2006/07 fel a ganlyn:

- Adroddiad Cychwynnol
- Adroddiad Gweithdy AAS/Prosiect Cefnogaeth Cenedlaethol
- Adroddiad Gwerthuso Strategol
- Adroddiad Effeithiolrwydd Rheoli

**2007/08:** Y prif gynnyrch yn ystod y cyfnod hwn fydd:

- Tablau arolwg meintiol ac adroddiad trosolwg
- Adroddiad gweithdy'r tîm mewnol
- Adroddiad gwerthuso llinell sylfaen

**2008/09:** Y prif gynnyrch yn ystod y cyfnod hwn fydd:

- Tablau arolwg meintiol ac adroddiad trosolwg
- Adroddiadau grwpiau ffocws
- Adroddiad gwerthusiad hanner tymor

**2009/10.** Bydd yr adroddiad gwerthuso terfynol yn darparu asesiad cynhwysfawr o effeithiolrwydd cyflenwi'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol a bydd yn cynnig peth mewnwelediad i effaith y Strategaeth ar fywydau'r rhai sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau Sgiliau Sylfaenol.

Yn ychwanegol, gwneir argymhellion am newidiadau i gyflenwi yn y dyfodol, ynghyd â chyfrifoldebau a graddfeydd amser.

**Tabl 1 Cyfrifoldebau Arwain ac Amserlen Waith**

| **Prosiect Cefnogaeth Cenedlaethol (NSP)** | **Gweithredoedd 2006/07** | **Gweithredoedd 2007/08** | **Gweithredoedd 2008/09** | **Gweithredoedd 2009/10** |
|---|---|---|---|---|
| Blynyddoedd Cynnar | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect.<br>Adolygiad o ddeunyddiau a System Gwybodaeth Rheoli (MIS) sydd eisoes yn bod | Cyfweliadau gyda sampl o Ddarparwyr CAI / CAR mewn ardaloedd astudiaethau achos.<br>Cyfweliadau gyda staff Dechrau Da. | | Cyfweliadau gyda sampl o Ddarparwyr LAP / NAP mewn ardaloedd astudiaethau achos.<br>Cyfweliadau gyda staff Dechrau Da. |
| Pobl Ifanc | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect.<br>Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gydag AALI / Cynrychiolyddion ysgol mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos.<br>Cyfweliadau ansoddol gydag AALI / Ysgolion sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos.<br>Arolwg Meintiol o athrawon Ysgolion Cynradd ac Uwchradd | | Cyfweliadau ansoddol gydag AALI / Cynrychiolyddion ysgol mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos.<br>Cyfweliadau ansoddol gydag AALI / Ysgolion sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos |
| Troseddwyr / Cyn droseddwyr | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect.<br>Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gyda Staff Carchardai / NOMS.<br>Cyfweliadau ansoddol gyda staff y Gwasanaeth Prawf mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos.<br>Arolwg Meintiol o Droseddwyr yn cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | Arolwg Meintiol o Droseddwyr yn cymryd rhan mewn dysgu SS (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | Cyfweliadau ansoddol gyda Staff Carchardai / NOMS.<br>Cyfweliadau ansoddol gyda staff y Gwasanaeth Prawf mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos.<br>Arolwg Meintiol a Phrofi Sgiliau Sylfaenol Troseddwyr sy'n cymryd rhan mewn Dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) |

| **Prosiect Cefnogaeth Cenedlaethol (NSP)** | **Gweithredoedd 2006/07** | **Gweithredoedd 2007/08** | **Gweithredoedd 2008/09** | **Gweithredoedd 2009/10** |
|---|---|---|---|---|
| Hyfforddi a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gyda staff Learndirect / Ufl. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n derbyn Cefnogaeth Ymgynghorol gan yr ASS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda chynrychiolyddion CCET mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | | Cyfweliadau ansoddol gyda staff Learndirect / Ufl. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n derbyn Cefnogaeth Ymgynghorol gan yr ASS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda chynrychiolyddion CCET mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. |
| Yr Iaith Gymraeg | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n derbyn Cefnogaeth Ymgynghorol gan yr ASS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Grwpiau Ffocws bychan gyda myfyrwyr mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n derbyn Cefnogaeth Ymgynghorol gan yr ASS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. |

| **Prosiect Cefnogaeth Cenedlaethol (NSP)** | **Gweithredoedd 2006/07** | **Gweithredoedd 2007/08** | **Gweithredoedd 2008/09** | **Gweithredoedd 2009/10** |
|---|---|---|---|---|
| ESOL/EAL | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau Gyda Darparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gydag Darparwyr sy'n derbyn Cefnogaeth Ymgynghorol gan yr ASS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Grwpiau Ffocws bychan gyda myfyrwyr mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Cyfweliadau Gyda Darparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gydag Darparwyr sy'n derbyn Cefnogaeth Ymgynghorol gan yr ASS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. |
| Grwpiau mewn perygl o allgáu cymdeithasol | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Grwpiau Ffocws bychan gyda myfyrwyr mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Cyfweliadau ansoddol gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. |
| Gweithlu – Addewid y Cyflogwr | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gyda sampl o Gyflogwyr mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda chyflogwyr sy'n derbyn Cefnogaeth Ymgynghorol gan yr ASS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Arolwg Meintiol o Fyfyrwyr y Gweithle sy'n cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. |
| | | Arolwg Meintiol Myfyrwyr y Gweithle sy'n cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | Cyfweliadau ansoddol gyda sampl o Undeb Cynrychiolyddion Dysgu mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Arolwg Meintiol a Phrofi Sgiliau Sylfaenol Myfyrwyr yn y Gweithle sy'n cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) |
| Llythrennedd Ariannol | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gyda Phartneriaid Cyflenwi mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. |
| Prosiectau wedi'i harwain | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. | Cyfweliadau ansoddol gyda Phartneriaid Cyflenwi mewn Ardaloedd | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. |

| Prosiect Cefnogaeth Cenedlaethol (NSP) | Gweithredoedd 2006/07 | Gweithredoedd 2007/08 | Gweithredoedd 2008/09 | Gweithredoedd 2009/10 |
|---|---|---|---|---|
| gan y Sector Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) | Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Astudiaethau Achos. | | |
| Oedolion sy'n Dysgu | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n derbyn Cefnogaeth Ymgynghorol gan yr ASS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Arolwg Meintiol o Oedolion sy'n Dysgu sy'n cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. |
| | | Arolwg Meintiol o Oedolion sy'n Dysgu sy'n cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | | Arolwg Meintiol a Phrofi Sgiliau Sylfaenol Oedolion sy'n Dysgu sy'n cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol |
| | | Arolwg Meintiol o Ddarparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Arolwg Meintiol o Fyfyrwyr yn y Gweithle sy'n cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | Arolwg Meintiol a phrofi Sgiliau Sylfaenol cyn fyfyrwyr yn y Gweithle 12 mis ar ôl i'r dysgu orffen (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) |
| | | Arolwg Meintiol o Fyfyrwyr yn y Gweithle sy'n cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | | |
| Ceiswyr Gwaith | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gyda Chanolfan Byd Gwaith a Staff mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Arolwg Meintiol o Geiswyr Gwaith yn cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. |
| | | Arolwg Meintiol o Geiswyr Gwaith yn cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o | | Arolwg Meintiol a Phrofi Sgiliau Sylfaenol cyn Geiswyr Gwaith yn cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau |

| **Prosiect Cefnogaeth Cenedlaethol (NSP)** | **Gweithredoedd 2006/07** | **Gweithredoedd 2007/08** | **Gweithredoedd 2008/09** | **Gweithredoedd 2009/10** |
|---|---|---|---|---|
| | | fyfyrwyr) | | Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) |
| Gweithgaredd Arall | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. |

Anfonir yr holl adroddiadau ar ffurf drafft i'w hystyried gan y Grŵp Llywio, cyn cwblhau a chyfieithu'r adroddiadau.

### Sut beth fydd Llwyddiant?

Bydd gwerthusiad llwyddiannus yn darparu trosolwg trwyadl o bob agwedd o'r Strategaeth a'i pheirianweithiau cyflenwi. Bydd pob set o ymyriadau yn cael eu gwerthuso gan grŵp blaenoriaeth a, ble mae'n briodol, gan ardal astudiaethau achos i roi darlun sy'n esblygu o ba agweddau o'r strategaeth gyflenwi sydd wedi bod yn neilltuol o lwyddiannus, neu ble mae sialensiau yn parhau. Amlygir enghreifftiau o ymarfer da a bydd monitro ar gyrhaeddiad cydweithio yn ddaearyddol neu ar draws Prosiectau Cefnogaeth Cenedlaethol (NSP).

Defnyddir y canlyniadau o arolygon meintiol i benderfynu i ba raddau y gwnaeth ymwneud ag ymyriadau Sgiliau Sylfaenol greu newid mewn ymddygiad ac amgylchiadau buddiolwyr unigol. Er fod hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar oedolion sy'n dysgu ac is-setiau o'r grŵp hwn, bydd hefyd yn cwmpasu athrawon, cyflogwyr a rhieni pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni sgiliau sylfaenol.

Bwriedir i'r arolwg eang, asesiad o oedolion sy'n dysgu a dadansoddiad dilynol ddarparu rhai arwyddion o effaith ymyriadau sgiliau sylfaenol, yn nhermau gwella sgiliau sylfaenol buddiolwyr ac yn yr effeithiau ehangach ar fesurau economaidd, cymdeithasol a lles. Er mai hwn yn ddiamheuol yw agwedd mwyaf heriol y gwaith, rydym yn hyderus fod yr amrywiaeth o dechnegau sydd ar gael i ni yn cynnig cyfleoedd i godi lefel ein dealltwriaeth yn y cylchoedd hyn

# 1 Cyflwyniad, Cefndir a Sail Resymegol i'r Gwerthusiad

## 1.1 Cyflwyniad

Ym Mis Mehefin 2006, comisiynodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gonsortiwm dan arweiniad Miller Research (UK) Cyf i werthuso effaith Strategaeth Sgiliau Sylfaenol i Gymru, hyd at 2010.

Comisiynwyd y gwerthusiad mewn dau gam:

- Ymgymryd ag astudiaeth gwmpasu i ddarparu fframwaith gwerthuso
- Gwerthuso effaith y Strategaeth hyd at 2009-10

Mae Cam 1 yr adroddiad yn gosod canlyniadau a chasgliadau'r cyfnod cwmpasu ac yn darparu fframwaith gwerthuso a rhaglen waith gychwynnol i'r prosiect. Dylid nodi, fodd bynnag, fod yr ymdriniaeth a awgrymir yn rhannol arbrofol. Fe'i heffeithir hefyd gan allanoldebau oddi fewn i'r weinyddiaeth a chyflenwi'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'r Strategaeth. Felly, bydd gofyn i ni gadw elfen o hyblygrwydd yn ein hymdriniaeth, er mwyn amlhau effeithiolrwydd y gwaith dros gyfnod y gwerthusiad.

## 1.2 Sail Resymegol y Gwerthusiad

Daw'r prosiect gwerthuso hwn yn gynnar yng nghyfnod cyflenwi'r ail Strategaeth Sgiliau Sylfaenol pob oed ar gyfer Cymru[4], sy'n anelu at adeiladu ar y cynydd a wnaed yn ystod oes y Strategaeth gyntaf. Mae'r gwerthusiad yn cynnig cyfle pwysig ac unigryw i asesu a dylanwadu ar y cynydd wrth ymdrin ag anghenion Sgiliau Sylfaenol ar draws Cymru hyd at 2009-10.

Cydnabyddir fod problem benodol gyda sgiliau sylfaenol isel yng Nghymru, o'i gymharu â'r DU yn gyffredinol a gyda chenhedloedd datblygedig eraill. Hefyd, tra bod tystiolaeth o'r cysylltiad rhwng sgiliau sylfaenol isel â "chanlyniadau economaidd a chymdeithasol gwael", mae prinder gwybodaeth ynglŷn ag ymatebion i bolisi llwyddiannus a thystiolaeth am yr hyn sy'n llwyddo o safbwynt mynd i'r afael ag anghenion sgiliau sylfaenol. Mae hyn ar waethaf buddsoddiad arwyddocaol mewn agweddau tuag at werthuso rhaglenni tebyg, tebyg i raglen Sgiliau ar gyfer Bywyd yn Lloegr.

[4] *"Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri".* Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005.

Felly, y sail resymegol i'r ymchwil yma yw darparu gwell sylfaen tystiolaeth i danlinellu polisi a strategaeth datblygu ym myd sgiliau sylfaenol. Yn benodol, bydd gofyn archwilio effeithiolrwydd y gweithgareddau cyfredol, yn nhermau:

- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd sgiliau sylfaenol cadarn
- Ymestyn a gwella gallu'r darparwr i drosglwyddo'n effeithiol sgiliau dysgu sylfaenol
- Cynyddu sgiliau sylfaenol poblogaeth Cymru.

Yn ychwanegol, bydd angen ceisio datblygu peth dealltwriaeth pa un ai a yw bod yn rhan o weithgareddau'r strategaeth a/neu o'r gwelliannau mewn lefelau sgiliau sylfaenol, yn gallu creu newid yn lles economaidd a chymdeithasol unigolion.

Mae Cyfarwyddyd y Cwsmer yn wreiddiol dros werthuso yn nodi mai ei bwrpas yw:

*"Ymchwilio'r Strategaeth yn gadarn ac yn annibynnol er mwyn gwerthuso'i effaith."*

Mae dwy agwedd allweddol ar hyn:

- Asesiad cynllun a phroses y Strategaeth a'i gyflenwi; ystyried y cynllun strategol a rheolaeth y broses, ynghyd â'r buddiannau fydd yn deillio i'r partneriaid cyflenwi a'r buddiolwyr.
- Asesiad o ddylanwad y Strategaeth, gan ystyried y dylanwadau ehangach ar ddeunydd economaidd a chymdeithasol Cymru.

Er bod Strategaeth Sgiliau Sylfaenol yn canolbwyntio ar gyflwyno canlyniadau yn nhermau lefelau gwell o lythrennedd a rhifedd i blant ac oedolion, mae canlyniadau'r strategaeth yn ymwneud yn fwy â chanlyniadau cymdeithasol ac economaidd mae lefelau isel o sgiliau sylfaenol yn eu heffeithio.

Fel y cyfryw felly, bydd y canlyniadau a ddymunir yn syrthio fwy na heb y tu allan i gylch uniongyrchol y dylanwad, mewn mannau tebyg i well perfformiad economaidd a chyfranogiad y farchnad waith, problemau iechyd gostyngol, mwy o gydlyniad cymdeithasol a mwy o gymryd rhan mewn dysgu'n gyffredinol. Mae'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol yn nodi nad yw'r canlyniadau hyn "bob amser yn fesuradwy neu, hyd yn oed pan fyddent, mae'n amhosib priodoli achos ac effaith."

Felly yr her allweddol i'r gwaith ymchwil hwn yw creu agwedd at gasglu tystiolaeth a dadansoddi, fydd yn darparu rhai dangosyddion ymarferol sy'n dangos effeithiolrwydd

cyffredinol a dylanwad y Strategaeth yn ei grynswth, tra'n gweithredu ar lefel is i asesu beth sy'n gweithio'n llwyddiannus ac o dan ba amgylchiadau, yn nhermau gweithgareddau unigol a grwpiau targed.

Wrth gasglu'r rhaglen waith at ei gilydd ar gyfer y gwerthuso, rydym wedi cydnabod y pwyslais cynyddol oddi fewn i gyflenwi'r ail strategaeth ar fonitro mewnol y rhaglenni. Byddwn yn amcanu i ddefnyddio'r data a'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithgaredd hwn, tra'n:

- asesu ei gryfder a'i effeithiolrwydd wrth werthuso y gweithgaredd cyflenwi
- llenwi bylchau ble bynnag maent yn digwydd, neu
- dylanwadu ar weithgareddau monitro'r dyfodol i wella'r ymdriniaeth o'r wybodaeth

Gwnaethpwyd cryn dipyn o ymdrech i drin y pynciau sy'n ymwneud ag asesu dylanwad ac yn benodol yr agweddau:

- wrth gynnal arolwg eang o fyfyrwyr
- wrth brofi sgiliau sylfaenol y sampl eang ar cerrig milltir allweddol yn y gwerthusiad
- wrth ymdrin ag allanoldebau / asesu'r gwrthffeithiol

### 1.3 Strwythur yr Adroddiad

Mae Adran 2 yn rhoi rywfaint o gefndir i'r strategaeth Sgiliau Sylfaenol a'r cynydd yn y cyflenwi hyd yma

Mae Adran 3 yn gosod y fframwaith gwerthuso a ddatblygwyd gennym ar gyfer Adran 2 o'r gwerthusiad.

Mae Adran 4 yn trafod pynciau fel ymdrin ag allanoldebau / mynd i'r afael â'r gwrthffeithiol

Mae Adran 5 yn ymwneud ag agweddau ar brofi sgiliau sylfaenol

Mae Adran 6 yn cynnig dull o ddefnyddio Ardaloedd Astudiaethau Achos

Mae Adran 7 yn cyflwyno ein hagwedd awgrymedig tuag at waith maes.

Mae Adran 8 yn gosod ein rhaglen waith awgrymedig ar gyfer 2006-07

Mae Adran 9 yn gosod ein rhaglen waith awgrymedig ar gyfer 2007-08

Mae Adran 10 yn gosod ein rhaglen waith awgrymedig ar gyfer 2008-09

Mae Adran 11 yn gosod ein rhaglen waith awgrymedig ar gyfer 2009-10

Mae Adran 12 yn disgrifio ein trefniadau ar gyfer y staff

Mae Adran 13 yn dangos y rhaglen waith awgrymedig, yr amseroedd a chostau amlinellol

# 2 Strategaeth Sgiliau Sylfaenol / Cynllun Cyflenwi i Gymru

## 2.1 Cyflwyniad

Yn yr adran hon o'r adroddiad, cyflwynwn drosolwg o'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol cyfredol i Gymru a'r Cynllun Cyflenwi ar gyfer 2006-2007. Mae'r deunydd yn cyflwyno'r cyd-destun ar gyfer y casgliad o'r Fframwaith Gwerthuso a ddisgrifir yn Adran 3 o'r adroddiad hwn.

## 2.2 Strategaeth Sgiliau Sylfaenol i Gymru

Cyhoeddwyd *Geiriau'n Galw – Rhifau'n Cyfri* gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Ebrill 2005 ac mae'n gosod cynllun pum mlynedd i godi safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Mae'r Cynulliad yn diffinio sgiliau sylfaenol fel *y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad yn Saesneg neu yng Nghymraeg, ac i ddefnyddio mathemateg ar lefel sy'n angenrheidiol i weithredu a datblygu mewn gwaith ac mewn cymdeithas.*

Mae'r strategaeth yn gosod prif amcanion Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â sgiliau sylfaenol.

- Dylai pob plentyn ifanc gael ei baratoi ar gyfer dysgu pan fydd yn dechrau yn yr ysgol.
- Dylid lleihau ymhellach y nifer o blant sy'n gadael ysgolion cynradd ac yn cael trafferth i ymgodymu â darllen, ysgrifennu a'r defnydd o rif.
- Dylai llai o bobl ifanc adael addysg gorfodol a hwythau'n dal i gael trafferth gyda sgiliau sylfaenol.
- Dylai nifer yr oedolion â sgiliau sylfaenol isel gael ei ostwng yn sylweddol.

Strwythurwyd y Strategaeth gan ddeg thema llorweddol a deg grŵp blaenoriaeth, sydd o anghenraid yn diffinio'r prif fannau ymyrraeth a'r buddiolwyr y bwriedir iddynt elwa o'r Strategaeth. Mae'r themâu llorweddol, y ceir enghreifftiau ohonynt yn Nhabl 2 isod, yn cysylltu'n bennaf â'r gweithrediadau sy'n cefnogi a datblygu isadeiledd y Sgiliau Sylfaenol, yn codi ymwybyddiaeth a monitro cynydd, yn hytrach na bod yn rhan uniongyrchol o'r cyflenwi.

**Tabl 2 Strategaeth Sgiliau Sylfaenol – Themâu Llorweddol**

| | |
|---|---|
| Codi ymwybyddiaeth | Gwell adnabyddiaeth o'r anghenion dysgu a thracio cynydd. |
| Darparu gwell ystod o ddysgu deniadol. | Gwella ansawdd y ddarpariaeth. |
| Datblygu gweithlu'r athrawon | Cymwysterau ac asesiad sy'n gweddu'r pwrpas. |
| Gwell cymorth a chefnogaeth i'r myfyrwyr. | Yr Iaith Gymraeg |
| Cydweithio i amlhau'r dylanwad | Gwell tystiolaeth o'r hyn sy'n llwyddiannus |

Er bod rhai o'r Grwpiau Blaenoriaeth yn cael eu diffinio yn nhermau ystod oedran, (er enghraifft, blynyddoedd cynnar, addysg oedolion), mae eraill yn drawsdoriad ac, mewn rhai achosion, yn anoddach i'w diffinio (e.e. grwpiau eraill mewn perygl o allgáu cymdeithasol). Dangosir enghreifftiau o Grwpiau Blaenoriaeth yn Nhabl 3:

**Tabl 3 Strategaeth Sgiliau Sylfaenol – Grwpiau Blaenoriaeth**

| | |
|---|---|
| Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Sylfaen | Disgyblion sy'n tangyflawni yn yr ysgol. |
| Teuluoedd | Pobl ifanc |
| Addysg Oedolion | Pobl yn y gweithlu â sgiliau isel |
| Ceiswyr gwaith | Troseddwyr a Chyn-droseddwyr |
| Grwpiau eraill sydd mewn Perygl o Allgáu Cymdeithasol | Rhai sy'n siarad ieithoedd eraill |

Cefnogir amcanion y strategaeth gan ystod o dargedau a feintolwyd mewn perthynas â sgiliau sylfaenol gan gynnwys:

- Dylai 80% o oedolion sy'n gweithio gael o leiaf sgiliau llythrennedd Lefel 1 erbyn 2010, a dylai 55% fod ag o leiaf sgiliau rhifedd Lefel 1.
- Dylai pob ysgol gynnal safonau Marc Safon Sgiliau Sylfaenol
- Dylai darparwyr dysgu ôl-16 fod â Marc Safon erbyn 2006, a
- Dylai 50% o weithwyr fod yn gweithio i gyflogwyr sydd wedi arwyddo Addewid y Cyflogwr erbyn 2010.

### 2.3 Cynllun Cyflenwi'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol 2006-07 a'r Cynnydd Hyd Yma.

Mae'r Cynllun Cyflenwi yn cynnwys chwe dangosydd perfformiad allweddol (KPI), ac mae'r pedwar cyntaf yn adlewyrchu'n agos amcanion y Strategaeth. Ychwanegir at y rhain:

- Mwy o ymwybyddiaeth o'r anghenion am sgiliau sylfaenol ymhlith rhanddeiliaid ac eraill, gan gynnwys rhieni
- Datblygiadau effeithiol wedi eu cychwyn drwy i'r Strategaeth gael ei phlannu yn yr arfer lleol.

Mae'r chwe dangosydd perfformiad allweddol (DPA) hyn, ynghyd â'r deg thema llorweddol, yn rhoi gwybod beth yw cynnwys ein Fframwaith Gwerthuso, a ddisgrifir yn Adran 3 isod.

Mae Prosiectau Cymorth Cenedlaethol (NSP) wedi'u sefydlu i gefnogi ardaloedd gweithredu sy'n cysylltu'n gyffredinol â'r grwpiau blaenoriaeth. Hyd yn hyn, dyfarnwyd saith Prosiect Cymorth Cenedlaethol i gontractwyr allanol, cadwyd pedwar oddi fewn i'r cwmni gan y ASS ac mae dau eto i'w dosbarthu. (Am restr lawn o'r Prosiectau Cymorth Cenedlaethol (NSP), gweler Tabl 13 ar dudalen 91 o'r adroddiad hwn).

Mae cyllideb cyflenwi o £12.8m ar gael i gyflenwi Sgiliau Sylfaenol yn 2006-07. Gwelir y ffordd mae'r arian wedi ei ddosbarthu isod, gan ddangos ffocws gweithgaredd yr Asiantaeth yn ystod y flwyddyn gyfredol.

| **Rhaglen** | **Thema / Grŵp Blaenoriaeth** | **Gwariant** |
|---|---|---|
| Rhaglenni ChAI a ChAR | Blynyddoedd Cynnar | £1,360,500 |
| Bagiau llyfrau | Blynyddoedd Cynnar | £400,000 |
| Rhaglenni Teuluol | Teuluoedd | £1,613,000 |
| Marc Safon | Disgyblion yn tangyflawni | £679,500 |
| Grantiau Buddsoddiad Strategol (SIG) | Disgyblion yn tangyflawni | £2,592,000 |
| Grantiau Hyfforddi | Disgyblion yn tangyflawni | £1,255,000 |
| Cyfnod Croesi | Amryw | £110,000 |
| Prosiectau cymorth Cenedlaethol (NSP) | Amryw | £1,280,000 |
| Hyrwyddo a Lledaenu Gwybodaeth | Codi Ymwybyddiaeth | £2,235,000 |
| Gwasanaethau Cynnal | Gweinyddiaeth | £315,000 |
| Gwasanaethau Cynnal | Staffio | £960,000 |
| Cyfanswm | | £12,800,000 |

Gwnaeth yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ymrwymiad cynyddol i fonitro'r broses cyflenwi oddi fewn i'r cynllun cyfredol a bydd angen i'r gwerthusiad hwn gael ei gynllunio'n ofalus i adeiladu ar y gwaith hwn, gan ddilysu canlyniadau ble mae hynny'n bosibl, gweithio gyda'r Asiantaeth i lenwi bylchau yn yr wybodaeth ac arwain ymchwil sylfaenol ble mae hynny'n berthnasol. Felly disgwyliwn i'r prosiect rhoi gwybodaeth i'r cynlluniau cyflenwi ar gyfer y blynyddoedd sy'n dilyn ac i helpu siapio monitro mewnol a gweithgareddau gwerthuso.

**Ffigur 3 Strategaeth Sgiliau Sylfaenol – Gweithgareddau Cyflenwi a'r hyn sy'n wybyddus am Faint y Cynnydd ym mis Hydref 2006.**

| **Gweithgareddau** **Cyfnodau** | **Blynyddoedd Cynnar** | **Cynradd** | **Uwchradd** | **Ôl-16** | **Cyfnod Croes** |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwarae ac Iaith (ChAI) / Chwarae a Rhif (ChAR) | green | | | | |
| Darllena gyda Fi / Dechrau Da | green | green | | | |
| Rhaglenni Teuluol | | green | green | green | green |
| Marc Safon | | green | green | green | |
| Grant Buddsoddiad Strategol (SIG) | | green | green | | green |
| Grantiau AALI | | green | green | | |
| Cefnogwyr mewn Ysgolion (Cynorthwywyr Cymorth Dysgu - LSA) (Hyfforddiant drwy raglen grant) | | green | green | | |
| Menter Hyfforddiant Cynradd / Uwchradd | | green | green | | |
| Gwobr Teir-ran (Llythrennedd, Rhifedd, TGCh ). Cynlluniau peilot wedi'u cwblhau. | | | green | green | green |
| Hyfforddiant Athrawon Ôl-16 | | | | green | |
| Addysg Llythrennedd Ariannol ac Addysg Defnyddwyr | | | | green | |
| Prosiectau Cymorth Cenedlaethol (NSP) Pobl Ifanc (Ecotec) | | | green | green | |
| NSP ar gyfer Hyfforddi a Datblygiad Proffesiynol Parhaus | | green | green | green | |
| NSP ar gyfer y Gweithle ac Addewid y Cyflogwr | | | | green | |
| NSP ar gyfer Troseddwyr a Chyn-droseddwyr (Tribal) | | | | green | |
| NSP ar gyfer grwpiau mewn perygl o allgáu cymdeithasol( Cyngor Gwirfoddol Sir Fflint/ Caerfyrddin/ Abertawe / CGGC) | | | | green | |
| NSP ar gyfer cefnogi Rhaglenni ESOL/EAL | green | green | green | green | green |
| NSP ar gyfer Prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop | | green | green | green | green |
| NSP ar gyfer EAL/ESOL (Coleg Menai) | | green | green | green | green |
| NSP ar gyfer yr Iaith Gymraeg (Coleg Meirion Dwyfor) | | green | green | green | green |
| NSP Addysg Oedolion | | | | red | |
| NSP ar gyfer y rhai sy'n chwilio am Waith | | | | red | |

red: Ddim yn ei Le ar hyn o bryd. green: Yn ei Le ar hyn o bryd.

# 3 Fframwaith Gwerthuso

## 3.1 Cyflwyniad

Yn y rhan hon o'r adroddiad rydym:

- Yn rhoi cyflwyniad i'r Fframwaith Gwerthuso;
- Amlinellu y model cysyniadol mae'r fframwaith gwerthuso wedi'i selio arno;
- Trafod materion i'w cymeryd i ystyriaeth wrth fabwysiadu'r Fframwaith Gwerthuso;
- Cyflwyno'r Fframwaith mewn dwy ran: y rhan sy'n canolbwyntio ar 'fuddiolwyr targed' a'r rhan sy'n canolbwyntio ar 'isadeiledd dysgu' ;
- Disgrifio'r mesurau a geir yn y Fframwaith mewn ychydig mwy o fanylion, gosod ffynonellau arfaethedig o data a pha mor aml y dylid monitro mesurau allweddol ac adnabod ffactorau allanol y dylid eu hystyried;
- Cyflwyno crynodeb o gynllun monitro a gweithgareddau gwerthuso i'w gwneud ar amseroedd penodol.

## 3.2 Cyflwyniad i'r Fframwaith Gwerthuso

Mae'r Fframwaith Gwerthuso a gynigiwn wedi'i selio ar Fodel y Trysorlys ac mae'n darparu strwythur proses, cynnyrch, canlyniad a mesurau effaith i'w hadolygu ar adegau penodol. Cafodd ei ddylunio i fynegi cyfres o fesurau sy'n cynnig mewnwelediad i effeithiolrwydd ystod eang o weithgareddau wrth weithio tuag at ddibenion a osodwyd yn y Strategaeth Cenedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru[5] (y Strategaeth).

Er mai uchelgais y Strategaeth yw gwella lefelau sgiliau sylfaenol y grwpiau allweddol, mae'r Cynllun Cyflenwi[5], sy'n disgrifio'r gweithredoedd a gymerir i gyflawni uchelgeisiau'r Strategaeth, yn troi o gwmpas cryfhau gallu'r 'isadeiledd dysgu'. Mewn gwirionedd, nid y Strategaeth yw'r cyfrwng sy'n talu am gyflenwi'r gwasanaethau i

[5] Fel y nodir ym Mhennod 2 uchod, amcanion y Strategaeth yw:

- o bod pob plentyn ifanc yn cael ei baratoi ar gyfer dysgu pan fydd yn dechrau ysgol;
- o bod nifer y plant sy'n gadael ysgol gynradd yn cloffi wrth ddarllen, ysgrifennu a defnyddio rhifau yn gostwng ymhellach;
- o bod llai o bobl ifanc sy'n gadael addysg gorfodol yn dal i gael trafferth â'r sgiliau sylfaenol; a
- o bod y nifer o oedolion gyda sgiliau sylfaenol gwael yn cael eu gostwng yn sylweddol.

bobl sydd heb y sgiliau sylfaenol angenrheidiol: darperir gwasanaethau o'r fath i fyfyrwyr gan nifer o sefydliadau gan gynnwys ysgolion, colegau, darparwyr dysgu, sefydliadau gwirfoddol a chyflogwyr – yr 'isadeiledd dysgu'. Cynllunnir ein Fframwaith i ddal effeithiau'r ymyrraeth a gyllidir gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn ogystal â'r gwasanaethau a gyflenwir i fyfyrwyr gan y sefydliadau eraill. Yn ei hanfod mae'r fframwaith yn ceisio mynegi:


- Effeithiau disgwyliedig y Strategaeth ar 'isadeiledd dysgu' sydd yn bennaf yn ymdrin â gweithredu Cynllun Cyflenwi Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol ac, ar wahân:
- Effeithiau disgwyliedig y gwasanaethau a gyflenwyd gan yr 'isadeiledd dysgu' ar unigolion, sy'n canolbwyntio'n agosach ar uchelgais y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol ei hun.

Mae Ffigur 4 isod yn darparu darlun amlinellol o'r dolenni achosol tybiedig rhwng y gweithgareddau a gefnogir dan y Strategaeth ac effeithiau cefnogaeth sgiliau sylfaenol ar y 'buddiolwyr'. Nid yw'r darlun hwn yn cynnig rhestr gyfansawdd o fesurau ar hyn o bryd, ond bwriedir cyflwyno model cysyniadol ac ar hwn y seiliwyd ein Fframwaith. Mae hefyd yn fwriad dangos mai'r her allweddol i'r gwerthusiad hwn fydd profi'r dolenni achosol rhwng:

- buddsoddiad yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (ASS) a'r gwelliannau i'r isadeiledd dysgu;
- gwelliannau i'r isadeiledd dysgu a gwelliannau yn lefelau llythrennedd a rhifedd ymhlith y buddiolwyr a dargedwyd; ac yn olaf,
- gwelliannau yn lefelau llythrennedd a rhifedd a mesurau economaidd a chymdeithasol ehangach.

Mae'r model hefyd yn dangos fod llwyddiant y Strategaeth neu fel arall yn dibynnu ar effeithiau'r 'allanoldebau', neu ffactorau y tu hwnt i reolaeth yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (ASS).

**Ffigur 4 Model Cysyniadol Fframwaith Gwerthuso**



### 3.3 Materion i'w Hystyried

Wrth ddatblygu'r fframwaith, bu'n angenrheidiol i ni ystyried nifer o faterion, a thrafodir y rhain isod.

#### Cymhlethdod Cynhenid y Strategaeth

Mae'r Strategaeth yn gosod allan ystod eang o 'grwpiau blaenoriaeth', themâu llorweddol, gweithgareddau (gan gynnwys Prosiectau Cefnogaeth Cenedlaethol - NSP) a chynlluniau grant.

Er y bydd yn rhaid i'r fframwaith gymeryd i ystyriaeth berfformiad pob llinyn unigol a'i effeithiau, rhaid iddo beidio â bod yn rhy gymhleth o ran rhifau neu amrywiaeth o'r mesurau mae'n eu cynnwys. Bydd rywfaint o symlrwydd yn angenrheidiol, nid yn unig er mwyn rhwyddineb rheoli, ond hefyd er mwyn cynnal ffocws ar y dangosyddion rheini sydd bwysicaf.

#### Priodoledd ac Allanoldebau

Fel y crybwyllwyd uchod, yr her allweddol i'r gwerthusiad fydd i ddangos y dolenni achosol rhwng y buddsoddiadau a wnaed gan y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol a chyflawni amcanion y Strategaeth. Pwrpas cyfran arwyddocaol o'r buddsoddiad a wnaed gan y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol yw i gryfhau'r isadeiledd dysgu, gan, er enghraifft, godi'r ymwybyddiaeth o bwysigrwydd sgiliau sylfaenol, datblygu sgiliau athrawon i adnabod a mynd i'r afael â diffygion sgiliau sylfaenol a dylanwadu ar ddeiliaid allweddol, fel Awdurdodau Addysg Lleol (AALl) a gwahanol adrannau oddi fewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC).

Nid yw'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol yn cyllido cyflenwi hyfforddiant sgiliau sylfaenol ac/neu yn rhoi cefnogaeth i'w "grwpiau blaenoriaeth", disgyblion sy'n tangyflawni yn yr ysgol, pobl â sgiliau isel yn y gweithlu neu rai sy'n chwilio am waith, er enghraifft. Ystod o ddarparwyr dysgu ac asiantaethau cymorth eraill sy'n ymgymryd â chyflenwi'r hyfforddiant a chaiff ei cyllido gan yr AALl, yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau oddi fewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru, Canolfan Byd Gwaith a'r Gwasanaeth Carchardai ymhlith eraill. Er bod disgwyl, efallai, i ymdrechion y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol i wella ansawdd y gwasanaethau sy'n cael ei gynnig i ddysgwyr, wrth adeiladu gallu'r darparwyr dysgu i drosglwyddo sgiliau hyfforddiant sylfaenol a chefnogaeth, bydd eraill, sy'n aml â'u dylanwadau'n rymusach ar

ymddygiad y darparwyr dysgu ac, felly, ar faint, natur ac ansawdd yr hyfforddiant sgiliau sylfaenol a'r gefnogaeth a gyflenwir.

Bydd yn bwysig i'r Fframwaith Gwerthuso ystyried yn ofalus i ba raddau y gellir priodoli'r newidiadau a welir yn yr isadeiledd dysgu, i'r gweithgareddau a gefnogir dan y Strategaeth ac i fod yn effro i effeithiau cadarnhaol a negyddol yr allanoldebau tebyg i, er enghraifft, gostwng lefelau cyllido ac i amodau'r farchnad waith.

Ar y lefel nesaf, mae'r priodoledd yn troi'n her sydd hyd yn oed yn fwy ac mae effaith tebygol y ffactorau allanol yn dod hyd yn oed yn fwy amlwg. Bydd angen i'r Fframwaith ddarparu ymchwiliad i ddarganfod i ba raddau y bydd gwell sgiliau sylfaenol yn arwain at ganlyniadau economaidd a chymdeithasol, tra'n cymryd i ystyriaeth ystod o ddylanwadau eraill nad ydynt yn gysylltiedig fel amodau economaidd cyfredol ac effeithiau polisïau iechyd a budd cymdeithasol y Llywodraeth, er enghraifft.

#### Anghenion ac Argaeledd Data

Mae'r fframwaith a awgrymir wedi'i siapio gan ystyriaeth argaeledd y data a hefyd ymarferoldeb a'r gost o gael gafael ar ddata newydd. Mae'n hanfodol fod defnydd llawn yn cael ei wneud o ddata a gasglwyd i bwrpas arall ac na fydd darparwyr dysgu, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill yn gorfod cario baich dianghenraid.

### 3.4 Model y Fframwaith

Dangosir model y fframwaith a awgrymir yn Ffigur 5 a Ffigur 6, tra ceir disgrifiadau manylach o'r dangosyddion a awgrymir yn Nhabl 4 i Tabl 10. Mae rhain hefyd yn gosod allan darddiad y data a awgrymir y dylid ei ddefnyddio ar gyfer mesur, pa mor aml y dylai'r dangosyddion gael eu mesur a'r ffactorau allanol y dylid eu hystyried pan fyddwn yn ystyried mesurau unigol.

#### Mesurau Effaith

Nid yw'r strategaeth yn cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol neu dargedau i fesur ei heffaith ar ffactorau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Mae'r targedau yn canolbwyntio'n bennaf ar wella sgiliau sylfaenol yn y boblogaeth ac felly ar gryfhau'r isadeiledd sy'n cynnal datblygiad sgiliau sylfaenol pobl ac felly'n gwella sgiliau sylfaenol y boblogaeth Gymreig: 'does dim un yn cyfeirio'n uniongyrchol at effeithiau'r Strategaeth ar iechyd pobl na'r perfformiad economaidd, er enghraifft. Y

sail resymegol, fodd bynnag, yw y bydd gweithredu'r strategaeth yn llwyddiannus yn arwain at effeithiau cymdeithasol ac economaidd cadarnhaol ac mae'r Fframwaith yn ceisio cael effeithiau positif ar:

- statws marchnad waith a rhagolygon y buddiolwyr;
- incwm y buddiolwyr;
- awydd y buddiolwyr i barhau i ddysgu;
- iechyd a lles y buddiolwyr.

### Mesurau Deilliannau

Mae mesurau deilliannau yn gweithredu ar ddwy lefel oddi fewn i'r model a gynigir:

- Y rhai hynny sy'n perthyn i ddatblygiad isadeiledd dysgu; a'r
- Rhai hynny sy'n ymwneud â mynd i'r afael â'r methiannau yn sgiliau sylfaenol pobl.

### Mesurau Deilliannau sy'n canolbwyntio ar Isadeiledd

Bwriedir i fesurau deilliannau sy'n canolbwyntir ar isadeiledd ddal effeithiau tymor canolig y gweithgareddau a gyflawnir gan, neu a gefnogir yn uniongyrchol, gan yr ASS. I raddau helaeth mae'r mesurau deilliannau hyn yn troi o gwmpas:

- Codi ymwybyddiaeth o agenda sgiliau sylfaenol;
- Gwella cysylltiadau rhwng ymyriadau a gynlluniwyd i fynd i'r afael â neu i rwystro methiannau sgiliau sylfaenol;
- Codi lefelau sgiliau'r ymarferwyr;
- Gwella safon ac effeithiolrwydd systemau cyswllt sgiliau sylfaenol darparwyr dysgu;
- Defnyddio gwybodaeth yn effeithiol i lunio polisïau a gweithgareddau;
- Rheoli ystod o ymyriadau sy'n cydberthyn.

Mae'n Model Gwerthuso yn ceisio dangos sut y disgwylir i ganlyniadau'r ymyriadau, a gynlluniwyd i gryfhau isadeiledd dysgu, siapio'r mewnbynnau a'r prosesau a dargedir yng 'ngrwpiau blaenoriaeth' y Strategaeth. Mewn gwirionedd, disgwylir i ganlyniadau'r gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar isadeiledd fod yn ymwybyddiaeth eang o bwysigrwydd sgiliau sylfaenol, adnoddau tebyg i "Stori Sydyn" (Quick Reads)[6], Rhaglenni Teuluol wedi'u integreiddio'n effeithiol gyda gweithgareddau Cymorth[7], athrawon yn gweithredu'n fwy effeithiol yn yr ystafell ddosbarth, cyflogwyr

[6] Fframwaith Monitro ac Adolygu 2005-2006 (17/07/06)

[7] Mae Cymorth yn fenter gan LlCC i ddarparu cronfa "i ddarparu rhwydwaith o gymorth wedi ei dargedu at blant a phobl ifanc o fewn fframwaith y ddarpariaeth gyffredinol, er mwyn gwella cyfleoedd bywyd i blant a phobl ifanc o deuluoedd difreintiedig."

yn gweithio ochr yn ochr gyda darparwyr dysgu i drefnu hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol yn y gweithle ac yn y blaen.

Mae dau o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a nodwyd yn y Cynllun Cyflenwi 2005-2006[8] yn cyfeirio at ddatblygiad yr isadeiledd dysgu ac maent wedi'u hymgorffori yn yr adran hon o'r model.

**Mesurau Deilliannnau sy'n canolbwyntio ar y Cwsmer**

Bwriedir i'r mesurau deilliannau hyn amlygu effeithiau canolradd ar sgiliau sylfaenol y bobl ifanc a'r oedolion sy'n elwa o'r gwasanaethau a gyflenwir gan ddarparwyr dysgu ac eraill. Tybir y bydd llwyddiant y deilliannau hyn yn arwain at effeithiau cymdeithasol ac economaidd buddiol yn y tymor hir.

Bydd mesurau deilliannau sydd wedi'u canoli ar y cwsmer o anghenraid yn dibynnu ar nifer o ffactorau allanol. Er enghraifft mae sefyllfaoedd teuluol anodd yn aml yn gallu arwain at blant ifanc sydd heb gael eu paratoi ar gyfer dysgu pan fyddant yn dechrau'r ysgol, ar waethaf ymdrechion gorau Cydlynwyr Chwarae ac Iaith (ChAI) a Chwarae a Rhif (ChAR), a gall salwch rwystro oedolion rhag manteisio ar gyfleon i wella eu sgiliau sylfaenol, ar waethaf ansawdd ac atyniad y cyfleon hynny.

Mae'r pedwar mesurau deilliant a geir yn y Fframwaith Gwerthuso yn adlewyrchu Dangosyddion Perfformiad Allweddol a nodwyd yng Nghynllun Cyflenwi 2005-2006 (sydd yn eu tro'n adlewyrchu'r amcanion a gyhoeddir yn y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol[9]). Mae'r rhain yn cysylltu ag effeithiau y lefelau o gefnogaeth a gyflenwir gan yr isadeiledd dysgu ar sgiliau sylfaenol pobl ifanc ac oedolion.

**Mesurau Cynnyrch**

Ymgais i ddal canlyniadau'r ymyriadau'n uniongyrchol yw mesurau cynnyrch, ac maent yn llawer llai tebygol o gael eu heffeithio gan ffactorau allanol na mesuriadau effaith neu ganlyniad.

Mae mesurau canlyniad yn gweithredu ar ddwy lefel oddi fewn i'r model a gynigiwyd:

- Y rhai sy'n perthyn i ddatblygiad yr isadeiledd dysgu; a'r
- Rhai sy'n perthyn i daclo diffygion sgiliau sylfaenol pobl.

---

[8] Cynllun Cyflenwi Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol 2005-2006, (2005), tud 6
[9] 'Geiriau'n Siarad – Rhifau'n Cyfrif': Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol yng Nghymru, (2005), tud 4

**Mesurau Cynnyrch sy'n canolbwyntio ar Isadeiledd**

Mae'r mesurau hyn yn ymgais i ddal canlyniadau uniongyrchol gweithgareddau fel ymgyrchoedd marchnata, trafodaethau rhwng yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (ASS) a phobl fel Cydgysylltwyr Partneriaeth Plant, seminarau a chynadleddau wedi'u cynllunio i rannu arfer da ac archwiliadau yr ASS o brosiectau allweddol. Disgwylir y bydd y cynhyrchion yn arwain at gyflawni canlyniadau tebyg i'r rhai a ddisgrifiwyd uchod.

**Mesurau Cynnyrch sy'n canolbwyntio ar y Cwsmer**

Bwriedir i'r Mesurau cynnyrch hyn amlygu effeithiau uniongyrchol ar y dysgu a wnaed a'r gefnogaeth a dderbyniwyd ar grwpiau blaenoriaeth y Strategaeth. Mae'r mesurau a awgrymir yn adlewyrchu'r targedau a osodwyd yn y Cynllun Cyflenwi 2005-2006[10] ac mae pob un yn cyfeirio at well lefelau sgiliau.

**Mesurau Proses**

Amcan mesurau proses neu fesurau gweithgaredd yw asesu os yw'r Strategaeth yn cael ei throsglwyddo fel y bwriadwyd iddi gael ei gwneud ac i adnabod unrhyw gyfle i wella.

Mae mesurau proses yn gweithredu ar ddwy lefel oddi fewn i'r model a gynigiwyd:

- Y rhai hynny sy'n perthyn i'r isadeiledd dysgu; a'r
- Rhai sy'n berthnasol i daclo diffygion sgiliau sylfaenol pobl.

**Mesurau Proses sy'n canolbwyntio ar Isadeiledd**

Bwriedir i'r mesurau proses sy'n canolbwyntio ar isadeiledd ystyried gwaith a gyflawnwyd gan ystod o actorion eraill, naill ai "mewn partneriaeth gyda'r" ASS neu o dan gytundeb i'r ASS (i gyflawni prosiectau penodol) yn ogystal â rhan yr ASS ei hun yn comisiynu, rheoli neu ddylanwadu ar weithgareddau o'r fath. Yn ei hanfod bwriedir i'r elfen hon o'r fframwaith gwerthuso fod yn ffurfiannol ac mae'n debyg o ddod i'r amlwg pan fo disgwyl i'r Strategaeth neu ei ymyriadau cydrannol fod yn debyg o gael eu parhau yn y dyfodol.


**Mesurau Proses sy'n canolbwyntio ar y Cwsmer**

Mae mesurau proses sy'n canolbwyntio ar y cwsmer yn cynrychioli y defnydd o ganlyniadau'r gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at ddatblygu'r isadeiledd dysgu i

[10] Atodiadiadau 1, 2 a 4

gyflenwi'r gwasanaethau i grwpiau blaenoriaeth y Strategaeth. Mae'r  Fframwaith yn anelu at ddal cyfraniad y plant, pobl ifanc ac oedolion mewn dysgu sydd wedi'i ganoli ar sgiliau sylfaenol, ac sydd wedi'i hybu neu ei gyfoethogi gan weithgareddau datblygu isadeiledd a gefnogwyd gan yr ASS, neu drwy  raglenni sydd wedi'u cefnogi'n uniongyrchol fel Grantiau AALL, Bag Llyfrau a'r Stori Sydyn.

## Ffigur 5 Fframwaith Gwerthuso Datblygiad Isdeiledd



**Tabl 4 Fframwaith Gwerthuso Datblygiad Isadeiledd – Mesurau Deilliannau**

| CYF | MESUR | DISGRIFYDD DANGOSYDD | FFYNONELLAU DATA | AMSERU/ AMLDER | DATA SYLFAENOL neu EILAIDD | LEFEL GOFODOL | | YSTYRIAETHAU ALLANOLDEB |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Cymru | Ardaloedd Astudiaeth-au Achos | |
| | KPI5<br>Ymwybyddiaeth o anghenion sgiliau sylfaenol ymhlith rhanddeiliaid ac eraill | - Mwy o bwysigrwydd yn cael ei roi ar sgiliau llythrennedd a rhifedd gan unigolion | Data[11] gwerthuso ymgyrch.<br>Hefyd: Arolwg Cenedlaethol Sgiliau Sylfaenol Oedolion (2004)<br>Gwaith Ymchwil Beaufort ar Sgiliau Sylfaenol yn yr Iaith Gymraeg.<br>Arolwg Newidiem o Sgiliau Sylfaenol yn y gweithle (2001)[12] | | E | ✓ | | o |
| | | - Bwlch llai rhwng amgyffred unigolion o bwysigrwydd sgiliau llythrennedd a rhifyddeg ac amgyffred y cyflogwyr. | Arolygon Sgiliau Dyfodol Cymru (FSW) :<br>- Llinell sylfaen Uned Sgiliau'r Dyfodol (FSW) 2003<br>- GSS FSW 2008[13] | 2003<br>2008 | E<br>E | ✓<br>✓ | | |

[11] Hysbyswyd ni fod data gwerthuso ar gael oddi wrth y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol (Checio hyn gyda'r BSA)

[12] Byddai rhain, fodd bynnag, yn cyflwyno data'r llinell sylfaen yn unig, a byddai gofyn adeiladu arno.

[13] Dywedir wrthym y gellid ymgymryd ag Arolwg Sgiliau Generig (GSS) o dan faner Sgiliau Dyfodol Cymru (FSW) yn 2008, ond na fydd penderfyniad terfynol wedi ei wneud tan yn gynnar yn 2007. (Wedi ei wirio gydag Uned Sgiliau'r Dyfodol - FSW).

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | - Mwy o ymwybyddiaeth a chyfraniad i agenda sgiliau sylfaenol ymhlith rhanddeiliaid allweddol | - Gweler hefyd waith Beaufort, uchod.<br>- Adolygiad NIACE (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion) o ddysgu oedolion (Cymru a Lloegr) – ffocws ar oedolion yn y sector gofal cymdeithasol<br><br>Trafodaethau strwythuredig gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys:<br>- LICC – Grŵp Plant ac Ysgolion<br>- LICC – Grŵp Addysg a Sgiliau Gydol Oes<br>- Canolfan Byd Gwaith<br>- Gwasanaeth Carchardai /Gwasanaethau Prawf/ Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)<br>- Estyn<br>- Cynghorau Sgiliau Sector (SSC)<br>- Cyngres Undebau Llafur<br>- Cyngor Llyfrau Cymru | Gwanwyn/Haf 2007<br>Haf/ Hydref 2009 | S | ✓ | ✓ | |

[14]Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[15]Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig

[16]Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[17] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | - BBC/S4C<br>- Learndirect/Ufl<br>- CCET[14]<br>- Awdurdodau Lleol[15]<br>-Darparwyr Dysgu[16]<br>-Cyrff Gwirfoddol[17]<br>Cyflogwyr – CBI / Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)<br>Fforwm<br>Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)<br>CGGC<br>SSDA<br>Genesis Cymru | | | | | |
| | Mwy o swmp o raglenni sgiliau sylfaenol sy'n sefyll ar eu pen eu hunain ac o ymyriadau sgiliau sylfaenol wedi'u mewnosod yn cael eu cyflenwi. | - % dysgwyr gyda sgiliau llythrennedd a rhifedd dan lefel 1 yn ystod y 12 mis blaenorol yn ymuno â hyfforddiant a gyllidir gan y cyhoedd<br>- Rhifau'r dysgwyr ôl-16 yn ymuno â hyfforddiant sgiliau sylfaenol. | System Cyfnod Dysgu Gydol Oes AADGOS<br><br>Arolygiad monitro ASS | 31 Mawrth 07<br>31 Mawrth 08<br>31 Mawrth 09<br>31 Mawrth 10[18]<br>Rhagfyr 2006 ar gyfer data | E | ✓ | ✓ | |
| | Gwell integreiddio a chydgysylltu rhaglenni sgiliau sylfaenol gydag ymyriadau eraill ar lefelau strategol a gweithredol. | - Asesiad o sut mae Strategaeth Sgiliau Sylfaenol (SSS) yn cydfynd â pholisïau ehangach LICC<br>- Asesiad o'r amlygrwydd a roir i agenda sgiliau sylfaenol yn nogfennau eraill LICC e.e. Sector Cytundebau Sgiliau ac arweiniad CCET<br>- Asesiad o ansawdd y berthynas rhwng ASS Cymru ac adrannau | Adolygiad o ddogfennau SSS a LICC<br><br>Trafodaethau strwythuredig gyda cynrychiolwyr allweddol ASS a LICC | Gwanwyn/ Haf 2007<br>2008<br>2009<br>2010<br><br>Haf<br>2007<br>Hydref<br>2009 | E<br><br>E<br><br>S<br><br>S | ✓<br><br>✓<br><br>✓<br><br>✓ | | o Newidiadau ym mlaenoriaethau'r polisi<br>o Diddymiad/ ailstrwythuro CCET<br>o Diddymiad/ ailstrwythuro y ASS yn Lloegr<br>o Newidiadau mewn strwythurau Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn ystod y |

[18] Mae dyddiadau arfaethedig y cyfrifiad a dyddiad 2010 yn tybio y byddai Uned Rheoli Data yn barod i ddarparu data mewn pryd i gyfarfod â'n hamserlen: os nad, gellid symud dyddiad y cyfrifiad i Ionawr yn lle Mawrth.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | perthnasol LICC<br>- Asesiad o ansawdd y berthynas rhwng ASS Cymru a'r ASS<br>- Barn Cydlynwyr Partneriaeth Plant ynglŷn ag i ba raddau mae gweithgareddau ChAI/ChAR wedi'u hintegreiddio i Cychwyn Cadarn, Dechrau'n Deg a rhaglenni Cymorth<br>- Barn Cydlynwyr Partneriaeth Plant ar ba mor dda mae Rhaglenni Teulu yn cysylltu â'r ddarpariaeth a sylfaenir ar yr ysgol.<br>- I ba raddau mae agenda sgiliau sylfaenol wedi'i hintegreiddio i'r ysgol a'r ddarpariaeth ôl-16. | Trafodaethau strwythuredig gydag aelodau allweddol o staff yr ASS [19]<br><br>Trafodaethau strwythuredig gyda Chydlynwyr Partneriaeth Plant<br><br>Adroddiad Estyn ar Asesiad Cychwynnol Sgiliau Sylfaenol, Systemau Cefnogi a Monitro<br><br>Trafodaethau strwythuredig gyda sampl o ddarparwyr a rhanddeiliaid oddi fewn i ardaloedd 'astudiaethau achos'. | <br><br><br><br><br>2006 / 2009<br><br>Haf 2007<br>Haf / Hydref 2009 | S<br><br>S<br><br>E<br><br>S | | ✓<br>✓<br>✓<br>✓ | cyfnod gwerthuso |
| | Arfer gwell gan ddarparwyr sgiliau sylfaenol ymhlith ysgolion a'r rhai ôl-16. | - % athrawon/hyfforddwyr/gweithwyr cynnal yn gwella ymarfer o ganlyniad i hyfforddiant wedi'i gyllido neu i weithgareddau lledaenu arfer da. | Astudiaeth gwerthuso; mae gan ASS dîm sy'n edrych ar SIGS, monitro ansawdd Cynradd ac Uwchradd a Grantiau Hyfforddiant Archwiliad Canfyddiad Blynyddol.<br><br>Adroddiadau cyfnodol Estyn ar ddarparwyr addysg unigol oddi fewn i Ardaloedd Astudiaethau Achos | O fis Medi –Rhagfyr 2006<br>Bydd ailadrodd y dyddiad yn dibynnu ar lwyddiant yr arolwg cychwynnol<br><br>Haf 2007 2009 | E<br><br>E<br><br>E | ✓<br><br>✓ | ?<br><br>✓<br><br>✓ | o Gallai newidiadau i gwricwla Hyfforddiant Athrawon Cychwynnol , sy'n ddigysylltiad â lobïo'r ASS, gael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar yr ymwybyddiaeth o sgiliau sylfaenol |

[19] Er fod dyfodol yr ASS yn ei ffurf bresennol yn ansicr ar hyn o bryd.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Adroddiadau cyfnodol Adolygiad Ardal gan Estyn.<br><br>Trafodaethau strwythuredig gyda sampl o ddarparwyr a rhanddeiliaid eraill (e.e. AALI, CCET ) oddi fewn i ardaloedd 'astudiaethau achos' i asesu effeithiau hyfforddiant ar ymarfer dysgu | Haf 2009<br><br>Haf 2007<br>Haf / Medi 2009 | S | | ✓ | |
| | Cynnydd yn lefel yr atgyfeiriadau i ddarparwyr dysgu priodol | - % myfyrwyr sy'n mynd i fewn i hyfforddiant a gyllidir yn gyhoeddus gyda sgiliau llythrennedd a rhifedd o dan lefel1 | System Cyfnod Dysgu Gydol Oes AADGOS<br><br>Arolwg monitro ansawdd yr ASS | 31 Mawrth 07<br>31 Mawrth 08<br>31 Mawrth 09<br>31 Mawrth 10<br>Rhagfyr 2006 am ddata | E<br><br>E | ✓<br><br>✓ | ✓<br><br>✓ | o Gostyngiadau yn lefelau cyllido sydd o fewn cyrraedd y sector wirfoddol drwy, er enghraifft, Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a all arwain at ostyngiad yng nghynhwysedd y sector i gefnogi 'cleientiaid'.<br>o Mae pwysoli wedi ei gysylltu ä sgiliau dysgu sylfaenol gan ADGOS yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd darparwyr yn asesu dysgwyr yn iawn ac yn cyflenwi hyfforddiant sgiliau sylfaenol.<br>o Gostyngiad cyffredinol yng ngwerth y cyllido sy'n gysylltiedig ag 'uned' y myfyriwr, gan wneud y myfyrwyr gydag anghenion sgiliau |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | sylfaenol dwysach yn llai atyniadol o safbwynt y darparwyr. |
| | Gwelliant yn AALI, ysgolion a darparwyr yn cyfarfod â thargedau perthnasol. | - Perfformiad yn erbyn Iaith a thargedau Rhaglenni Chwarae<br>- Perfformiad yn erbyn targedau Rhaglenni Teulu<br>- Perfformiad yn erbyn targedau Marc Safon<br>- Ysgolion yn cyrraedd a chadw Marc Safon<br>- Darparwyr yn cyrraedd a chadw Marc Safon<br>- Cysondeb ac ansawdd asesiad AALI o ysgolion | Adroddiadau AALI – wedi'u coladu gan yr ASS. Yr un fath ar gyfer Targedau Rhaglen Deulu a Monitro Ansawdd<br>Cronfa ddata Marc Safon. Hefyd adroddiadau "goleuadau traffig" i'r ASS ar Fonitro Safon.<br>Adroddiadau staff maes ASS ac adroddiadau Golau Traffig i'r ASS. Cynnyrch Seminarau Monitro Safon ASS. | Rhagfyr 2006 ar gyfer data | E | ✓<br>✓ | ✓<br>✓ | |
| | | - % ysgolion a darparwyr mwyaf ôl-16 yn gwella eu darpariaeth o ganlyniad i ledaenu ymarfer da ynglŷn â'r marc safon. | Astudiaeth o ysgolion Marc Safon a chyflenwyr. Hefyd arolwg ôl-16 ASS o Fonitro Ansawdd a Seminarau Monitro ASS. | Bob dwy flynedd | E | ✓ | ✓ | |
| | | | Astudiaeth o ysgolion a darparwyr sy'n elwa .<br>Fel yr uchod. | Bob dwy flynedd | E | ✓ | ✓ | |
| | | - % ysgolion a darparwyr mwyaf ôl-16 yn gwella eu darpariaeth o ganlyniad i ledaenu ymarfer da drwy fonitro ar siawns Marc Safon SIG. | Adroddiadau archwiliadau<br>Adroddiad cryno<br>Monitro ar hap monitro Ansawdd yn unig o ysgolion cynradd / uwchradd . | Mai 2007<br>Haf 2007<br>Haf/ Hydref 2009 | E<br>E | | ✓ | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Trafodaethau strwythuredig gyda sampl o ddarparwyr a rhanddeiliaid eraill (e.e. AAL, CCET) oddi fewn i ardaloedd 'astudiaethau achos' i asesu effeithiau hyfforddiant ar ymarfer dysgu. | | | | | |
| | Prosiectau datblygu wedi'u cyflenwi'n ôl y cynllun | - I ba raddau y mae amcanion, nod a thargedau wedi'u cyrraedd | Gwerthusiad dal i fyny SIG<br>'Adroddiad goleuadau traffig' Cynllun Grant AALl | Tachwedd 2006<br><br>Hydref 2006 | E | ✓ | ? | o |
| | Cynydd mewn cyflogwyr yn gwneud ac yn parhau â'r Addewid | - Niferoedd o gyflogwyr yn gwneud neu'n adnewyddu Addewid<br>- Niferoedd o weithwyr mae'r Addewid yn ymwneud â hwy | Cronfa ddata Addewid y Cyflogwr (EP) ac adroddiadau chwarterol | 31 Mawrth 07<br>31 Mawrth 08<br>31 Mawrth 09<br>31 Mawrth 10 | E | ✓ | ✓ | o |
| | Gwybodaeth i fod yn sail i drafodaethau â rhanddeiliaid, gwell penderfyniadau a datblygiadau yn y dyfodol. | - Tystiolaeth ymchwil a gwerthusiad darganfyddiadau yn ffurfio datblygiadau polisi newydd | Adolygiad o ddogfennau polisi<br><br>Adolygiad o gynigion y prosiect<br><br>Trafodaethau strwythuredig â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys:<br>- LlCC – Grŵp Plant ac Ysgolion<br>- LlCC – Grŵp Dysgu Gydol Oes a Sgiliau<br>- Canolfan Byd Gwaith | Hydref 2007 2009<br><br>Hydref 2007 2009<br><br>Gwanwyn/Haf 2007<br>Haf/ Hydref 2009 | E<br><br>E<br><br>S | ✓<br><br>✓<br><br>✓ | ✓<br><br>✓<br><br>✓ | o |

[20] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[21] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[22] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[23] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | - Gwasanaeth Carchardai/ Gwasanaeth Prawf/ Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)<br>- Estyn<br>- Cynghorau Sgiliau Sector<br>- TUC<br>- Cyngor Llyfrau Cymru<br>- BBC/S4C<br>- Learndirect/Ufl<br>- CCET[20]<br>- Awdurdodau Lleol[21]<br>-Darparwyr Dysgu[22]<br>-Mudiadau gwirfoddol[23] | | | | | |
| | Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) 6 datblygiadau effeithiol wedi'u cychwyn drwy strategaeth wedi'i mewnosod mewn arfer lleol | - Effeithiolrwydd prosiectau peilot<br><br>- I ba raddau mae datblygiadau wedi'u cyfuno | Adolygiad o gynigion y prosiect<br><br>Trafodaethau strwythuredig â sampl o ddarparwyr a rhanddeiliaid eraill (e.e. AALl, CCET) oddi mewn i ardaloedd 'astudiaethau achos' i asesu effeithiau hyfforddi ar ymarfer dysgu | Hydref 2007 2009<br>Haf 2007 Haf/ Hydref 2009 | E<br><br>S | | ✓<br><br>✓ | o |
| | Sefydliad wedi'i reoli'n effeithiol | - Cyflawni targedau gweinyddol e.e. amserau ymateb<br>- Cwblhau tasgau oddi fewn i raddfeydd amser<br>- Cwblhau tasgau oddi fewn i 10% o'r cyllid<br>- Cyfradd argaeledd y wefan | Adroddiadau Archwiliad | | E | ✓ | ✓ | o |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | - Cyfradd argaeledd systemau TG<br>- Sefydlu a gwerthuso staff<br>- Cywirdeb a pherthnasedd adroddiadau rheoli<br>- Priodoldeb y datganiadau ariannol a gynhyrchwyd<br>- Asesiad LICC o effeithiolrwydd ASS Cymru<br>- Asesiad ASS o effeithiolrwydd ASS Cymru<br>- Asesiad ASS Cymru o'i effeithiolrwydd ei hun | Trafodaethau strwythuredig â chynrychiolwyr allweddol o LICC a ASS | Haf<br>2007<br>2009 | S | ✓ | | |

**Tabl 5 Fframwaith Gwerthuso Datblygiad Isadeiledd – Mesurau Cynnyrch**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Trafodaeth ehangach o sgiliau sylfaenol a gweithgareddau penodol ASS gan rhanddeiliaid | - Lefel ymdriniaeth o sgiliau sylfaenol mewn papurau cyfarfodydd grŵp 'partneriaeth' allweddol<br><br>- Rhanddeiliaid yn trafod ac ystyried materion sgiliau sylfaenol mewn gwasanaethau cynllunio a chyflenwi | Adolygu papurau grŵp partneriaeth mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos, gan gynnwys:<br>- CCET<br>- Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc<br>- CGS | Haf 2008 | E | | ✓ | o |
| | | | Adolygiad o bapurau cyfarfodydd Cynghorau Sgiliau Sector ac SSDA sydd ar gael yn gyhoeddus | | E | ✓ | | |
| | | | Adolygiad o bapurau cyfarfod TUC, CBI ac FSB sydd ar gael yn gyhoeddus | | E | ✓ | | |
| | | | Trafodaethau strwythuredig â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys:<br>- LICC – Grŵp Plant ac Ysgolion<br>- LICC – Grŵp Dysgu Gydol Oes a Sgiliau<br>- Canolfan Byd Gwaith<br>- Gwasanaeth Carchardai/ Gwasanaeth Prawf/ Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) | Haf 2007<br>Haf/ Hydref 2009 | S | ✓ | ✓ | |

[24] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[25] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[26] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[27] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | - Estyn<br>- Cynghorau Sgiliau Sector<br>- TUC<br>- Cyngor Llyfrau Cymru<br>- BBC/S4C<br>- Learndirect/Ufl<br>- CCET[24]<br>- Awdurdodau Lleol[25]<br>-Darparwyr Dysgu[26]<br>-Mudiadau gwirfoddol[27] | | | | | |
| | Cynydd yn sylw'r cyfryngau i faterion sgiliau sylfaenol a gweithgareddau penodol ASS. | - 'Amser ar yr awyr' ar y cyfryngau ar gyfer ymgyrch rhifedd<br>- Rhifau gwylwyr i ymgyrch rhifedd<br>- Sylw modfeddi'r golofn yn y cyfryngau argraffu<br>- Hefyd ymwybyddiaeth y cyfryngau argraffu<br>- Dechrau ddiwedd 2006 i ddiwedd 2007.<br>- Oedolion – cyfarfod i gwblhau cyfarfod Hydref 18ed. Bydd y lansio ganol 2007.<br>- Rhif a chyfran y llyfrgelloedd sy'n dangos deunyddiau ymgyrch "Darllenwch Filiwn o Eiriau"<br>- Rhif a chyfran ysgolion sy'n dangos deunyddiau ymgyrch "Darllenwch Filiwn o Eiriau". | Gwerthuso Ymgyrch (rhifedd) | | E | ✓ | | |
| | Mwy o ddealltwriaeth o sut mae darpariaeth anghenion sylfaenol yn gweddu ag ymyriadau eraill. | - Rhanddeiliaid yn teimlo fod ganddynt afael ar agenda sgiliau sylfaenol.<br>- Rhanddeiliaid yn archwilio sut y dylai ystyriaethau sgiliau sylfaenol | Trafodaethau strwythuredig gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys:<br>- LlCC – Grŵp plant ac | Gwanwyn/haf 2007<br>Haf/<br>Hydref<br>2009 | S | ✓ | ✓ | |

[28] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[29] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[30] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[31] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ddylanwadu ar bolisïau ac arferion | Ysgolion<br>- LCC –Grŵp Dysgu Gydol Oes a Sgiliau<br>- Canolfan Byd Gwaith<br>- Gwasanaeth Carchardai/ Gwasanaeth Prawf /Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr<br>- Estyn<br>- Cynghorau Sgiliau Sector<br>- TUC<br>- Cyngor Llyfrau Cymraeg<br>- BBC/S4C<br>- Learndirect/Ufl<br>- CCET[28]<br>- Awdurdodau Lleol[29]<br>-Darparwyr Dysgu[30]<br>-Cyrff Gwirfoddol[31] | | | | | |
| | Arweiniad cryfach ar sgiliau sylfaenol oddi wrth y meistri cyflog a rhanddeiliaid dylanwadol eraill | - Y graddau y pwysleisir sgiliau sylfaenol yng nghanllaw LlCC i ddarparwyr<br><br>- Y graddau mae dysgu sydd ynghlwm â sgiliau sylfaenol yn denu cyllid premiwm neu gyllid datblygiad oddi wrth AADGOS | Adolygiad o ganllaw dogfennau LlCC a anfonwyd i ysgolion a darparwyr dysgu ôl-16<br>Adolygiad o drefniadau pwysoli System Gynllunio a Chyllido Genedlaethol (NPFS) AADGOS | Hydref 2007 2009<br><br>Hydref 2007 2009 | E<br><br>E | ✓<br><br>✓ | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ymarferwyr sy'n fwy gwybodus, gyda gwell cymwysterau ac wedi'u darparu'n well | - Athrawon ysgol uwchradd yn cwblhau modiwlau sgiliau sylfaenol[32]<br>- Athrawon ysgol uwchradd sy'n llwyddo i gael/ neu wedi cael cymhwyster sgiliau sylfaenol[33][34]<br>- Tiwtoriaid llythrennedd / rhifedd / ESOL oedolion yn llwyddo i gael neu wedi cael cymwysterau priodol[35][36]. Hefyd Cynorthwywyr Cymorth Dysgu a chefnogwyr SS eraill.<br>- Cefnogwyr sgiliau sylfaenol gyda chymwysterau hyd at Lefel 2<br>- Athrawon sgiliau sylfaenol gyda chymwysterau hyd at Lefel 3.<br>- Athrawon sgiliau sylfaenol gyda chymwysterau hyd at Lefel 4.<br>- Ansawdd hyfforddiant athrawon ac asesiad (Cwestiwn allweddol 2 o'r Fframwaith Arolygu Gyffredin)<br>- Canfyddiad ymarferwyr o'u gwybodaeth o Raglenni ChAI/ChAR<br>- Gwybodaeth sefydliadau partneriaid o Raglenni i'r Teulu | AALI yn rhoi adroddiad i'r ASS<br>Arolwg o ddeiliaid Monitro Ansawdd<br>System SIR yr AADGOS<br>Arolwg o ddeiliaid Monitro Ansawdd<br>Adroddiadau cyfnodol Estyn ar gyflenwyr dysgu o fewn yr Ardaloedd Astudiaethau Achos.<br>Trafodaethau strwythuredig gyda sampl o gyflenwyr o fewn ardaloedd 'astudiaethau achos'<br>Trafodaethau strwythuredig gyda sampl o gyflenwyr a rhanddeiliaid eraill (e.e. AALI, CCET) o fewn ardaloedd 'astudiaeth | 31 Gorffennaf 2007 2008 2009<br>31 Gorffennaf 2007 2008 2009<br>Haf 2007 2009<br>Haf 2007 Haf/ Hydref 2009<br>Disgwyl canlyniadau Hydref/ | E<br>E<br>E<br>S | | ✓<br>✓<br>✓<br>✓ | |

[32] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[33] Mae 'Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri' yn dangos fod modiwlau hyfforddiant a ddatblygwyd gan yr ASS yn cael eu hystyried ar gyfer achrediad
[34] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[35] Mae 'Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri' yn dangos fod yr ASS yn "gweithio gyda chyrff perthnasol eraill er mwyn gosod safonau a chymwysterau yn eu lle."
[36] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | achos'<br><br>Arolwg o sefydliadau perthnasol. | Tachwedd 06 | | | | |
| | Argaeledd ymarfer da a deunyddiau hyfforddi priodol | - Asesiad defnyddwyr targed o ansawdd, perthnasedd a defnyddioldeb deunyddiau arfer da:<br>- Athrawon/ tiwtoriaid<br>- Staff AALl<br>- Staff cydlynu rhaglen<br>- Staff y sector gwirfoddol<br>- Staff Gyrfa Cymru<br>- Eraill<br>- Cyflogwyr<br>- Aelodau o'r cyhoedd | Archwiliad Asiantaeth canfyddiad<br><br>Trafodaethau strwythuredig gyda sampl o gyflenwyr a rhanddeiliaid eraill o fewn ardaloedd 'astudiaethau achos' | Yn flynyddol<br><br>Haf 2007<br>Haf/ Hydref 2009 | E<br><br>S | ✓ | <br><br>✓ | |
| | Gwell dealltwriaeth o agenda sgiliau sylfaenol a phrosesau allweddol ymhlith cyflenwyr | - Asesiad mudiadau a dderbyniodd gymorth i ba raddau ac ym mha ffordd y gwnaeth cefnogaeth ASS eu cynorthwyo | Trafodaethau strwythuredig gyda sampl o gyflenwyr a rhanddeiliaid eraill o fewn ardaloedd 'astudiaethau achos' | Haf 2007<br>Haf/ Hydref 2009 | S | | ✓ | |
| | Cyflogwyr yn glir beth, yn ymarferol, yw ystyr Addewid y Cyflogwr | - % y cyflogwyr sy'n rhoi Addewid y Cyflogwr sy'n:<br>- asesu anghenion<br>- gosod amcanion sy'n gaeth i amser<br>- neilltuo adnoddau i weithredu<br>- % y cyflogwyr sy'n cadw'r Gwobrau Addewid ar ôl 3 blynedd | Amcanion yn cael eu monitro gan aseswyr ASS | 31 Mawrth 07<br>31 Mawrth 08<br>31 Mawrth 09<br>31 Mawrth 10 | E | ✓ | ✓ | |
| | Adroddiadau ar berfformiad ac effeithiolrwydd y rhaglenni a gefnogwyd | - Y graddau y gwneir yr ymchwil a'r adroddiadau gwerthuso ar gael i'r cyhoedd drwy Strategaeth y wefan<br>- Y graddau y gwneir yr ymchwil a'r | Adolygu gwefan ASS Strategaeth gwefan<br><br>Adolygu SRhG | | E<br><br>E | ✓<br><br>✓ | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | adroddiadau gwerthuso ar gael i'r rhanddeiliaid drwy System Rheoli Gwybodaeth (SRhG)<br>- Y graddau y mae canfyddiadau ymchwil a gwerthuso wedi'u hyrwyddo'n ragweithiol i'r rhanddeiliaid priodol | Nodiadau o ymarfer da yn unig a geir yn y SRhG. Adroddiadau ync ael eu rhannu i'r bwrdd a'r rhanddeiliaid<br>Adolygiad o gyfathrebu ASS wedi'i hanelu at godi ymwybyddiaeth o ymchwil neu ganfyddiadau ymchwil a gwerthuso | | E | ✓ | | |
| | Ymdriniaethau sgiliau sylfaenol newydd ac wedi'u gwella sy'n ategu ymyriadau eraill ac, o bosib, yn tynnu ar gyllid 'partner' | - Asesiad o resymeg a dyluniad ymyriadau neu arloesiadau sgiliau sylfaenol newydd i weithgareddau sgiliau sylfaenol<br>- Asesiad o'r broses sydd ynghlwm â lansio a mewnosod arloesiadau | Adolygu manylebau'r prosiect<br>Trafodaethau gyda staff ASS a'r partneriaid allweddol yn natblygiad ymyriadau newydd neu rai arloesol | | E<br>S | ✓<br>✓ | | |
| | Trefn esmwyth ar yr ASS yng Nghymru | - Asesiad ASS o ba mor effeithiol mae ASS Cymru yn cael ei redeg | Trafodaethau strwythuredig gyda staff ASS | Haf 2007 Hydref 2009 | S | ✓ | | o Diddymu/ailstrwythuro'r ASS yn Lloegr |
| | Gwybodaeth reoli gywir, perthnasol ac amserol | - Bodolaeth protocol ar gyfer cynhyrchu gwybodaeth reoli gyson sy'n gosod pwrpas, natur ac amseru'r wybodaeth sydd i'w chynhyrchu, ac yn enwi'r defnyddwyr ar gyfer pob math o adroddiad<br>- Asesiad y defnyddwyr o ansawdd a defnyddioldeb yr wybodaeth a gynhyrchir | Adolygu unrhyw ddisgrifiadau o systemau perthnasol<br>Trafodaeth strwythuredig gyda staff ASS Cymru<br>Trafodaeth strwythuredig gyda staff ASS a staff ASS Cymru | Gwanwyn 2007 Hydref 2009<br>Gwanwyn 2007 Hydref 2009 | E<br>S<br>S | ✓<br>✓<br>✓ | | o Mae'r gwerthusiad yn debyg o arwain at adnabod peth data newydd y dylai systemmonitro'r ASS ei ddal |

**Tabl 6 Fframwaith Gwerthuso Datblygiad Isadeiledd – Mesurau Proses**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Marchnata a gweithgareddau Cysylltiadau Cyhoeddus wedi'u cynllunio i godi ymwybyddiaeth grwpiau targed ac ymwybyddiaeth mwy cyffredinol o bwysigrwydd sgiliau sylfaenol. | - Asesiad o resymeg a chynllun yr ymgyrchoedd marchnata/ cysylltiadau cyhoeddus, hysbysebion papurau newydd a phecynnau hyrwyddo.<br>- Asesiad o faint y cymerwyd i ystyriaeth y darganfyddiadau a thystiolaeth ymchwil y cyfryngau mwyaf effeithiol o gyrraedd grwpiau targed.<br>- Asesiad o'r prosesau a ddefnyddiwyd i gomisiynu a rheoli arolygiadau. | Arolwg Desg o fanylion prosiect based<br><br>Trafodaeth strwythuredig gyda staff ASS Cymru | Hydref 2007 Haf 2009<br>Gwanwyn 2007 Hydref 2009 | E<br><br>S | ✓<br><br>✓ | | o |
| | Marchnata a gweithgaredd cysylltiadau cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth cyflogwyr o agenda sgiliau sylfaenol. | - Asesiad o resymeg a chynllun yr ymgyrchoedd marchnata/ cysylltiadau cyhoeddus<br>- Asesiad o faint y cymerwyd i ystyriaeth darganfyddiadau a thystiolaeth ymchwil y cyfryngau mwyaf effeithiol o gyrraedd grwpiau targed.<br>- Asesiad o'r prosesau a ddefnyddiwyd i gomisiynu a rheoli arolygiadau. | Arolwg Desg o fanylion prosiect<br><br>Trafodaeth strwythuredig gyda staff ASS Cymru | Hydref 2007 Haf 2009<br>Gwanwyn 2007 Hydref 2009 | E<br><br>S | ✓<br><br>✓ | | o |
| | Marchnata a gweithgaredd Cysylltiadau Cyhoeddus wedi'u cynllunio i godi ymwybyddiaeth darparwyr dysgu o werth y Marc Safon | - Asesiad o faint mae tystiolaeth sy'n ffurfio astudiaeth achos Marc SAfon yn cael ei gymryd i ystyriaeth.<br>- Asesiad o'r prosesau a ddefnyddiwyd i gomisiynu a rheoli arolygiadau.<br>- | Arolwg Desg o fanylion prosiect<br><br>Trafodaeth strwythuredig gyda staff ASS Cymru | Hydref 2007 Haf 2009<br>Gwanwyn 2007 Hydref 2009 | E<br><br>S | ✓<br><br>✓ | | o |
| | Gweithgareddau hyrwyddol lleol – wedi'u cefnogi gan grantiau LPF | - I ba raddau mae cynllun grant yn dod â grwpiau o sefydliadau at ei gilydd i hyrwyddo dysgu sgiliau sylfaenol gyda'i gilydd.<br>- I ba raddau mae cynllun grant yn datblygu prosiectau sy'n | Arolwg Desg o fanylion prosiect<br><br>Arolwg Desg o gynigion prosiect | Hydref 2007 Haf 2009 | E | ✓ | | o |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | canolbwyntio ar ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf | | | | | | |
| | Rhyngweithiad gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar lefel Cymru gyfan, lefel rhanbarthol ac ar lefel leol | Faint o amser mae swyddog ASS yn ei dreulio mewn cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol | Arolwg o adroddiadau rheoli ASS Cymru | Hydref 2007 Haf 2009 | E | ✓ | ✓ | o |
| | | Amgyffred canlyniadau buddsoddiad amser ASS o safbwynt y rhanddeiliad. | Trafodaethau strwythuredig gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys:<br>- LlCC – Grŵp plant ac Ysgolion<br>- LlCC – Grŵp Dysgu gydol oes a Sgiliau<br>- Canolfan Byd Gwaith<br>- Gwasanaeth Carchardai/ Gwasanaeth Prawf/NOMS<br>- Estyn<br>- Cynghorau Sgiliau Sector<br>- TUC<br>- Cyngor Llyfrau Cymraeg<br>- BBC/S4C<br>- learndirect/Ufl<br>- CCET[37]<br>- Awdurdodau Lleol [38]<br>- Darparwyr Dysgu[39]<br>- Cyrff Gwirfoddol[40]<br>- Cydlynwyr ChAI/ChAR<br>- Grwpiau Llywio ChAI | Gwanwyn/Haf 2007 Haf/ Hydref 2009 | S | ✓ | ✓ | |

[37] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[38] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[39] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[40] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | - Cydlynwyr Partneriaeth Plant<br>- Gyrfa Cymru<br>- CGGC/CGS | | | | | |
| | Lobïo / dylanwadu ar randdeiliaid a phartneriaid | Faint o amser swyddog ASS a dreulir mewn cyfarfodydd gyda adrannau LlCC | Arolwg o adroddiadau rheoli ASS Cymru | Hydref 2007 Haf 2009 | E | ✓ | | o |
| | | Amgyffred o ganlyniadau amser ASS a fuddsoddir o safbwynt LlCC | Trafodaethau strwythuredig gyda:<br>- Grŵp Plant ac Ysgolion<br>- Grŵp Dysgu Gydol Oes<br>- Grŵp Cymwysterau a Chwricwlwm<br>- Grŵp Addysg Uwch | Gwanwyn/Haf 2007 Haf/ Hydref 2009 | S | ✓ | | |
| | Trefnu seminarau a chynadleddau wedi eu hanelu at ymarferwyr a phobl proffesiynol eraill ym maes sgiliau sylfaenol. | - Nifer o seminarau/ cynadleddau a gynhaliwyd<br>- Nifer o ymarferwyr yn mynychu'r seminarau/cynadleddau | Derbyniadau gan drefnwyr | | | | | o |
| | Cyllido datblygiad ymarferwyr drwy Grantiau Ymarfer Dysgu. | - Nifer o staff yn derbyn hyfforddiant o ganlyniad i'r grantiau hyfforddi. | Adroddiadau AALl i ASS | | | | | o |
| | Cefnogi eraill wrth ddarparu hyfforddiant sy'n gysylltiedig ä sgiliau sylfaenol | - AALl ac asesiad y darparwr o werth cefnogaeth hyfforddiant ac/ neu deunyddiau hyfforddi a dderbyniwyd gan ASS | Trafodaethau Strwythuredig gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys:<br>- Canolfan Byd Gwaith<br>- Gwasanaeth Carchardai /Gwasanaeth Prawf/NOMS<br>- learndirect/Ufl | Gwanwyn/Haf 2007 Haf/ Hydref 2009 | S | ✓ | ✓ | o |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | - AALI<br>- Darparwyr Dysgu [41]<br>- Cyrff Gwirfoddol [42] | | | | | |
| | Cefnogi Cyngres Undebau Llafur i hyfforddi Cynrychiolyddion Dysgu'r Undebau (ULR) i fynd i'r afael â materion sgiliau sylfaenol | - Asesiad Cyngres Undebau Llafur o werth cefnogaeth hyfforddiant/ neu deunyddiau hyfforddi oddi wrth ASS | - Trafodaethau strwythuredig gyda chyngres Undebau Llafur. | Gwanwyn/Haf 2007<br>Haf/ Hydref 2009 | S | ✓ | ✓ | o |
| | Cyhoeddi a rhannu deunyddiau ymarfer da. | - % AALl a darparwyr dysgu sy'n derbyn cyfarwyddyd a chyngor. | Adroddiadau'r Swyddog Datblygu | | | | | o |
| | Lledaenu ymarfer da drwy ddulliau eraill | - Lefel o ddeunyddiau ymarfer da drwy wefan ASS Cymru | Adolygu gwefan ASS<br>Strategaeth gwefan | | | | | o |
| | Cyfrannu at drafodaethau ymarfer da ASS | - Asesiad ASS o'r cyfraniad a wnaed gan ASS Cymru | Trafodaeth strwythuredig gyda ASS a staff ASS Cymru | Gwanwyn 2007<br>Hydref 2009 | S | ✓ | | o |
| | Darparu cefnogaeth ychwanegol i ddarparwyr/contractwyr sy'n methu ä chyrraedd eu targedau | - Asesiad Buddiolwr o ansawdd y cyngor a'r gefnogaeth a gafwyd | Adroddiadau gwerthuso<br>Arolwg bodlonrwydd blynyddol<br>Trafodaethau strwythuredig gyda chyflenwyr sy'n methu cyrraedd y targedau mewn ardaloedd astudiaethau achos.<br>Trafodaethau strwythuredig gyda chontractwyr sy'n methu cyrraedd y targedau | | S<br><br>S | | ✓<br><br>✓ | |
| | Cefnogi darparwyr drwy ymweliadau ac asesiad sy'n ymwneud â Marc Ansawdd | - Asesiad y buddiolwr o ansawdd y cyngor a'r gefnogaeth a gafwyd | Adroddiadau gwerthuso??<br>Arolwg bodlonrwydd blynyddol | | | | | |

[41] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig
[42] Mewn ardaloedd astudiaethau achos yn unig


| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | – dim arolwg bodlonrwydd ar hyn o bryd.<br>Angen cynnwys ôl-16.<br>Trafodaethau strwythuredig gyda sampl o gyflenwyr mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | | S | | ✓ | |
| | Darparu cyllid grant (Grant Buddsoddi Strategol [SIG], LPG etc) | - Asesiadau mudiadau'r derbynyddion:<br>- o'r broses ymgeisio<br>- o'r broses hawlio<br>- o'r broses taliadau | | | | | | |
| | Darparu cefnogaeth ymgynghorol i gyflenwyr a chyflogwyr fel bo'r angen | - Asesiad y buddiolwyr o safon y cyngor a'r gefnogaeth a dderbyniwyd | Adroddiadau gwerthuso<br>Arolwg canfyddiad blynyddol<br>Trafodaethau strwythuredig gyda sampl o gyflenwyr a derbynnyddion ymgynghorol mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos<br>Trafodaethau strwythuredig gyda sampl o gyflogwyr a derbynnyddion ymgynghorol mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | | S<br>S | | ✓<br>✓ | |
| | Gwirio ar hap yr ymyriadau a gefnogir | - 10% o Raglenni ChAI<br>- 10% o Raglenni Teulu<br>- 10% o Ysgolion Marc Safon<br>- 10% o waith wedi'i gyllido gan SIG<br>- 10% o fuddiolwyr NPS | Arolwg desg o Adroddiadau Monitro ASS | | | | | |
| | Gwerthuso gweithgareddau allweddol:<br>- gwerthusiadau mewnol ASS Cymru o: | - Asesiad o arolwg rhychwantu a phrosesau dylunio.<br>- Asesiad o reolaeth comisiynu arolygon | Monitro / Fframwaith Gwerthuso | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | - gysondeb a materion sy'n berthnasol i fonitro ansawdd ôl-16<br>- Rhaglenni dal i fyny yn y symud o CA1 i CA2 wedi'u cyllido gan SIG<br>- I ba raddau mae ymarfer da mewn hyfforddiant sgiliau yn effeithio ar ymarfer dysgu<br>- Cwrs Teir-ran<br>- Effaith SIGs ar safonau llythrennedd a rhifedd<br>- Ansawdd cefnogaeth / cyngor/ deunydd/ hyfforddiant a gyflenwid gan PCC (ansawdd cynhyrchion PCC)<br>- Gwerthusiadau a gomisiynwyd gan ASS Cymru o linynnau eraill o weithgaredd | - Asesiad o ledaenu darganfyddiadau gwerthuso | | | | | | |
| | Ymgymryd ag arolygon:<br>- Arolwg bodlonrwydd derbynnydd Gwasanaeth NSP<br>- Astudiaeth eang o fyfyrwyr<br>- Arolwg cymhorthdal hyfforddi buddiolwr | - Asesiad o arolwg rhychwantu a phrosesau dylunio<br>- Asesiad o arolygon rheolaeth comisiynu<br>- | NSP yn cynnal arolygon bodlonrwydd | | | | | |
| | Gweithio gyda chyrff eraill i ddylanwadu a datblygu ymyriadau sy'n gysylltiedig â sgiliau sylfaenol | - Amgyffred Rhanddeiliaid o effeithiolrwydd cyfraniad ASS i:<br>- LICC- Datblygiad y Grŵp cymwysterau a chwricwlwm o asesiad priodol ar gyfer plant 14 mlwydd oed<br>- LICC- Datblygiad Grŵp Cymwysterau a Chwricwlwm o fframwaith clir o gymwysterau ac asesiad<br>- Ymdrechion darparwyr i gynyddu | Trafodaethau strwythuredig gyda rhanddeiliaid perthnasol | | S | ✓ | ✓ | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | nifer y rhai sy'n dewis darpariaeth sydd ymhlyg yn y sgiliau sylfaenol<br>- ymdrechion i osod safonau a chymwysterau'n eu lle ar gyfer sgiliau sylfaenol arbenigol/athrawon ESOL<br>- Y Gwasanaeth Carchardai a'r GCRhT i lunio cynlluniau gweithredu er mwyn gwella sgiliau sylfaenol y troseddwyr a chyn-droseddwyr.<br>- Ymdrechion i ddatblygu safonau i ddysgu llythrennedd a rhifedd i'w cynnwys yng ngofynion Statws Athrawon Cymwysedig<br>- Cyfarfodydd Rhyngrwyd Cyflogwr<br>- Cyngres Undebau Llafur i gyflenwi sgiliau sylfaenol y gweithle gan ddysgu drwy ULS a gyda chefnogaeth WULF | | | | | | |
| | Datblygu a phrofi agweddau newydd tuag at gyflenwi a chefnogi datblygiad sgiliau sylfaenol (gan ddefnyddio gwybodaeth) | - Amgyffred Rhanddeiliaid o lwyddiant neu fethiant y prosiectau 'peilot' a ddyluniwyd i :<br>- Ddenu pobl i fewn i ddarpariaeth hyfforddiant sgiliau sylfaenol<br>- Ddatblygu darpariaeth sgiliau sylfaenol amgen, gan adeiladu ar gyrsiau Tair- rhan.<br>- Ehangu ystod lleoedd gosod dysgu gan gynnwys pellter a dysgu drwy e-bost<br>- Agwedd mwy o gyd-asio i adnabod angen a monitro cynnydd. | Trafodaethau strwythuredig gyda rhanddeiliaid perthnasol | | S | ✓ | ✓ | |
| | Monitro perfformiad gweithgareddau allweddol yn erbyn targedau. | - Asesiad rhanddeiliaid allweddol o gywirdeb, perthnasedd a phrydlondeb gwybodaeth reoli a ddarparwyd ar eu cyfer<br>▪ Cyfarwyddwr ASS Cymru | Arolwg o adroddiadau rheolaeth wedi eu darparu i:<br>- Cyfarwyddwr ASS Cymru | | E | ✓ | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ▪ Grwp gweithredu strategaeth Cymru gyfan | - Grŵp Gweithredu Strategaeth Cymru Gyfan<br>Trafodaethau strwythuredig gyda Chyfarwyddwr ASS Cymru ac aelodau Grŵp gweithredu Strategaeth | | S | ✓ | | |
| | Rheolaeth Gyllidol | - Llwyddiant cyllid sy'n ymwneud â thargedau Gwasanaethau Cefnogi | Adolygiad mewnol / archwiliad | | | | | |
| | Rheolaeth Adnoddau Dynol | - Llwyddiant targedau Gwasanaethau Cefnogi Adnoddau Dynol | Adolygiad mewnol / archwiliad | | | | | |
| | Rheolaeth TGCh | - Llwyddiant targedau Gwasanaethau Cefnogi TG | Adolygiad mewnol / archwiliad | | | | | |
| | Gwasanaethau swyddfa gyffredinol | - Llwyddiant targedau Gwasanaethau cefnogi cyffredinol | Adolygiad mewnol / archwiliad | | | | | |

## Ffigur 6 Fframwaith Gwerthuso Cyflenwi Dysgu



**Tabl 7 Fframwaith Gwerthuso Cyflenwi Dysg – Mesurau Effaith**

| CYF | MESUR | DISGRIFYDD MESURYDD | FFYNONELLAU DATA | AMSERU/ AMLDER | DATA SYLFAENOL neu EILAIDD | LEFEL OFODOL | | YSTYRIAETHAU ALLANOLDEB |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Cymru | Astudiaeth Achos | s |
| | Cynnydd yng ngraddau gweithgarwch economaidd | - Gweithredol yn economaidd fel % o boblogaeth oedran gwaith/graddau cyflogaeth/di-waith [43]<br>-<br>- Gweithredol yn economaidd/cyflogedig/di-waith fel % o ddysgwyr sy'n rhan o'r arolwg eang ac amser newid drosodd<br><br>- Agweddau'r myfyrwyr tuag at y gwahaniaeth:<br>- Gwella'u sgiliau llythrennedd neu rhifedd a wnaed i'w statws cyflogaeth a/neu 'u rhagolygon am swydd<br>- Cymryd rhan mewn sgiliau dysgu sylfaenol a wnaed i'w statws cyflogi a/neu rhagolygon am swydd | Arolwg o'r gweithlu /LLFS/NOMIS<br><br>Prif arolwg eang o'r myfyriwr<br><br>Trafodaethau dwys gyda is-sampl o fyfyrwyr | Hydref<br>2007<br>2008<br>2009<br>Hydref<br>2007<br>2008<br>2009 | E<br><br>S<br><br>S | ✓<br><br>✓<br><br>✓ | | o Newidiadau mewn amodau economaidd yn debyg o effeithio ar fywiogrwydd y farchnad waith |
| | Lefelau incwm wedi cynyddu | - Cynydd yn enillion canolrif y boblogaeth gyfan dros y cyfnod gwerthuso.[44]<br>-<br>- Cynydd yn enillion canolrif y dysgwyr sy'n rhan o'r arolwg eang | Arolwg blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)_ | Hydref | E<br><br>E<br>S | ✓<br><br>✓<br>✓ | | |

[43] Fel rheolydd – gweler hefyd Pennod 4
[44] Fel rheolydd – gweler hefyd Pennod 4

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | - Barn myfyrwyr am y gwahaniaeth:<br>- Gwella eu sgiliau llythrennedd neu eu sgiliau rhifedd yn gwneud gwahaniaeth i'w henillion<br>- Cymryd rhan mewn dysgu sgiliau sylfaenol yn gwneud gwahaniaeth i'w henillion<br>- Barn myfyrwyr am y gwahaniaeth mae gwell sgiliau sylfaenol yn debyg o wneud i'w henillion yn ystod y 2-3 blynedd nesaf | Prif arolwg eang myfyrwyr<br><br>Trafodaethau llawn gydag is-sampl o fyfyrwyr | 2007<br>2008<br>2009 | S | ✓ | | |
| | Mwy yn cymryd rhan mewn dysgu | - graddfa absenoldeb ysgol uwchradd<br>- % pobl ifanc yn aros ymlaen yn yr ysgol neu mynd ymlaen i addysg uwch<br>- % y boblogaeth o oedran gweithio sy'n gwneud rywfaint o ddysgu ffurfiol[45]<br>- % o fyfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn arolwg hydredol sy'n cymryd rhan mewn dysgu pellach ar ôl gorffen y cyfnod cychwynnol o ddysgu sgiliau sylfaenol<br>- Barn y myfyrwyr am y graddau y gwnaeth:<br>- Gwella eu sgiliau llythrennedd neu eu sgiliau rhifedd eu cynorthwyo i elwa ar gyfleoedd dysgu ehangach<br>- Gwella eu sgiliau llythrennedd neu eu sgiliau rhifedd eu hannog i ddal ati i ddysgu ymhellach<br>- Cymryd rhan mewn dysgu sgiliau sylfaenol eu hannog a'u galluogi i elwa o ddysgu ymhellach | LLWR<br><br>Prif arolwg hydredol myfyrwyr<br><br>Trafodaethau llawn gydag is-sampl o fyfyrwyr | Hydref 2007 2008 2009<br>Hydref 2007 2008 2009 | S<br>S | ✓<br>✓ | | o Lefel buddsoddi AALI<br>o Bywiogrwydd y farchnad waith leol<br>o Argaeledd dysgu lleoll priodol |
| | Gwelliannau mewn iechyd a lles | - - % yr unigolion sy'n dweud fod ganddynt broblemau iechyd tymor | Arolwg Iechyd Cymru | 2003<br>2008 | | | | |

[45] Fel rheolydd – gweler hefyd Pennod 4

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | hir[46]<br>- % o fyfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn arolwg eang dweud fod ganddynt broblemau iechyd tymor hir ac sy'n newid dros amser<br>-<br>-<br>- Barn y myfyrwyr o'r hyn sydd wedi gwneud gwahaniaeth:<br>- Sut mae gwella eu sgiliau sylfaenol wedi gwneud gwahaniaeth i'w hiechyd a theimlo budd o hyn, a'r rhesymau tu ôl i unrhyw wahaniaethau a wnaed<br>- Sut mae cymryd rhan mewn hyfforddiant sgiliau sylfaenol wedi gwneud gwahaniaeth i'w hiechyd a theimlo budd o hyn, a'r rhesymau tu ôl i unrhyw wahaniaethau a wnaed | Prif arolwg eang myfyrwyr<br><br>Trafodaethau llawn gydag is-sampl o fyfyrwyr | Hydref 2007 2008 2009<br>Hydref 2007 2008 2009 | S | ✓ | | |

[46] Fel rheolydd – gweler hefyd Pennod 4

**Tabl 8 Fframwaith Gwerthuso Cyflenwi Dysgu – Mesurau Deilliant**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA)1<br>% plant ifanc sydd wedi'u paratoi ar gyfer dysgu pan fyddant yn cychwyn yr ysgol | - Asesiadau athrawon o sgiliau plant wrth gychwyn dysgu | Arolwg o athrawon | | E | ✓ | ✓ | o |
| | DPA 2<br>% y plant sy'n gadael yr ysgol gynradd gyda sgiliau darllen, ysgrifennu a sgiliau rhif da | - cyrhaeddiad disgyblion yn y cyfnodau Allweddol | Asesiadau athrawon oddi fewn neu ar ddiwedd y Cyfnodau Allweddol (o ble y dônt) | | E | | | o |
| | DPA 3<br>% y bobl ifanc sy'n gadael addysg orfodol gyda sgiliau sylfaenol da | - Y cymwysterau perthnasol wedi'u cyrraedd | CYBLD AADGOS | | E | | | o |
| | DPA 4<br>% o oedolion gyda sgiliau sylfaenol da | - % yr oedolion gyda llythrennedd islaw lefel 1 ac yn newid dros amser<br>- % yr oedolion gyda rhifedd islaw lefel 1 ac yn newid dros amser[47]<br>-<br>- % o'r rhai sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant sgiliau sylfaenol yn dangos gwelliant mewn sgiliau sylfaenol drwy ddefnyddio arf asesu y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Genedlaethol<br>- gwahaniaethau ymddangosiadol mewn effeithiau ar sgiliau sylfaenol mewn pobl wnaeth ddilyn 'cyrsiau' o wahanol ddwyster<br>- Barn myfyrwyr o'r gwahaniaethau wnaeth cymryd rhan mewn dysgu sgiliau sylfaenol i'w lefelau llythrennedd a rhifedd | Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol Oedolion<br><br>Prif arolwg eang myfyrwyr<br><br>Trafodaethau dwys gyda is sampl o fyfyrwyr | 2003<br>2008[48]<br><br>Hydref 2007 2008 2009<br><br>Hydref 2007 2008 2009 | E<br>S<br><br>S | <br>✓<br><br>✓ | | o |

[47] Fel rheolydd – gweler hefyd Pennod 4
[48] Yn ddarostyngedig i gadarnhad

**Tabl 9 Fframwaith Gwerthuso Cyflenwi Dysgu – Mesurau Cynnyrch**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % o rieni gyda gwell gallu i gefnogi datblygiad sgiliau iaith a rhif eu plant | - Barn rhieni ar sut mae gweithgaredd wedi effeithio lefelau eu sgiliau sylfaenol<br>- Barn rhieni ar sut mae gweithgaredd wedi effeithio lefelau eu gallu i gynorthwyo'u plant | Trafodaethau dwys gyda is sampl o rieni myfyrwyr | Hydref 2007 2008 2009 | S | ✓ | | o |
| | % o'r rhieni gyda gwell sgiliau sylfaenol | - % o'r rhai sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant sgiliau sylfaenol sy'n dangos gwelliant mewn sgiliau sylfaenol<br>- Gwahaniaethau ymddangosiadol mewn effeithiau ar sgiliau sylfaenol mewn pobl sydd wedi dilyn 'cyrsiau' o wahanol ddwyster<br>- Barn y myfyrwyr o'r gwahaniaethau roedd cymryd rhan mewn dysgu sgiliau sylfaenol wedi'i wneud i'w lefelau llythrennedd a rhifedd | Prif arolwg eang myfyrwyr<br><br>Trafodaethau dwys gyda is sampl o rieni myfyrwyr | Hydref 2007 2008 2009<br><br>Hydref 2007 2008 2009 | S<br><br>S | ✓<br><br>✓ | | o |
| | % o'r plant gyda gwell sgiliau iaith, llythrennedd a/neu rhifedd | - Asesiadau athrawon | | | | | | o |
| | % y disgyblion a dargedwyd gan SIG gyda gwell cyrhaeddiad llythrennedd/ rhifedd | - Asesiadau athrawon | Gwerthusiad dal i fyny SIG | Tachwedd 2006 | | | | o |
| | % o oedolion o oedran gweithio gyda sgiliau llythrennedd a rhifedd Lefel 1 ac uwch | - % o oedolion o oedran gweithio gyda sgiliau sylfaenol Lefel 1 ac uwch cyn cyflwyno'r Strategaeth<br>- % o oedolion o oedran gweithio gyda sgiliau sylfaenol Lefel 1 ac uwch ar ôl cyflwyno'r Strategaeth<br>- Lefel llythrennedd y rhai sy'n cymryd rhan ar ddechrau a diwedd y rhaglen ddysgu | Adroddiad Meincnod Llythrennedd a Rhifedd Oedolion y BMRB<br>Arolwg Cenedlaethol Sgiliau Sylfaenol Oedolion<br>Arolwg Cenedlaethol Sgiliau Sylfaenol Oedolion<br>System LLWR AADGOS | 2001<br>2003<br>2008<br>31 Mawrth 2007 2008 | E<br>E<br>E<br>E | ✓<br>✓<br>✓<br>✓ | | o |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | - Lefel rhifedd y rhai sy'n cymryd rhan ar ddechrau a diwedd y rhaglen ddysgu<br>- % y rhai sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant sgiliau sylfaenol yn dangos gwelliant mewn sgiliau sylfaenol | System LLWR AADGOS<br><br>Prif arolwg eang myfyrwyr | 2009<br>2010<br>Hydref<br>2007<br>2008<br>2009 | S | ✓ | | |

**Tabl 10 Fframwaith Gwerthuso Cyflenwi Dysgu – Mesurau Proses**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhieni a phlant yn cymryd rhan mewn Rhaglenni ChAI a ChAR | - Cyrraedd targedau cymryd rhan ChAI mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos<br>- Cyflawniad targedau cymryd rhan ChAR mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Data AALI<br><br>Data AALI | | E | | ✓ | o |
| | Rhieni a phlant yn cymryd rhan mewn Rhaglenni Teulu | - Cyrraedd targedau cymryd rhan mewn Rhaglenni Teulu mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Data AALI | | E | | ✓ | o |
| | Disgyblion yn elwa o weithgareddau wedi'u cyllido gan SIG | - Cyrraedd targedau buddiolwyr SIG mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Data AALI | | E | | ✓ | o |
| | Pobl yn derbyn cymorth i adnabod anghenion a phenderfynu sut i'w taclo nhw | - % y rhai sy'n cymryd rhan mewn dysgu wedi'i gyllido'n gyhoeddus yn gwneud asesiad sgiliau sylfaenol | System LLWR AADGOS | 31 Mawrth<br>2007<br>2008<br>2009<br>1010 | E | | ✓ | o |
| | Gweithwyr cyflogedig yn elwa o hyfforddiant sgiliau sylfaenol yn y gweithle | - Niferoedd y bobl a gyflogir gan gwmnïau sydd wedi rhoi addewid y Cyflogwr<br>- Niferoedd y gweithwyr cyflogedig mewn busnesion sydd wedi rhoi Addewid y Cyflogwr yn derbyn cefnogaeth | Cronfa ddata Addewid y Cyflogwr | | E | | ✓ | o |
| | Oedolion o oedran gweithio yn cymryd rhan mewn cyrsiau sgiliau sylfaenol neu'n derbyn cefnogaeth sgiliau sylfaenol fel rhan o gyrsiau/ gweithgareddau eraill | - % y rhai sy'n cymryd rhan mewn dysgu wedi'i gyllido gan arian cyhoeddus yn gwneud hyfforddiant sgiliau sylfaenol | System LLWR AADGOS | 31 Mawrth<br>2007<br>2008<br>2009<br>1010 | E | | ✓ | o |

# 4 Ymdrin ag Allanoldebau / Asesu'r Gwrthffeithiol

## 4.1 Cyflwyniad

Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym am geisio ymdrin â rhai o'r materion ynghlwm wrth asesu effaith y Strategaeth ac ymchwilio'r gwrthffeithiol – hynny yw beth fyddai wedi digwydd pe na bai'r strategaeth wedi'i sefydlu.

Mae prif amcanion ymchwil i effaith y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol fel a ganlyn:

- I ymchwilio i'r cysylltiad rhwng priodoleddau / newid yn amgylchiadau'r buddiolwyr a deilliannau o'r ddarpariaeth sgiliau sylfaenol
- I ymchwilio i natur y newidiadau mewn amgylchiadau personol y gellir eu cysylltu â gwahanol fathau o ddarpariaeth sgiliau sylfaenol
- I archwilio ychwanegolrwydd y ddarpariaeth o ran deilliannau cadarnhaol y sylwyd arnynt, a chyn belled ag y mae'n bosib, y gwahanol fathau o ddarpariaeth gan gymryd i ystyriaeth y baich di-fudd.

Mae'r prif fater yn cyfeirio at y posibilrwydd y gellid fod wedi llwyddo i gael canlyniadau 'cadarnhaol' yn absenoldeb y ddarpariaeth. Gallai newidiadau yn amgylchiadau economaidd neu gymdeithasol y buddiolwyr fod yn ganlyniad i gyfres o ffactorau personol / cefndirol, ac yn achos canlyniadau cyflogaeth yn arbennig, newidiadau yn yr amgylchedd economaidd.

Mae nifer o anawsterau cynhenid wrth wneud asesiad o'r fath, pan yn ystyried effeithiau beth sydd yn ei hanfod yn strategaeth hollbresennol:

I ddechrau, er fod y nodweddir y Strategaeth gan ymyriadau ym mhob oedran, mae'r ystyriaeth y bydd asesiadau o'r effeithiau sy'n codi o'r Strategaeth (yn hytrach na'r Cynllun Cyflenwi) yn berthnasol i newidiadau yn amgylchiadau ac ymddygiad yr unigolyn sydd wedi digwydd oherwydd cyswllt â'r ymyriad.

Mae nifer o anawsterau cynhenid wrth wneud asesiad o'r fath, wrth ystyried effeithiau beth sydd yn ei hanfod yn strategaeth hollbresennol:

- I ddechrau, er y nodweddir y Strategaeth gan ymyriadau ym mhob oedran, mae'r ystyriaeth y bydd asesiadau o'r effeithiau sy'n codi o'r Strategaeth (yn hytrach na'r Cynllun Cyflenwi) yn berthnasol i newidiadau yn amgylchiadau ac ymddygiad yr unigolyn sydd wedi digwydd oherwydd cyswllt â'r ymyriad. Materion economaidd a budd cymdeithasol fydd y rhain yn bennaf, fel newidiadau mewn statws cyflogaeth, cymryd rhan mewn dysgu a'r farchnad waith, gwell cyflog neu gyfraniad i gydlyniad cymunedol. Yn ymarferol, byddai'n anodd os nad yn amhosibl monitro'r effeithiau hyn mewn plant oedran ysgol yn ystod cyfnod Cam 2 o'r gwaith ymchwil, gan y

bydd nifer o'r buddiolwyr yn dal i fod mewn addysg orfodol ar ddiwedd y cyfnod ymchwil. I'r rhai hynny fydd yn symud o gyfnod ysgol i fod yn oedolion byddai'n anodd iawn datod effeithiau unrhyw ddarpariaeth sgiliau sylfaenol ychwanegol oddi wrth amgylchiadau ehangach sy'n penderfynu statws economaidd a chymdeithasol. **Felly, mae ein cynigion ar gyfer olrhain effeithiau ehangach yn canolbwyntio ar y grŵp ôl-16 o fyfyrwyr sgiliau sylfaenol.**

- Yn ail mae'r ystyriaeth fod yn rhaid i bob oedolyn sy'n dysgu, sy'n derbyn cyllid, fod wedi cwblhau asesiad cyn cychwyn ar unrhyw raglen ddysgu. Yn ôl Canllaw ELWa (nawr yn CYBLD)[49]:

*Mae Cyfarwyddiaeth Dysgu ELWa yn mynnu fod yn rhaid sgrinio yr holl fyfyrwyr sy'n cychwyn rhaglenni dysgu yn 2005/06 am eu hanghenion llythrennedd a rhifedd. Dylid dilyn hyn gydag asesiad cychwynnol, ble mae'n briodol. Mewn achosion ble mae'r darparwyr yn symud yn uniongyrchol i asesiad cychwynnol y myfyrwyr, nid oes angen sgrinio. Dylai darparwyr sydd eisoes yn cynnal asesiad cychwynnol ar gyfer myfyrwyr newydd barhau gyda'r arfer hwn.*

Bydd pob un y canfuwyd fod ganddo anghenion rhifedd neu lythrennedd yn cael ei gyfeirio at raglen ddysgu Sgiliau Sylfaenol, am gyfnod o hyd at 38 wythnos. Mae'r ymdriniaeth gyffredinol o asesiad yn awgrymu na fydd yn bosibl yn gyffredinol i wahaniaethu rhwng prif lif oedolion sy'n dysgu gyda nodweddion tebyg fel arall, sy'n derbyn neu sydd ddim yn derbyn cefnogaeth ychwanegol rhifedd a llythrennedd. Fodd bynnag, efallai fod yna'n dal i fod dewisiadau ar gyfer rheolydd neu gymharu o ganlyniad i, er enghraifft:

- o Cynnal peilot, ble mae llinynnau newydd o gyflenwi yn cael eu cyflwyno ar sail rhanbarthol neu isranbarthol i ddechrau, neu i grwpiau targed neilltuol.
- o Cymharu'r rhai sydd wrthi'n dysgu ac yn derbyn cefnogaeth sgiliau sylfaenol gyda'r rhai sydd ddim yn dysgu, ond fel arall gyda nodweddion tebyg. Gellid gwneud hyn naill ai gan ddefnyddio technegau fel rheolydd ffurfiol gan ddefnyddio Cydweddu Sgoriau Tueddiad (PSM) neu y dull "Canfod Cyfaill" ("Find a Friend") a ddisgrifir yn ddiweddarach yn yr adran hon.

- Yn drydydd, mae yna amrywiaeth eang o allanoldebau sy'n effeithio ar yr un grwpiau targed â'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol, yn arbennig efallai mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ble mae'n debygol y bydd nifer o weithgareddau sy'n cydweddu neu'n cystadlu wedi'u hanelu at y garfan sydd â diddordeb.

---

[49] Cyfarwyddiadur Cefnogi'r Defnyddiwr Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru 2005/06 ar gyfer Darparwyr Dysgu. Elwa 2005

Wrth gynllunio'r rhaglen waith, rydym wedi ystyried amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer asesu'r gwrthffeithiol ac fe ymdrinnir â rhai o'r rhain isod, yn ogystal â'u potensial ar gyfer eu defnyddio yn ystod y Gwerthusiad.

### 4.2 Rheolyddion Ffurfiol

Yn ddamcaniaethol, byddai'n bosibl gwneud ymdrech i ddilyn y dull a fabwysiadwyd gan y NIESR yn Lloegr yn eu gwaith ymchwil i'r Adran Addysg a Sgiliau (DfES) ar effaith y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol[50], er ar raddfa lai, drwy sefydlu grŵp rheolydd ffurfiol neu grŵp cymharu er mwyn gallu cymharu sampl o fyfyrwyr sgiliau sylfaenol. Yn ddarostyngedig i faterion y Ddeddf Diogelu Data, efallai y gellid cael y rhain drwy ailgysylltu ag unigolion a gymerodd ran yn yr Arolwg Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol ac nad oeddynt wedi sgorio mwy na Lefel 1 mewn llythrennedd. Gallai hyn ddarparu carfan o tua 1,000 – 1,200 o gysylltiadau fel man cychwyn. Fodd bynnag, gan y byddai ailgysylltu yn golygu galw mewn cartrefi i sicrhau cyfradd ymateb digonol, byddai sicrhau grŵp rheolydd o hyd yn oed 150 – 200 yn drwm ar adnoddau – ac ni fyddai yn darparu sampl ddigon mawr i fod yn rheolydd ar gyfer nifer o newidynnau pwysig. (O'i gymharu, roedd y grŵp rheolydd ar gyfer astudiaeth NIESR yn fwy na 2,200 yn y don gyntaf o'r ymchwil). Yn wir, mae'r raddfa gymharol fechan o banel gwaelodol gyda uchafswm o 600 o gyfranogion (gweler Adrannau 8 – 9 isod) ar draws y gwahanol fathau o ddarpariaeth y byddwn ni'n gallu eu cyfweld fel rhan o'r astudiaeth ehangach hefyd yn atal cymhariaeth gadarn mewn dadansoddi grŵp.

### 4.3 Cynnal Peilot

Ble mae cyfleoedd yn codi, byddwn yn cymryd mantais o raglenni peilot i gymharu profiadau buddiolwyr oddi fewn i'r ardal neu ardaloedd peilot, gyda phrofiadau tebyg unigolion tebyg neu gymharus sy'n byw mewn mannau eraill. Bwriadwn weithio'n agos gyda'r ASS er mwyn adnabod y cyfleon ar gyfer defnyddio'r dull hwn wrth gychwyn ar y Strategaeth. Ymhellach, byddwn yn annog gweithredu rhaglenni peilot ble mae'n briodol drwy gyfnod y gwerthusiad, er mwyn gwneud yn fawr o'r potensial o ddefnyddio'r dull hwn.

*Un enghraifft yma fyddai ble mae cefnogaeth i droseddwyr / cyn droseddwyr heb gael ei gychwyn ym mhob sefydliad yng Nghymru neu ym mhob ardal astudiaethau achos. Petai cynnal peilot yn cael ei ddefnyddio fel dull o gyflwyno cefnogaeth, gellid cynnal arolygon gan ddefnyddio'r grŵp cleient a chymharu gyda sampl sy'n cyfateb o droseddwyr sy'n cyfateb mewn sefydliad sydd ddim yn rhan o'r cynllun*

---

[50] Gweler Atodiad 1

### 4.4 "Dewch â Chyfaill"

Byddai hyn yn golygu dull "cyfateb" mwy anffurfiol ble byddid yn gofyn i fuddiolwyr unigol sydd ar ddarpariaeth i "ddod â chyfaill" (yn llythrennol neu'n drosiadol), i enwi rhywun yn eu rhwydwaith cymdeithasol agos fyddai (yn eu barn hwy) gyda phrofiadau, cymwysterau a sgiliau digon tebyg ac sydd hefyd yn fodlon cymryd rhan yn y gwaith ymchwil. Yn amlwg, byddai data wedi'i gasglu drwy brofion cychwynnol fel hyn yn caniatáu i ni ymchwilio pa mor dda mae'r "grŵp rheolydd" hwn yn cymharu gyda sampl y myfyrwyr – ac i gywiro'r gwahaniaethau amlwg drwy bwysoli. Byddai'r dull hwn yn cario'r risg uchel o fethu sicrhau digon o niferoedd o gyfranogwyr priodol a gallu ailgysylltu â hwy ar gyfer sawl ton olynol o waith maes. Mae hefyd, wrth gwrs, fwy o risg neu siawns i'r unigolion hyn fod yn ymgymryd â darpariaeth sgiliau sylfaenol, o ystyried eu cyswllt â gwaith ymchwil. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o'r dull hwn yn cael ei wneud, nid lleiaf gan astudiaeth beilot y BCS, wnaeth ddefnyddio "pelen eira" (holi'r cyfweleion os oedd ganddynt gyfeillion mewn amgylchiadau tebyg fyddai'n hoffi cymryd rhan) er mwyn recriwtio cyfweleion ychwanegol. Yn ystod y gwerthusiad hwn, mae ganddo'r potensial i gael ei ddefnyddio mewn ardaloedd neu grwpiau bach, ble byddai hyblygrwydd y dull yn fuddiol.

*Un enghraifft o ddefnydd potensial y dechneg hon fyddai cymharu grwpiau o rieni sy'n cymryd rhan mewn Rhaglenni Teulu gyda grwpiau tebyg o rai sydd ddim yn cymryd rhan, wedi'u tynnu o'r un cymunedau, yn rhannu llawer o nodweddion ac yn ddarostyngol i nifer o'r un ffactorau dylanwadol allanol*

### 4.5 Rheolyddion Rhithwir / Grwpiau Cymharu

O dderbyn nad yw sefydlu grwpiau rheolydd ffurfiol yn ymarferol oherwydd cyfyngiadau adnoddau, efallai ei bod yn bosibl yn lle hynny i adeiladu proffil o sampl o fyfyrwyr, ac wedyn i ddefnyddio ystod o ffynonellau ystadegol ac arolygon eraill i gymharu deilliannau ehangach ein sampl, gyda deilliannau cyfwerth i grwpiau tebyg yn y boblogaeth gyfan. Gallai ffynonellau tebyg gynnwys ailadrodd yr Arolwg Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol ei hun a mwy o arolygon cartref Sgiliau Dyfodol Cymru (FSW)[51] (ble gallem o bosib roi mewnbwn i gynllunio'r ymchwil) yn ogystal â setiau data ehangach fel Arolwg o'r Llafurlu (LFS) (i olrhain llif rhwng cyflogaeth, diweithdra ac anactifedd), Arolwg Iechyd Cymru (i ddangos y gogwydd cyffredinol mewn iechyd a gofnodwyd) a'r Arolwg Blynyddol o Enillion Teulu (i ddangos y gogwydd mewn enillion). Yn anochel, bydd hyn yn caniatáu i gasgliadau yn unig gael eu

[51] Yn ddarostyngol i gomisiynu

tynnu, a bydd hefyd angen cryn dipyn o arbenigedd wrth ddehongli'r gwahanol setiau o ddata, ond, er hynny, ystyriwn ei fod yn cyflwyno dewis dichonadwy ar gyfer asesu'r gwrthffeithiol.
Rydym yn archwilio hyn mewn mwy o fanylder yn Adran 4.8 isod.

### 4.6 Dull Gofodol

Fel y trafodwyd uchod, awgrymwn fod yna rinwedd mewn defnyddio dulliau gofodol, fel ardaloedd astudiaethau achos, i ganiatáu cymhariaeth rhwng dau linyn y gweithgaredd ac effeithiau'r ddarpariaeth ar unigolion mewn gwahanol rannau o Gymru. Wrth fabwysiadu'r dull hwn, mae gennym ddewis pa un ai defnyddio ardal astudiaethau achos ar sail "wahaniaethol" neu "gymhariaeth" ar gyfer yr arolygon effaith. Hynny yw, pa un a fyddwn yn gwneud arolwg o fuddiolwyr mewn gweithgaredd a ddarperir yn benodol mewn ardal unigol, ond yn defnyddio ardaloedd gwahanol ar gyfer gweithgareddau gwahanol, neu'n anelu i gyrraedd sampl o fuddiolwyr sy'n oedolion wedi eu gwasgaru ar draws nifer o ardaloedd astudiaethau achos.

Byddai'r dull olaf yn caniatáu rheoli yn erbyn allanoldebau i ryw raddau drwy asesu os yw maint y cynnydd yn dilyn gwella mewn sgiliau sylfaenol yn cael ei effeithio gan bethau fel amodau'r farchnad waith leol, neu'r math o ddarpariaeth sgiliau sylfaenol y ceir mynediad ato. Wedyn gallai un o'r newidynnau 'annibynnol' fod y lefel o ymyriad sgiliau sylfaenol gyda'r buddiolwr. Y casgliad fyddai fod lefelau uwch o ymyriadau gyda'r buddiolwr yn creu mwy o gynnydd ac y gellid datblygu model syml o amgylch hyn, cyn belled â bod mesur digonol o gynnydd ar gael. Bydd hefyd yn angenrheidiol i wahaniaethu yr ymyriad, gan y gallai ymwneud ag un gweithgaredd greu mwy o effaith na gydag un arall.

Er y bydd y fethodoleg angen ychydig o ddatblygiad cychwynnol, mae'n bur debyg y bydd yn dibynnu ar amrywiad ar OLS[52] yn dibynnu ar y math o ddata sydd ei angen. Fel gyda'r dulliau arolwg rheolydd mwy, ni fydd modd gwybod os y bydd ymyriad neu allanoldeb yn arwyddocaol nes bo'r prawf wedi'i wneud, a bydd angen i ni fod yn ofalus yn nhermau defnyddio nifer cymharol fach o arsylwadau. Fodd bynnag, gallwn fod yn fwy hyderus o allu tynnu rhai gwahaniaethau rhwng y gwahanol ardaloedd, a bydd hyn yn darparu rheolydd pwysig ynddo ac ohono fo'i hunan.
Gan hynny credwn fod y Dull Astudiaethau Achos yn cynrychioli agwedd ddefnyddiol o fethodoleg gwerthuso ac rydym wedi integreiddio hyn i'r rhaglen waith yn Adran 8.

[52] Atchweliad Swm Lleiaf Sgwariau Cyffredin (Ordinary Least Squares Regression)

Yn ychwanegol, mae lle ar gyfer ystyriaeth ofodol ble mae'r cyflenwi wedi'i ganolbwyntio ar leoliadau neilltuol – er enghraifft Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf (CF). Yn yr achosion hyn bydd cyfleon i wneud cymariaethau rhwng newid yn ymddygiad y buddiolwyr a rhai'r unigolion sydd wedi'i cydweddu (naill ar drwy PSM neu Canfod Cyfaill) mewn ardaloedd sydd heb fod yn rhai Cymunedau yn Gyntaf. Gellid hefyd wneud cymariaethau rhwng cyfranogion mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a rheolyddion rhithwir wedi'u tynnu o setiau o ddata ehangach, fel a ddisgrifir isod.

### 4.7 Asesu Effeithiau'r Ddarpariaeth Sgiliau Sylfaenol: Y Ffordd Ymlaen

#### Trosolwg

Yn Adran 4.1 uchod, buom yn trafod ein bwriad i ganolbwyntio ar y grŵp o fyfyrwyr ôl-16 o ran asesiadau effeithiau allanol. Er mai asgwrn cefn y gwaith hwn fydd dadansoddiad o arolwg eang o banel o fyfyrwyr, bydd lle i asesiadau effaith ar raddfa lai drwy rai o'r mesurau a ddisgrifir yn Adrannau 4.3 i 4.6. Er enghraifft, bydd effeithiau ar athrawon fydd yn elwa o'r rhaglenni hyfforddi, ar gyflogwyr wnaeth arwyddo Addewid y Cyflogwr a rhieni sy'n cymryd rhan mewn Rhaglenni Teulu. Ni fyddwn mewn sefyllfa i gynllunio'n llawn ein dull o asesu'r rhai ar raddfa lai nes ein bod wedi ennill dealltwriaeth lawnach o weithgareddau gwerthuso a gynlluniwyd gan gontractwyr y ASS a'r Prosiectau Cefnogaeth Cenedlaethol (NSP) fel rhan o'u rhaglenni monitro a gwerthuso.

Ar y cam hwn, rydym wedi cyllidebu ar gyfer arolwg cadarn o athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd, nid yn unig i ddeall eu profiadau hwy o unrhyw newid yn ymddygiad disgyblion ysgol, ond hefyd yr effeithiau ar eu bywydau a'u gyrfaoedd hwy o ganlyniad i ymyriadau sgiliau sylfaenol. Y dull cyfredol a gynlluniwyd gennym tuag at rai o'r grwpiau buddiolwyr eraill yw i asesu effeithiau yn ansoddol drwy grwpiau ffocws a chyfweliadau manwl gydag unigolion. Fodd bynnag, mae angen cydlynu'r gweithgaredd hwn gyda gweithgareddau'r ASS a disgwyliwn gael peth dylanwad o ran siapio eu rhaglen werthuso i ategu ein cynlluniau.

#### Dadansoddiad Arolwg Eang

O ystyried amcanion y rhan hon o'r rhaglen, yr adnoddau sydd ar gael, a natur heterogenaidd y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol waelodol awgrymwn y dulliau canlynol i archwilio ymhellach data yr arolwg, profi'r canlyniadau ac i asesu elfennau o'r gwrthffeithiol. Datblygir y dulliau hyn ymhellach drwy gydweithio gyda grŵp Llywio'r prosiect wrth i'r gwerthusiad fynd rhagddo.


### Dadansoddiad Clwstwr

Bydd y broses arolwg a ddisgrifir yn Adrannau 8 – 11 yn cynhyrchu swm mawr o ddata fydd yn berthnasol i tua 400 - 600 o gyfranogion. Bydd dadansoddiad clwstwr o'r ymatebwyr yn caniatáu i ni ymchwilio i natur y grwpiau sy'n cymryd rhan a'r nodweddion cyffredin fyddai wedyn yn gallu cefnogi dadansoddiad o'r gwrthffeithiol ac adnabod y llinell sylfaen briodol (gweler isod).

Dadansoddiad clwstwr yw dull sy'n grwpio gwrthrychau tebyg i gategorïau priodol. Ein hamcan yma yw i ddosbarthu'r rhai sy'n cymryd rhan i grwpiau yn y fath fodd, er enghraifft, fel fod maint y cyswllt rhwng y ddau gyfranogwr yn cael ei uchafu os rhoddir hwy yn yr un grŵp ond ei isafu os rhoddir hwy mewn grwpiau gwahanol.

Awgrymwn dechneg clystyru syml o fewn fframwaith Pecyn Ystadegol ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol (SPSS). Byddai techneg y goeden hierarchaidd yn uno cyfranogion â'i gilydd i glystyrau sy'n gynyddol fwy gan ddefnyddio mesur o debygrwydd neu 'bellter. Byddai dendrogram (plot coeden hierarchaidd llorweddol) yn cael ei greu (gweler isod). Ar chwith y dendrogram mae pob un o'r cyfranogwyr unigol yn ei ddosbarth ei hun. Mae'r dull a ddefnyddir wedyn i bob pwrpas yn llacio'r criteria am beth sy'n unigryw ac am beth sydd ddim yn unigryw ynglŷn â'r cyfranogwr. Yr effaith yw i gysylltu mwy a mwy o'r cyfranogwyr gyda'i gilydd, a gyda'r echelin *x* yn y dendrogram yn cynrychioli cysylltiad rhwng pellter / tebygrwydd. Am bob nod ar y dendrogram (h.y. ble ffurfir grŵp newydd) mae modd archwilio pellter y cysylltydd ble roedd y grwpiau wedi'u cysylltu â'i gilydd i glwstwr newydd. Os yw'r data a ddadansoddwyd yn cynnwys strwythur echblyg yn nhermau grwpiau tebyg o gyfranogwyr, yna byddai hyn yn cael ei ddangos ar y graff fel canghennau gwahanol. Mae dull hwn o glystyru, wrth archwilio'r nodweddion sy'n debyg rhwng cyfranogion, wedyn yn ystyried y 'pellter' rhwng y cyfranogion.

**Ffigur 7 Clystyru – Y Goeden Hierarchaidd**




Gallai'r achosion wedyn fod yn fuddiolwyr / cyfranogwyr a gallai'r newidynnau fod yn nodweddion iddynt. Er enghraifft, gallai'r nodweddion gynnwys newidynnau sy'n berthnasol i'r canlynol:

- Lleoliad yr unigolyn (e.e. gwledig, trefol, hanner trefol etc)
- Statws y farchnad waith
- Oed
- Enillion
- Dangosydd iechyd
- Cefndir teuluol
- Cefndir addysgol a dysgu
- Ffactorau'r economi leol (gweler isod)
- Darpariaeth sgiliau sylfaenol sy'n bod (dwyster).

Byddai'r dadansoddiad yn defnyddio'r wybodaeth hon i adeiladu teipoleg / nodweddion sy'n debyg i'r rhai sydd yn y panel. Er fod yna sawl gwahanol dull o glystyru, awgrymir y byddai clystyru hierarchaidd sylfaenol yn ddefnyddiol yn yr achos hwn gyda'r offer sydd ar gael oddi fewn i'r Pecyn Ystadegol ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol (SPSS), a gyda'r broses adnabod cam wrth gam a gynrychiolir gan y dendrogram syml yn Ffigur .

Gyda'r canlyniadau o ddadansoddiad clwstwr syml byddem yn gallu ffurfio gwell cynrychioliad o'r cylchoedd cyfoedion priodol sy'n waelodol i'r asesiad llinell sylfaen (gweler isod).

### Dadansoddiad Ystadegol Arall

Byddai'r panel o ddata hefyd yn caniatáu dadansoddiad mwy ffurfiol i ba raddau mae dwyster a natur darpariaeth sgiliau sylfaenol (er enghraifft, pa un ai yw'n fewnol mewn darpariaeth arall neu'n cael ei chyflenwi ar ei phen ei hun) yn gysylltiedig yn arwyddocaol gyda maint deilliannau'r prawf. Fodd bynnag, wrth symud tuag at ddadansoddiad o ba mor bell y gellir cyplysu darpariaeth â chyflogaeth a chyfres o deilliannau meddalach, mae'r mater o swm sylweddol o 'sŵn' yn y system yn cyflwyno sawl her arwyddocaol wrth ynysu effeithiau'r ddarpariaeth uwchlaw ffactorau eraill.

## 4.8 Ymchwilio Materion Gwrthffeithiol

### Asesiad Llinell Sylfaen

Lleolwyd buddiolwyr y rhaglenni sgiliau sylfaenol oddi fewn i amgylchedd gwahanol yn economaidd ac yn gymdeithasol. Wrth ymchwilio i faterion gwrthffeithiol yn absenoldeb dadansoddiad grŵp cymharu manwl, mae'n dal i fod yn bosibl i ddod i gasgliad ar ychwanegolrwydd rhaglen drwy archwiliad o'r hyn allai fod wedi digwydd i aelodau o grwpiau cyfoed ledled Cymru.

Un mater pwysig yma yw y gallai deilliannau o safon isel fod wedi codi mewn un ardal – neu ar draws un cyfnod o amser - er gwaethaf agweddau penodol o hyfforddiant sgiliau sylfaenol. Fodd bynnag, mewn ardal arall neu ar bwynt gwahanol mewn amser, gallai'r un hyfforddiant gyda buddiolwyr tebyg olygu deilliannau cyflogaeth cryf. Erys mater o achosiaeth a'r perygl efallai mai nid yr hyfforddiant sy'n cyfrannu tuag at y deilliant ond ffactor allanol, tebyg i amgylchiadau'r farchnad waith yn dynn neu'r cefndir cymdeithasol.

Bydd natur eang yr astudiaeth yn caniatáu i'r tîm ymchwil ymchwilio cyfres o dueddiadau yn yr ardaloedd ble ceir y buddiolwyr. Yn y dull hwn, gellir cysylltu maint deilliannau positif â phroffil deinamig yr economïau lleol, a bydd yn bosibl i archwilio y tebygolrwydd o gael deilliannau tebyg ar gyfer grwpiau cyfoed cysylltiol. Ceir gwybodaeth am natur y grwpiau cyfoed drwy'r dadansoddi clwstwr a amlinellwyd uchod.

Wrth wneud y dadansoddiad hwn byddwn yn monitro'r newidiadau yn amgylchiadau ein panel o fyfyrwyr sgiliau sylfaenol yn erbyn newidiadau mewn amgylchiadau "cefndir" o garfanau tebyg oddi fewn i'r boblogaeth ehangach, gan ddefnyddio amrywiaeth o setiau data. Awgrymwn mae ardaloedd Awdurdodau Unedig sy'n cynnig y raddfa ofodol mwyaf effeithiol i'r gwaith hwn, o ystyried y crynhoad o ddata llinell sylfaen ar y lefel hon. Atgyfnerthir hyn gan ein hawgrym y gall gwaith maes gael ei ganoli ar ddewis o ardaloedd astudiaethau achos sy'n seiliedig ar Awdurdodau Unedol, dewis sydd yn ei dro wedi derbyn gwybodaeth oddi wrth amrywiaeth o weithgareddau dan y Cynllun Cyflenwi Sgiliau Sylfaenol ar y lefel hon. Bydd olrhain y newidiadau mewn dangosyddion pennawd ar lefel yr Awdurdodau Unedol ble mae ein panel yn byw yn caniatáu i'r tîm i ymchwilio os yw deilliannau positif o hyfforddiant sgiliau sylfaenol, yn cael eu darganfod yn ardaloedd mwy ffyniannus o'r economi. Awgrymir cyfres o newidynnau yn y tabl isod. Gellir monitro perfformiad y gwahanol economïau lleol yn erbyn y dangosyddion hyn dros gyfnod y gwaith ymchwil.

**Tabl 11 Newidynnau Allweddol: Llinell Sylfaen a Newid**

| **Newidyn – Llinell Sylfaen** | **Newidyn – Adroddiad Terfynol** | **Pam** | **Ffynhonnell** |
|---|---|---|---|
| **Lefelau sgiliau sylfaenol yn y boblogaeth yn gyffredinol** | | | |
| % â llythrennedd dan Lefel 1, 2003 | % â lefel Llythrennedd Mynediad, 2008 | Cymhariaeth â thuedd cyffredinol/ cyfeiriad y newid yn y boblogaeth gyfan | Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol Oedolion |
| % â rhifedd dan Lefel 1, 2003 | % â Rhifedd dan Lefel 1, 2003 | Cymhariaeth â thuedd cyffredinol/cyfeiriad newid yn y boblogaeth gyfan | Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol Oedolion |
| **Newidynnau cryfder economaidd** | | | |
| Amcangyfrifon graddfa twf blynyddol 2000-05 | Amcangyfrifon twf blynyddol 2005 – 2008 | Mwy o symud oddi wrth ddiweithdra mewn rhannu mwy ffyniannus o'r economi. Dangosydd cryfder y galw. | Amcangyfrifon NUTS2; Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). |
| GYC y pen, 2004 | GYC y pen, 2007 | Nodweddir rhannau mey | ONS. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cyfoethog o Gymru gan farchnadoedd gwaith cryfach, a mwy o botensial ar gyfer canlyniadau positif. | |
| Twf poblogaeth, 1999-05 | Twf poblogaeth | Dangosydd cryfder y galw a chyflenwi'r economi | Cyfrifiad OCPS. |
| Cyfradd gweithgaredd economaidd 06 | Cyfradd gweithgaredd economaidd 09 | Mae cyfraddau uwch yn gysylltiedig â chryfder y farchnad waith a diwylliant gwaith | LFS, LLFS: NOMIS |
| Cyfradd diweithdra 06 | Cyfradd diweithdra 09 | Tyndra Marchnadoedd gwaith lleol | NOMIS |
| Swyddi gwag mewn canolfannau gwaith 06 | Swyddi gwag mewn canolfannau gwaith 09 | Dangosydd galw lleol am waith | Canolfannau Gwaith |
| Stoc TAW 05 | Stoc TAW 08 | Ffurfiant cwmni newydd yn cynyddu'r galw am waith | Ystadegau TAW, NOMIS. |
| Cyniferydd lleoliad ar ddiwydiannu twf cyflym | | Presenoldeb diwydiannau yn yr ardal gyfeirnod sy'n tyfu'n gynt na cyfartaledd y DU | Deillir o ABI II, NOMIS. |
| Rhagolwg twf | | Cryfder economaidd | Econometreg Caergrawnt |
| **Dangosyddion economaidd cymdeithasol** | | | |
| Mynegai lluosog o amddifadedd personol 04 | Diweddariad Mynegai Lluosog o Amddifadedd Personol (MIPD) | Ble mae ward y buddiolwyr yn sgorio at lefel Ardaloedd Cynnyrch Uwch mewn perthynas ag iechyd, yr amgylchedd, tai, addysg a mynediad i wasanaethau | Mynegai Lluosog o Amddifadedd Personol, LICC |
| Sefydliad Joseph Rowntree 05 | | Safle Awdurdod Unedol yn nhermau mynegai tlodi ac eithrio cymdeithasol | Monitro Tlodi ac Eithrio Cymdeithasol yng Nghymru, 2005. |
| Iechyd – Sgoriau Iechyd Cyffredinol Arolwg Iechyd Cymru 2003 | Ailadrodd Arolwg Iechyd Cymru (AIC) | Sgoriau Iechyd cyffredinol | Arolwg Iechyd Cymru (AIC) |
| **Newidynnau eraill** | | | |
| Cyfartaledd enillion, 2006 | Cyfartaledd enillion, 2009 | Newid mewn dangosydd o gryfder y marchnadoedd | Arolwg Blynyddol o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gwaith lleol | Oriau ac Enillion (ASHE) |

Yn ychwanegol at y gweithgaredd a awgrymir uchod, bydd lle ar gyfer modelu wedi'i seilio ar setiau o ddata sydd eisoes yn bod. Er enghraifft, efallai y bydd yn bosibl i ddefnyddio data o'r Arolwg Sgiliau Sylfaenol Oedolion i sefydlu cryfder y cyswllt rhwng unigolion heb gymwysterau a'r rhai gyda materion sgiliau sylfaenol. Gallai hyn wedyn gael ei ddefnyddio i ddod i gasgliadau wrth gymharu'r arolwg eang o Oedolion sy'n Dysgu a gwybodaeth ar lefelau cymwysterau o Arolwg y Gweithlu.

**Gwaith Maes**

Bydd y rhaglen gwaith maes yn cyfrannu i'r asesiad o'r gwrthffeithiol yn y ffyrdd canlynol:

- **Oedolion sy'n Dysgu:** Cyfweliadau ansoddol gyda swyddogion prosiect a Darparwyr Hyfforddiant mewn ardaloedd astudiaethau achos. Arolwg meintiol o Ddarparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Arolygon meintiol ac ansoddol eang o Oedolion sy'n Dysgu ac is-grwpiau, yn bennaf mewn ardaloedd astudiaethau achos. Bydd yr arolwg eang o oedolion sy'n dysgu yn caniatáu peth is-ddadansoddiad drwy grwpio myfyrwyr – yn benodol myfyrwyr sydd wedi'u lleoli mewn Addysg Bellach ac mewn Gwaith, Ceiswyr Gwaith, Troseddwyr / Cyn droseddwyr a myfyrwyr yn y gweithle. Ble cyfyd cyfleon, bydd dulliau ychwanegol sy'n defnyddio cynnal peilot neu gymariaethau gofodol yn cael eu hymgorffori yn y dadansoddiad. Gellir defnyddio'r deunyddiau profi ar-lein a ddatblygwyd gan Goal plc i fesur ffactorau fel hunanhyder a gellir defnyddio locws rheoli ble mae'n briodol i brofi unigolion ar raddfa fach.
- **Blynyddoedd cynnar:** Cyfweliadau ansoddol gyda swyddogion prosiect a Darparwyr ChAI / ChAR mewn ardaloedd astudiaethau achos.
- **Pobl Ifanc:** Cyfweliadau meintiol gyda swyddogion prosiect a chynrychiolyddion yr AALI /Ysgolion mewn ardaloedd astudiaethau achos. Arolwg meintiol o athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd.
- **Troseddwyr / Cyn droseddwyr:** Cyfweliadau ansoddol gyda swyddogion prosiect a staff Carchardai / NOMS a staff y Gwasanaeth Prawf. Arolwg meintiol o droseddwyr fel is-sampl o arolwg eang o oedolion sy'n dysgu.
- **Darparwyr Hyfforddiant:** Cyfweliadau ansoddol gyda swyddogion prosiect a staff *Learndirect*. Cyfweliadau gyda Darparwyr Hyfforddiant, a Chynrychiolyddion CCET mewn ardaloedd astudiaethau achos.

- **Myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg:** Cyfweliadau ansoddol gyda swyddogion prosiect a Darparwyr Hyfforddiant mewn ardaloedd astudiaethau achos. Grwpiau Ffocws gyda myfyrwyr mewn ardaloedd astudiaethau achos.
- **Myfyrwyr ESOL/EAL:** Cyfweliadau ansoddol gyda swyddogion prosiect a Darparwyr Hyfforddiant mewn ardaloedd astudiaethau achos. Grwpiau Ffocws gyda myfyrwyr mewn ardaloedd astudiaethau achos.
- **Grwpiau sydd mewn Perygl o Allgáu Cymdeithasol:** Cyfweliadau ansoddol gyda swyddogion prosiect a Staff CVC mewn ardaloedd astudiaethau achos. Grwpiau Ffocws gyda myfyrwyr mewn ardaloedd astudiaethau achos.
- **Addewid y Cyflogwr:** Cyfweliadau ansoddol gyda swyddogion prosiect a chyflogwyr mewn ardaloedd astudiaethau achos. Arolwg meintiol o fyfyrwyr yn y gweithle fel is-sampl o arolwg eang  o oedolion sy'n dysgu.
- **Llythrennedd Ariannol:** Cyfweliadau ansoddol gyda swyddogion prosiect a phartneriaid cyflenwi mewn ardaloedd astudiaethau achos.
- **Prosiectau arweinir gan y Sector ESF:** Cyfweliadau ansoddol gyda swyddogion prosiect a phartneriaid cyflenwi mewn ardaloedd astudiaethau achos.
- **Ceiswyr Gwaith:** Cyfweliadau ansoddol gyda swyddogion prosiect a staff Canolfan byd Gwaith mewn ardaloedd astudiaethau achos. Arolwg meintiol o geiswyr gwaith fel is-sampl o arolwg eang o oedolion sy'n dysgu.

### Crynodeb

Mae'r adran hon wedi cyflwyno ein dull o asesu'r gwrthffeithiol, gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau sy'n gymwys i wahanol agweddau o'r gwerthusiad. Bydd y prif bwyslais yn seiliedig ar arolwg eang o oedolion sy'n dysgu. Fodd bynnag, defnyddir amrywiaeth o dechnegau ansoddol a meintiol eraill, naill ai fel maent wedi eu disgrifio neu yn ychwanegol sy'n gweddu gyda gweithgareddau monitro a gwerthuso'r ASS.

# 5 Ymdrin â Phrofion Sgiliau Sylfaenol

## 5.1 Pwysigrwydd Profion

Yn ein arolwg cychwynnol o'r deunydd ymchwil sy'n gysylltiedig ag asesu ymyriadau sgiliau sylfaenol[53], amlygwyd pwysigrwydd cynnal profion cyson ac annibynnol ar allu sgiliau sylfaenol yr unigolyn mewn unrhyw asesiad o effeithiolrwydd cefnogeth sgiliau sylfaenol (mewn perthynas â gwella lefelau llythrennedd a rhifedd). Gwelwyd hefyd bwysigrwydd y fath gefnogaeth yn nhermau canlyniadau ehangach fel cymryd rhan yn y farchnad waith neu gwell iechyd a lles.

Wrth lunio ein dull o ymdrin, rydym felly wedi ystyried ystod o ddulliau o brofi sgiliau sylfaenol oedolion sy'n dysgu fel rhan o arolwg eang lletach.

Mae nifer o ddulliau profi yn bodoli y gellid eu haddasu o bosib i'w defnyddio yn ein asesiad. Mae rhain yn cynnwys:

- Y profion a ddefnyddiwyd gan BRMB yn yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol yng Nghymru yn 2003. Roedd hyn yn cynnwys prawf llythrennedd a rhifedd, pob un yn 20 – 25 munud o hyd gan ddefnyddio Cyfweliadau Personol gyda Chymorth Cyfrifiadur (gyda cyfweliad cefndirol o 20 munud). Dyfeisiwyd y profion gan Ganolfan Ddatblygu ac Asesu Addysg Gydol Oes (CDELL) ym Mhrifysgol Nottingham gan ddefnyddio profion ymaddasol – hynny yw, defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol i asesu gallu llythrennedd a rhifedd yr unigolion yn barhaus drwy gydol y prawf, er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw gwestiynau yn rhy hawdd neu yn rhy anodd iddynt.

- Y profion a ddefnyddiwyd gan y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Genedlaethol (NRDC) i fesur llythrennedd a rhifedd oedolion, ar gyfer eu hastudiaeth eang o sgiliau sylfaenol yng nghyd-destun y *British Cohort Survey* (BCS) 1970. Roedd hyn yn cynnwys holiadur yn seiliedig ar anhawsterau a nodwyd gan yr oedolion eu hunain; hynny yw, ymdrin â barn bersonol y sawl a holwyd ar eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Yn ogystal, rhoddwyd prawf (40 munud o hyd) ar lythrennedd a rhifedd (30 munud) a dyslecsia (10 munud), yn seiliedig ar amrywiaeth o gwestiynau cyffredinol a chwestiynau agored. Seiliwyd y profion llythrennedd a rhifedd i raddau ar y profion

[53] Gweler Atodiad 1

CDELL/BMRB, ond fe'u cwtogwyd i 22 munud ac yn rhannol i gynnwys cwestiynau agored a ddefnyddiwyd mewn profion graddfa lai ar aelodau o'r BCS. Roedd y prawf llythrennedd yn cynnwys "profion ymaddasol", ond wedi cynnal prawf peilot rhifedd, penderfynwyd y byddai un set o gwestiynau yn fwy priodol ar gyfer yr holl ymgeiswyr ar rifedd. Y bwriad oedd i'r profion gael eu gweinyddu drwy ddefnyddio technoleg Hunan Gyfweliad drwy gymorth Cyfrifiadur gyda'r ymgeisydd yn ateb y cwestiynau ar liniadur.

- Y prawf llythrennedd a rhifedd cyfunol a ddatblygwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, NIESR (gan weithio unwaith eto gyda CDELL), ar gyfer yr asesiad Sgiliau Bywyd yn Lloegr ar hyn o bryd. Prawf chwarter awr oedd hwn a roddwyd i fyfyrwyr sgiliau sylfaenol a hefyd i unigolion fel rhan o grŵp safonol, sef grŵp gyda sgiliau sylfaenol isel nad oeddynt yn rhan o ddysgu sgiliau sylfaenol.

Wrth ystyried y dewisiadau hyn, yn amlwg mae yma gyfaddawdu rhwng yr amser sydd ei angen ar bobl i gwblhau'r profion ac effeithiolrwydd y profion wrth fesur gwahaniaethau bychain mewn llythrennedd a rhifedd. (Mae'n cymryd 15 munud i gwblhau'r prawf NIESR, 30 munud – neu 22 munud gan gynnwys yr elfennau amlddewis yn unig - ar gyfer yr astudiaeth NRDC a thua 40 – 50 munud ar gyfer y profion BMRB).

Ar y cyfan, credwn – er bod manteision wrth ddefnyddio yr un profion a ddefnyddir gan BMRB ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol – mae'r profion hyn yn cymryd yn rhy hir i'w cwblhau, pan gyfunir hwy gyda sesiwn ychwanegol o gwestiynau sy'n ymwneud ag amgylchiadau personol a fydd yn hanfodol i astudio effaith yr ymyriadau ar amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd ehangach. I'r gwrthwyneb, ymddengys bod y prawf NIESR yn rhy fyr i allu mesur y newidiadau mwy cynnil mewn lefelau sgiliau sylfaenol, fel a nodwyd gan yr awduron wrth iddynt geisio egluro'r ffaith nad oedd gwelliant ystadegol sylweddol yn y lefelau sgiliau ar draws y sampl astudiaeth yn dilyn un flwyddyn o addysg sgiliau sylfaenol: *"Mae'n … bwysig sylweddoli bod y profion a ddatblygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon………yn rhai byrion a chyfyng. Y prif bwrpas oedd i weithredu fel dyfais sgrinio i sicrhau bod gan y rhai a oedd yn y grŵp safonol broblemau gyda llythrennedd a rhifedd (a chadarnhau yn yr un modd bod gan y rhai yn grŵp y myfyrwyr anghenion amlwg, nid diffyg cymwysterau yn unig). Roedd hi'n bwysicach felly eu bod yn dynodi y trothwy uchaf ar gyfer gallu llythrennedd a rhifedd yn hytrach na dynodi'n fanwl iawn y graddiadau o dan y trothwy".*

Rydym felly o'r farn y dylem gynnal profion annibynnol fel rhan o'r asesiad. Dylem fabwysiadu profion yr NRDC, ond defnyddio elfennau'r CDELL yn unig (22 munud), gan nad yw'r pwrpas o gynnwys y cwestiynau agored – i roi cymariaethau ag astudiaethau blaenorol y BCS – yn berthnasol i'n hymchwil ni. Credwn y byddai'n bosib cael caniatâd gan y DfES (sydd berchen yr hawlfraint deallusol ar y profion) a'r NRDC er mwyn addasu'r profion yn unol â'n gofynion ni.

Serch hynny, byddai cynnal profion ein hunain (hyd yn oed y rhai a fabwysiadwyd o waith yr NRDC) yn drwm iawn ar ein hadnoddau wrth ystyried yr holl gyllideb ar gyfer y gwerthusiad. Ymhellach, byddai'n rhaid rhoi ein sampl eang drwy nifer o brofion heb sôn am y sgrinio sydd i'w wneud mewn perthynas â'r gwaith dan sylw. Ym mhob un o'r achosion a drafodir uchod, dylid sylweddoli hefyd y bu profion annibynnol yn rhan hanfodol o'r astudiaeth gan iddynt ymwneud ag oedolion nad oeddent yn "fyfyrwyr" sgiliau sylfaenol (yn achos yr NRDC a'r Arolwg Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol, seiliwyd y samplau ar y boblogaeth gyfan, tra y bu rhan ganolog o gynllun astudiaeth NIESR yn defnyddio'r un profion gyda myfyrwyr sgiliau sylfaenol a'r grŵp safonol nad oeddynt yn ceisio gwella eu sgiliau sylfaenol).

Yn achos ein gwaith ymchwil ni, dim ond y rhai sy'n ymwneud â darpariaeth sgiliau sylfaenol y byddem yn eu profi. O ganlyniad, mae'n bwysig ystyried a oes yna ddull arall sy'n defnyddio profion sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio gan gyflenwyr dysgu. Er y gall hyn fod yn llai addas na'r sefyllfa ddelfrydol a argymhellir yn y *Literature Review of the Effects of Improvements in Adult Basic Skills*[54], mae awdur y cyhoeddiad hwn yn nodi *"bod astudiaeth graddfa fach ... gyda chyfranogwyr ar gwrs astudio sengl,* ***gan ddefnyddio profion a weinyddwyd gan eu man astudio*** *efallai, pe gellid cael caniatâd i ddefnyddio gwybodaeth o'r fath"*, yn ddull dilys ac ymarferol. (ychwanegwyd yr ysgrifen fras).

### 5.1 Sgrinio Presennol / Asesiad o Fyfyrwyr Hŷn – ASS / Deunyddiau Asesu Coleg Gorllewin Swydd Nottingham

Mae gofyn i'r holl ddarparwyr a gyllidwyd gan AADGOS i sgrinio / asesu dysgwyr ar ddechrau ac ar ddiwedd eu rhaglen ddysgu[55]. Cofnodir data asesu ar y system Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR), a'r meysydd perthnasol ar eu cyfer yw

- LP 34: Lefel Rhifedd a aseswyd ar ddechrau'r rhaglen

[54] McIntosh, Centre for Economic Performance, 2004
[55] Ac eithrio darpariaeth yn para llai na chyfanswm o 5 awr

- LP 35: Lefel Llythrennedd a aseswyd ar ddechrau'r rhaglen
- LP 37: Lefel Rhifedd a aseswyd ar ddiwedd y rhaglen
- LP 38: Lefel Llythrennedd a aseswyd ar ddiwedd y rhaglen

Yn ôl adroddiad diweddar Estyn ar Arolygu ac Asesu Sgiliau Sylfaenol[56], mae'r mwyafrif o ddarparwyr Addysg Bellach yn defnyddio un o ddau fodel i asesu anghenion sgiliau sylfaenol:

- Deunydd Asesiad Cychwynnol ASS (ar-lein ac ar bapur)
- Asesiad Cychwynnol Coleg Gorllewin Swydd Nottingham (ar-lein ac ar bapur)

Ymysg y darparwyr dysgu seiliedig ar waith, roedd asesiadau yr ASS ar bapur yn fwy tebygol o gael eu defnyddio.

O gofio bod y profion hyn eisoes yn cael eu cynnal ar yr holl fyfyrwyr Ôl-16 a gyllidir, mae ymgorffori'r canlyniadau o sampl o ddysgwyr yn ein arolwg eang yn rhywbeth apelgar. O ganlyniad, byddai model arolwg yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Asesiad cychwynnol presennol gan y darparwr ar ddechrau'r rhaglen ddysgu, wedi'i gefnogi gan gwestiynau ychwanegol yn ymwneud ag agweddau ac amgylchiadau personol (arolwg o tua 20 munud)
- Asesiad y darparwr presennol ar ddiwedd y rhaglen ddysgu, unwaith eto wedi'i gefnogi gan gwestiynau ychwanegol yn ymwneud ag agweddau ac amgylchiadau personol (arolwg o tua 20 munud)
- Asesiad ychwanegol a holiadur gyda myfyrwyr y cadwyd mewn cysylltiad â hwy flwyddyn ar ôl diwedd y cyfnod dysgu, wedi'i weinyddu'n fewnol gan y tîm gwaith maes. (20 munud a chyfnod asesu o 40 / 70 munud yn ddibynnol ar y prawf a ddefnyddir).

Amlygodd adroddiad Estyn elfen o anghysondeb rhwng y ddau fodel profi, gyda model yr ASS yn fwy tebygol o ddangos diffygion sgiliau sylfaenol na phrofion Gorllewin Nottingham. Felly, pe byddai profion presennol yn cael eu defnyddio fel rhan o'r arolwg eang o addysg oedolion, byddem angen dewis y prawf mwyaf priodol a chanfod darparwyr sy'n defnyddio'r dull hwn o asesu, ac felly llwyddo i gymharu'r gwahanol gyflenwyr a'r lleoliadau.

[56] Darpariaeth Sgiliau Sylfaenol Ôl-16: Asesiad cychwynnol o Sgiliau Sylfaenol, systemau cefnogi ac arolygu, Estyn. Medi 2006

Lle nad oedd hi'n bosib canfod cyflenwyr mewn lleoliadau neilltuol ac yn defnyddio'r dull profi dewisiedig, byddai cyfle o bosib i beilota'r prawf a ddewiswyd ar sampl o fyfyrwyr, yn ddibynnol ar gydweithrediad y cyflenwr a'r myfyriwr.

Manteision dull o'r fath fyddai:

- Llai o faich ar fyfyrwyr o safbwynt y nifer o asesiadau a gynhaliwyd
- Arbed arian, gan felly rhyddhau adnoddau i ymestyn y sampl neu ymchwilio elfennau eraill o waith
- Cymaroldeb gyda set ddata LLWR

Gall anfanteision / peryglon godi wrth sicrhau cydweithrediad cyflenwyr a sicrhau cysondeb canlyniadau ynghyd â'r mater o gynnal profion ar y rhai hynny nad ydynt yn rhan o'r asesiad ar hyn o bryd.

### 5.2 Crynodeb

Wedi ystyried pob dewis, rydym o'r farn mai defnyddio'r asesiad presennol yw'r dull mwyaf priodol ar gyfer ymwneud â'r arolwg eang o oedolion.

## 6 Defnydd o Ardaloedd Astudiaethau Achos

Bwriadwn ddefnyddio yr Ardaloedd Astudiaethau Achos sydd wedi'u seilio o amgylch yr Awdurdodau Unedol ar gyfer elfennau unigol o'r gwerthusiad, er mwyn darparu darlun llawnach o'r gweithgareddau mewn nifer o ardaloedd yn hytrach na golwg mwy gwasgaredig o weithgaredd ledled Cymru. Yn amlwg, ar gyfer rhai agweddau o'r cyflenwi efallai na fydd hyn yn ymarferol; er enghraifft yn achos cefnogaeth i droseddwyr mewn sefydliadau, gan nad oes carchardai yng Ngogledd Cymru neu'n wir yn y mwyafrif o ardaloedd yr Awdurdodau Unedol.

Mae 12 isod yn dangos model segmentiad posibl, fydd yn ein galluogi i ddewis ardaloedd astudiaethau achos gyda chynrychiolaeth resymol o ddaearyddiaeth, proffil economaidd gymdeithasol, a lefel o weithgaredd Sgiliau Sylfaenol. O hyn awgrymwn y dylai cyfanswm o chwe ardal gael eu dewis er mwyn darparu trosolwg o weithgaredd ledled Cymru. Mae rhai o'r awgrymiadau cychwynnol wedi cael eu hyfhau yn y tabl isod er mwyn trafod gyda'r Grŵp Llywio yn gynnar yn Nghyfnod 2.

**Tabl 12 Segmentiad Posibl ar gyfer Ardaloedd Astudiaethau Achos Daearyddol**

| | **Canolbarth Cymru** | **Gogledd Cymru** | **De Ddwyrain Cymru** | **De Orllewin Cymru** |
|---|---|---|---|---|
| Dinesig | | Wrecsam | Caerdydd<br>Casnewydd | **Abertawe** |
| Y Cymoedd | | | Blaenau Gwent<br>Caerffili<br>Merthyr Tudful<br>Rhondda Cynon Taf<br>**Torfaen** | Castell Nedd Port Talbot |
| Gwledig yn siarad Cymraeg yn bennaf | Ceredigion<br>**Gwynedd (Meirionnydd)** | Conwy<br>**Gwynedd (ag eithrio Meirionnydd)**<br>Ynys Môn | | **Sir Gaerfyrddin** |
| Gwledig yn siarad Saesneg yn bennaf | Powys | Sir Ddinbych | Sir Fynwy | Sir Benfro |
| Cymysg Dinesig / Gwledig | | **Sir y Fflint** | Pen-y-bont ar Ogwr<br>**Bro Morgannwg** | |

**Dull Matrics**

O fewn yr asesiad, ein bwriad yn gyntaf yw ymgymryd â'r gwaith ymarferol drwy ddefnyddio Prosiectau Cymorth Cenedlaethol (NSP), (gan gynnwys y rhai a weinyddir gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, ASS) a'r grwpiau blaenoriaeth perthnasol[57], gan groesgyfeirio lle bo'n briodol, yn erbyn yr ardaloedd astudiaethau achos a ddiffinnir uchod.

**Tabl 13 Dyraniadau Presennol y Prosiectau Cymorth Cenedlaethol (NSP)**

| Prosiectau Cymorth Cenedlaethol (NSP) | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| Blynyddoedd Cynnar | ASS |
| Pobl Ifanc | Ecotec |
| Troseddwyr / Cyn droseddwyr | Tribal |
| Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaol | Prifysgol Cymru, Casnewydd |
| Sgiliau Sylfaenol Cymraeg | Coleg Meirion Dwyfor |
| ESOL / EAL | Coleg Menai |
| Grwpiau dan fygythiad Eithrio Cymdeithasol | CGS Sir Y Fflint |
| Gweithlu – Addewid y Cyflogwr | ASS |
| Llythrennedd Cyllidol | ASS |
| Prosiect Sgiliau Sylfaenol Ewropeaidd a arweinir gan y Sector | ASS |

*Noder dau NSP ychwanegol – nid yw Oedolion sy'n Dysgu a Cheiswyr Gwaith wedi eu dyrannu eto.*

Bydd angen i ni Gyfarfod â'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn fuan yn yr asesiad, i weld sut mae'r gwaith yn dod yn ei flaen ac i osod y gweithgareddau a'r cyfrifoldebau oll gyferbyn â strwythur y Prosiectau Cymorth Cenedlaethol (NSP). O'r trafodaethau hyn, byddwn yn gallu cytuno ar restr o gyfrifoldebau ar gyfer y gwaith.

Yna, fe apwyntir yr ymgynghorwyr sy'n arwain ar gyfer pob un o'r NSP ac unrhyw weithgareddau nad ydynt o fewn maes yr NSP presennol. Byddwn hefyd yn neilltuo prif gyfrifoldebau i bob un o'r Ardaloedd Astudiaethau Achos, er mwyn sicrhau dull matrics i'r ymchwil. Drwy hyn, byddwn yn gallu adrodd ar ddatblygiad y strategaeth drwy NSP / grŵp blaenoriaeth, ond hefyd gwneud sylw ar y pethau ychwanegol a gyflawnir wrth ddatblygu cysylltiadau lleol yn yr ardaloedd astudiaethau achos.

[57] Blynyddoedd Cynnar, Cynradd, Uwchradd, Ôl-16, Traws gyfnod

# 7 Ymdrin â'r Gwaith Ymarferol

## 7.1 Cyflwyniad

Mae'r darn hwn o'r adroddiad yn disgrifio'n fanylach y dull o ymdrin â'r gwaith maes a fabwysiadir dros gyfnod y gwerthuso. Er y bydd cynnwys gwybodaeth y gwaith maes yn cael ei fwydo'n gyson gan y Fframwaith Gwerthuso, mae angen diffinio'r ffordd y bydd y data, yn fesurol ac yn ansoddol, yn cael ei gasglu.

Mae Ffigur 8 yn cyflwyno trosolwg cychwynnol o'r ffordd y gellid mynd ati i asesu'r gwaith maes, gan ystyried yr uchod. Yn ei hanfod, dengys y diagram y gall y dull o ymdrin â'r gwaith maes gynnwys pedair lefel o fewn dau werthusiad sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd. Maent yn gysylltiedig yn ôl eu trefn â gweithgareddau'r Cynllun Cyflenwi – yn bennaf datblygiad yr isadeiledd dysgu, ac Amcanion y Strategaeth – yn bennaf cyflenwi'r dull o ddarparu addysg a'i effaith yn sgil hynny. Gellir disgrifio'r rhain yn hytrach fel a ganlyn :

- Asesiad o'r hyn "sy'n gweithio, i bwy ac o dan ba amgylchiadau"
- Asesiad o effaith y Strategaeth ar les economaidd a chymdeithasol y myfyrwyr, ac, yn sgil hyn, ar economi Cymru gyfan.

Yn bennaf, ansoddol fydd natur y pwynt cyntaf uchod, er bydd yr ail bwynt angen dull mesurol yn bennaf, ac o fewn hyn y gweithgaredd allweddol fydd arolwg eang o addysg oedolion, wedi'i gysylltu â phrofion sgiliau sylfaenol.

Bydd ychydig o orgyffwrdd yn y dull ymchwil rhwng y ddwy elfen o'r gwerthuso. Bydd angen i'r asesiad ansoddol lwyddo i leisio barn y myfyrwyr, er mwyn darganfod pa elfennau o'r strategaeth fu'n llwyddiannus o safbwynt eu heffaith ar brofiadau'r myfyrwyr. Ar yr un pryd, bydd angen i ni astudio'r canlyniadau ar fuddiolwyr yn fesurol o fewn sgôp y cynllun cyflenwi – er enghraifft, y cyfran o athrawon sy'n ymgorffori arfer gorau mewn gweithgareddau dysgu cyffredinol o ganlyniad i hyfforddiant sgiliau sylfaenol.


Mae'r dull yn mabwysiadu dilyniant rhesymegol o'r strategol i'r gweithredol, gan ystyried y "gadwyn gyflenwi" o randdeiliaid :

- Llywodraeth Cynulliad Cymru fel corff comisiynu
- Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol fel asiantaeth a gontractiwyd i gyflenwi
- Partneriaid Cyflenwi (Awdurdodau Addysg Lleol ac Isgontractwyr yn gyfrifol am rai o'r NSP)
- Darparwyr Dysgu / Athrawon

- Myfyrwyr a buddiolwyr eraill y bwriadwyd iddynt elwa o'r Strategaeth
- Ymhlyg yn hyn, yr economi Gymreig yn ei chyfanrwydd, sy'n elwa o unrhyw gynnydd ym mherfformiad economaidd o ganlyniad i ymyrraeth lwyddiannus sgiliau sylfaenol

Disgrifir y rhaglen o weithgareddau isod, drwy weithgaredd a llinell amser.

**Ffigur 8 Model Cysyniadol Fframwaith Gwerthuso**



## 8 Rhaglen Waith 2006-07

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn disgrifio gweithgareddau fydd yn cael eu cynnal rhwng Rhagfyr 2006 ac Ebrill 2007.

### 8.1 Gwaith Paratoi

Cyn cychwyn yr adolygiad ehangach a'r rhaglen gwaith maes, byddwn yn galw tri phwyllgor allweddol:

- Cyfarfod cychwynnol â'r Grŵp Llywio Gwerthusiad
- Cyfarfod mewnol ar gyfer y Tîm Cam 2
- Gweithdy diwrnod cyfan â Staff Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a chontractwyr NSP

#### Cyfarfod Cychwynnol (5 Diwrnod)

Byddwn yn disgwyl cyfarfod â'r grŵp Llywio cyn gynted ag y bo modd yn dilyn cytundeb ar yr Adroddiad Cam 1 hwn, gan gymryd bod Cam 2 yn cael ei gomisynnu. Bydd pynciau a drafodir yn y cyfarfod hwn yn cynnwys:

- Cadarnhau yr ymdriniaeth werthuso, cyllidebau drafft ac amserlenni
- Unrhyw fater cyd-destunol sy'n codi gyda goblygiadau ar gyfer cynnal y gwerthusiad
- Cysylltiadau rhanddeiliaid ar gyfer y Gwerthusiad Strategol
- Cytundeb ar fonitro'r prosiect a threfniadau adrodd yn ôl
- Cytundebu

Yn dilyn y cyfarfod hwn, byddwn yn cyflwyno adroddiad cychwynnol llawn, yn rhoi manylion am yr uchod.

#### Cyfarfod Tîm Mewnol (5 Diwrnod)

Fel gyda Cam1, byddwn yn dechrau ein proses gyda chyfarfod mewnol o'r tîm i drafod ein ymdriniaeth ac i adnabod materion i'w trafod gyda Grŵp Llywio'r prosiect. Teimlwn fod hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod yr holl dîm Cam 2 mewn safle i ddechrau'n syth o ran lansio'r broses werthuso.

Yn ystod y cyfarfod hwn byddwn hefyd yn cadarnhau swyddogaethau oddi mewn i'r tîm, yn enwedig neilltuo'r prif gyfrifoldebau ar gyfer Grwpiau Blaenoriaeth / NSP ac ardaloedd astudiaethau achos.

Yn y cyfnod hwn byddwn hefyd yn paratoi ar gyfer lansio Gwefan y Prosiect; mae parth y wefan wedi ei fwcio ar www.basicskillsevaluation.co.uk. Bydd y wefan yn darparu cwndid ar

gyfer disgrifio'r gwerthuso i gynulleidfa ehangach a bydd yn ffurfio ystorfa i'r ddogfennaeth berthnasol wrth i'r broses esblygu. Bydd cyfle hefyd ar gyfer trafodaethau a dadleuon ar y we, a gobeithir y bydd hyn yn tyfu i roi adnodd ar-lein i ategu'r deunydd sy'n bodoli'n barod ar wefan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol.

**Gweithdy gyda Staff ASS a Chontractwyr NSP (6 Diwrnod)**

Yn dilyn y Cyfarfod Cychwynnol byddwn yn trefnu diwrnod llawn o weithdy rhagarweiniol gyda'r ASS a chontractwyr NSP. Bydd hyn yn ein galluogi ni i gyflwyno'r tîm gwerthuso a darparu cyfle i'r ymgynghorwyr sy'n arwain pob llinyn cyflenwi i gysylltu â'r swyddogion priodol oddi mewn i'r asiantaethau perthnasol.

Bydd papurau ar gyfer y gweithdai yn cael eu dosbarthu o flaen llaw, er mwyn sicrhau bod swyddogion y ASS a'r asiantaethau partner â digon o gyfle i adolygu y methodoleg arfaethedig ac i baratoi unrhyw sylwadau neu bwyntiau ar gyfer trafod ar y diwrnod. Bydd y gweithdy wedyn yn ein galluogi i drafod yn llawn ein dull o werthuso gyda'r mynychwyr, i sefydlu perchnogaeth y broses ac i fynd i'r afael ag unrhyw fater sy'n codi.

Rydym wedi cynnal y "sesiynau torri iâ" yma ar gytundebau blaenorol ac wedi eu cael yn hynod werthfawr o ran dechrau'r prosiectau yn gyflym ac yn effeithiol.

Bydd deilliannau y sesiynau gweithdai hyn yn cael eu rhoi ar y wefan werthuso, er mwyn galluogi cyfranogwyr i'w hadolygu ac i gynnig sylwadau.

## 8.2 Lefel 1: Gwerthusiad Strategol

Bydd yr elfen hon o'r gwaith yn ceisio gosod y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol yn ei gyd-destun polisi ac yn asesu i ba raddau y mae wedi'i gysylltu gyda, neu'n cael dylanwad ar ymyriadau eraill. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys dau brif weithgaredd:

- Adolygiad Polisi
- Cyfweliadau Ansoddol â Rhanddeiliaid

**Adolygu Polisi (15 Diwrnod)**

Byddwn yn ymgymryd ag adolygiad polisi trylwyr er mwyn canfod faint o integreiddio a chydlynu sy'n bodoli rhwng Sgiliau Sylfaenol ac ymyriadau allweddol eraill yng Nghymru, yn benodol:

- Yr asesiad o ASS yn "cyd-fynd" â pholisïau ehangach LICC

- Asesiad o’r amlygrwydd a roir i agenda sgiliau sylfaenol mewn dogfennau eraill LICC, megis y Cytundebau Sector Sgiliau a chyfarwyddyd CCET
- I ba radd y mae Sgiliau Sylfaenol wedi’u mewnosod mewn ymyriadau eraill fel thema trawsbynciol
- Pwysigrwydd a chyfraniad y strategaeth Sgiliau Sylfaenol tuag at gyflawni amcanion polisi cysylltiedig

Bydd angen i’r adolygiad ymdrin â’r holl ddogfennau polisi pwysig yng Nghymru a allai fod yn berthnasol i’r Strategaeth. Bydd rhain yn cynnwys, fel lleiafswm:

- Geiriau’n Galw, Rhifau’n Cyfrif – Ail Strategaeth Sgiliau Sylfaenol ar gyfer Cymru
- Y Cynllun Cyflenwi Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol 2006-07
- Y Wlad sy'n Dysgu 2
- Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2
- Cymru: Economi yn Ffynnu (WAVE)
- Pobl, Lleoedd, Dyfodol - Cynllun Gofodol Cymru
- Cynlluniau Strategol AADGOS, yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau (DEIN), ac Estyn
- Y Cynllun Gweithredu Rhianta
- Strategaethau Llythrennedd a Rhifedd mewn Ysgolion Cynradd
- Cymru: Gwlad Well[58]
- Ymestyn Hawliau
- Dogfennau canllaw LICC wedi’u dosbarthu i ysgolion a dysgu ôl-16
- Cytundebau Sgiliau Sector wedi’u dyrannu gan LICC
- Trefniadau pwysoli System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol (NPFS) AADGOS
- Canllaw CCET
- Argymhellion Blynyddol CCET

Dosberthir canlyniadau’r adolygiad ymysg y Grŵp Llywio Gwerthusiad er mwyn derbyn sylwadau ac fe’i cyhoeddir fel adroddiad ar ei ben ei hun ar wefan y prosiect.

**Cyfweliadau Ansoddol â Rhanddeiliaid (30 diwrnod)**

Cynhelir cyfres o gyfweliadau ansoddol â rhanddeiliaid allweddol yn gynnar er mwyn deall rhan strategol a chyfraniad y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol a chanfyddiad y rhanddeiliaid o reolaeth y strategaeth hyd yn hyn. Y prif ddangosyddion i’w harchwilio yma fydd:

[58] Neu unrhyw ddogfen olynol yn dilyn etholiadau’r Cynulliad Cenedlaethol 2007.

- Archwilio i ba raddau y bu i fodolaeth y Strategaeth a gweithgareddau yr ASS beri gwell ymwybyddiaeth a thanysgrifiad i'r agenda sgiliau sylfaenol ymysg rhanddeiliaid allweddol
- Deall canfyddiadau ac effeithiolrwydd cyfraniad yr ASS i ddatblygu ymyriadau perthnasol yn ymwneud â sgiliau sylfaenol
- Chwilio am dystiolaeth o ddarganfyddiadau ymchwil a gwerthuso yr ASS yn siapio datblygiadau polisi newydd
- Ymchwil i ba raddau mae rhanddeiliaid yn trafod ac yn ystyried materion sgiliau sylfaenol wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau
- Ymchwilio canfyddiad rhanddeiliaid o lwyddiant neu i'r gwrthwyneb o brosiectau "Peilot" wedi'u cynllunio i ddenu pobl at hyfforddiant sgiliau sylfaenol, datblygu darpariaeth sgiliau sylfaenol amgen (gan adeiladu ar Gyrsiau Tridarn), ehangu ystod gosodiadau dysgu (gan gynnwys dysgu electronig a dysgu o bell) neu lwyddo i gyflawni dull mwy unedig o ganfod angen a monitro datblygiad.
- Deall i ba raddau y mae rhanddeiliaid yn teimlo bod ganddynt "afael" ar yr agenda Sgiliau Sylfaenol
- Holi i ba raddau y mae rhanddeiliaid yn archwilio'n rhagweithiol sut y dylai ystyriaethau sgiliau sylfaenol ddylanwadau ar bolisïau ac arferion
- Ymchwilio canfyddiadau effeithiolrwydd buddsoddiad amser yr ASS wrth greu a chynnal partneriaethau, ar lefelau Cymru gyfan, rhanbarthol, neu ardal astudiaeth achos.
- Ymchwilio canfyddiadau o effeithiolrwydd buddsoddiad amser yr ASS mewn cyfarfodydd ag adrannau LICC, o safbwynt LICC.
- Asesu ansawdd y berthynas rhwng ASS Cymru a'r ASS.
- Asesu ansawdd y berthynas rhwng ASS Cymru a'r adrannau LICC perthnasol.
- Asesu cywirdeb, perthnasedd ac amseroldeb o wybodaeth reoli a gyflwynwyd i'r Grŵp Gweithredu Strategaeth Sgiliau Sylfaenol

Rhagwelwn gynnal oddeutu 40 – 50 o gyfweliadau rhanddeiliaid, gan ddefnyddio cyfres o ganllawiau pwnc wedi'i haddasu ar ôl derbyn gwybodaeth gan y Fframwaith Gwerthuso. Bydd y cyfweleion yn debyg o gynnwys cynrychiolyddion o'r isod:

- Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru
- Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol
- LICC – Grŵp Plant ac Ysgolion
- LICC – Grŵp Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (gan gynnwys y Grŵp Cymwysterau a Chwricwlwm)

- LICC – Grŵp Addysg Uwch
- Canolfan Byd Gwaith
- Carchar / Gwasanaeth Prawf / NOMS[59]
- Estyn
- Detholiad o ‘r Cyngor Sector Sgiliau
- TUC Cymru
- Cyngor Llyfrau Cymru
- BBC / S4C
- Learndirect / UfI
- Cynrychiolyddion yr Awdurdod Lleol mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos
- Dewis o ddarparwyr addysgu mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos
- Cynrychiolyddion Cymdeithasau Mudiadau Gwirfoddol mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos
- Dewis o gydlynwyr rhwydwaith 14-19
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)
- Fforwm
- Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Genesis
- Cynrychiolwyr Cymunedau yn Gyntaf
- Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector (SSDA)

Dadansoddir y canlyniadau drwy ddefnyddio meddalwedd “*Mind Manager*” i olrhain materion ar draws llinynnau cyflenwi a grwpiau buddiolwyr ac i adnabod themau cylchol.

Cynhelir y cyfweliadau ansoddol wyneb yn wyneb gan uwch aelodau o’r tîm gwerthuso. Byddant wedi’u lled strwythuro o ran cynnwys, wedi’u seilio ar ganllawiau pwnc a fydd yn cael eu cytuno o flaen llaw gyda’r Grŵp Llywio Gwerthusiad.

Bydd Adroddiad Gwerthusiad Strategol yn cael ei grynhoi o’r elfen hon o’r ymchwil, fydd yn rhoi gwybodaeth am weddill y gwerthusiad. Bydd hefyd yn darparu arwyddion i’r tîm er mwyn cynorthwyo’r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i fireinio darpariaeth ar gyfer gweddill eu cyfnod cyflenwi’r contract.

[59] Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (National Offender Management Service)

## 8.3 Lefel 2: Gwerthuso'r Rheolaeth Cyflenwi

Yn y rhan hon, fe ymgymerwn â gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at ddarparu asesiad cychwynnol o ansawdd ac effeithiolrwydd trefniadau rheolaeth rhaglen a gyflawnwyd gan ASS wrth gyflenwi'r Strategaeth.

Bydd yr elfen hon o'r gwaith yn cynnwys dau weithgaredd allweddol:

- Cyfweliadau ansoddol gyda staff ASS a chontractwyr cyflenwi / derbynyddion grant
- Adolygu dogfennaeth strategaeth a Systemau Gwybodaeth Reoli

**Cyfweliadau ansoddol gyda staff ASS a Chontractwyr Cyflenwi / Derbynyddion Grant (26 Diwrnod)**

Oddi fewn i'r elfen hon o'r gwaith, bydd yr ymgynghorwyr sy'n arwain yn cysylltu gyda swyddogion ASS / NSP / AALI[60] perthnasol:

- i gynnal cyfweliadau ansoddol cychwynnol
- i sicrhau dogfennaeth rhaglen berthnasol
- i sicrhau manylion cyswllt y buddiolwr ar gyfer cyfweliadau dilynol.

Bydd y testunau i'w trafod mewn cyfweliad yn cynnwys, fel lleiafswm:

- amgyffred swyddogion ASS eu hunain o effeithiolrwydd yr Asiantaeth wrth gyflenwi'r Strategaeth
- amgyffred staff NSP / AALI o effeithiolrwydd yr Asiantaeth wrth gyflenwi'r Strategaeth
- Asesiad o'r prosesau ynghlwm wrth lansio ac mewn ymyriadau arloesol.
- Barn ASS a staff y contractwyr cyflenwi ar y protocol o gynhyrchu gwybodaeth rheoli cyson ac i ba raddau y dylai pwrpas, natur ac amseru'r wybodaeth i'w gynhyrchu fod yn cael eu cyflwyno.
- Asesiad y cyfwelai o ansawdd a defnyddioldeb yr wybodaeth reoli a gynhyrchwyd – a yw'n gywir, perthnasol ac amserol?
- Asesiad o'r prosesau a ddefnyddiwyd i gomisiynu a rheoli adolygiadau gwerthuso i fesur llwyddiant marchnata a gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus.
- Canfyddiad o effeithiolrwydd cydweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid, ar lefel Cymru gyfan, ar lefel rhanbarthol ac ar lefel ardal astudiaeth achos.
- Asesiad o adolygiadau o fodlonrwydd derbynnydd gwasanaeth NSP – prosesau rhychwantu a dylunio, adolygiadau comisiynu a rheoli.

[60] Disgwyliem ganolbwyntio ar yr AALl oddi mewn i ardaloedd astudiaethau achos

Dadansoddir y canlyniadau unwaith yn rhagor drwy ddefnyddio meddalwedd "*Mind Manager*" i fapio materion ar draws llinynnau cyflenwi a grwpiau buddiolwyr ac i adnabod themâu sy'n cael eu hailadrodd.

Cynhelir y cyfweliadau ansoddol wyneb yn wyneb ag uwch aelodau'r tîm gwerthuso. Bydd eu cynnwys yn lled strwythuredig, wedi'u selio ar ganllawiau pwnc i'w cytuno ymlaen llaw gyda'r Grŵp Llywio Gwerthusiad.

**Strategaeth Dogfennaeth ac Adolygiad System Gwybodaeth Reoli (MIS) (11 Diwrnod)**

Bydd yr elfen hon yn caniatáu i'r ymgynghorwyr sy'n arwain bob NSP / Grŵp Blaenoriaeth:

- i gyfarwyddo â strwythurau cyflenwi ym mhriod faes eu diddordeb
- Adolygu'r System Gwybodaeth Reoli (MIS) yn fewnol a mecanweithiau gyflwyno adroddiadau ar gynydd (e.e. Adroddiadau Golau Traffig, adroddiadau archwiliad ASS).

Bydd yr wybodaeth hon yn rhoi i'r ymgynghorwyr sy'n arwain y cefndir angenrheidiol a'r cyd-destun angenrheidiol i gyflawni'r elfennau dilynol yn y broses werthuso. Bydd hefyd yn caniatáu i unigolion adnabod unrhyw fylchau yn y trefniadau monitro sy'n bodoli ar hyn o bryd, neu'n awgrymu addasiadau y gellid eu gwneud i gyfleu gwybodaeth mwy defnyddiol yn nhermau olrhain cynydd y cynllun cyflenwi yn erbyn amcanion y Strategaeth.

Bydd materion o diddordeb yn cynnwys ffactorau fel:

- Union natur y gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer pob NSP/Grŵp Blaenoriaeth yn ystod oes y gwerthusiad
- Y cydbwysedd rhwng y gweithgareddau a gynlluniwyd ac adnoddau
- Llwyddiannau hyd yma
- Strwythurau cyflenwi ac ymgynghoriad a pherthynas gyda grwpiau o "gleientiaid" (e.e. athrawon, darparwyr, asiantaethau statudol tebyg i Canolfan Byd Gwaith, Gwasanaeth Carchardai)
- Cyrraedd targedau gweinyddu, tebyg i amserau ymateb
- Cwblhau tasgau oddi fewn i raddfeydd amser
- Cwblhau tasgau oddi fewn i 10% o'r gyllideb
- Graddfa argaeledd y wefan
- Graddfa argaeledd systemau TG
- Sefydlu a gwerthuso Staff

- Cywirdeb a pherthnasedd adroddiadau rheoli
- Priodoldeb y datganiadau ariannol a gynhyrchwyd
- Faint o amser swyddog ASS a dreuliwyd mewn cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol ac adrannau LICC.
- Llwyddiant targedau sy'n ymwneud â chyllid, HR, TG a Gwasanaethau Cynnal cyffredinol

Crynhoir canlyniadau'r rhan hon o'r gwaith mewn adroddiad Effeithiolrwydd Rheolaeth, i'w adolygu gan y Grŵp Llywio Gwerthusiad.

### 8.4 Gwerthuso'r Effaith ar Fuddiolwyr y Strategaeth

**Asesu'r Gwrthffeithiol – Gwaith Cychwynnol (9 Diwrnod)**

Yn ystod cyfnod cychwynnol y gwaith, bydd Ysgol Fusnes Caerdydd yn mireinio'r dulliau a ddefnyddir i asesu gwrthffeithiol y buddiolwyr. O ystyried hyd y prosiect o'i ddechrau i'w ddiwedd disgwyliwn gadw golwg ar ddarganfyddiadau'r gwaith ymchwil mewn astudiaethau perthynol mewn mannau eraill yn y DU i wirio ac i weld y cyd-destun ar gyfer methodoleg y gwaith ymchwil a ddefnyddir yng Nghymru.

Byddai gwaith ymchwil yn ystod blwyddyn 1 hefyd yn cynnwys:

- Datblygu cyfres o ddangosyddion monitro (gweler Tabl 11, Adran 4) ar lefel yr Awdurdodau Unedol
- Datblygu dyddlyfr o ddigwyddiadau allweddol sy'n effeithio'r farchnad waith ar lefel yr Awdurdodau Unedol
- Adrodd ar faterion trosfwaog sy'n effeithio datblygiad yr achos gwrthffeithiol
- Defnyddio elfennau o'r data ac adolygiad y dyddlyfr i roi gwybodaeth sut i adeiladu offer ymchwil a'r strategaeth samplo'r buddiolwyr.

### 8.5 Trefniadau Adrodd, Monitro a Rheoli'r Prosiect

Drwy gydol y gwerthusiad, anfonir e-bost gyda'r wybodaeth ddiweddaraf bob pythefnos i Reolwr y Prosiect.

Cyflwynir Adroddiadau Gwerthuso i'r cleient yn ystod 2006/2007 fel a ganlyn:

- Adroddiad Cychwynnol
- Adroddiad Gweithdy ASS / NSP

Cynhelir cyfarfodydd y Grŵp Llywio fel bo'r angen, trwy drefniant.

# 9 Rhaglen Waith 2007-08

## 9.1 Gwerthuso'r Broses Gyflenwi / Datblygiad Isadeiledd

Yn ystod 2007/08, bydd gweithgareddau allweddol y cyfnod hwn yn cynnwys:

- Adolygiad trosfwaol o wybodaeth ystadegol llinell sylfaen a thystiolaeth arall sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth materion sgiliau sylfaenol a chymryd rhan mewn dysgu.
- Adolygiad pellach o ddata monitro a gwerthuso sy'n ymwneud â gweithgareddau penodol Prosiectau Cymorth Cenedlaethol (NSP) / Grŵp Blaenoriaeth – gan ddefnyddio ffynonellau o'r tu fewn a'r tu allan i'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflenwi.
- Cyfweliadau ansoddol gyda buddiolwyr y Cynllun Cyflenwi.

### Adolygiad o Wybodaeth Ystadegol Llinell Sylfaen a Thystiolaeth Arall (12 diwrnod)

Bydd yr adolygiad o'r data llinell sylfaen yn fodd i sefydlu man cychwyn y gwerthusiad, yn nhermau deall y treiddiad presennol i ymwybyddiaeth sgiliau sylfaenol ac hefyd ymrwymiad i ddysgu.

Bydd y ffynonellau yma'n cynnwys:

- Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol (NABS) (2004)
- Adroddiad Sgiliau Sylfaenol yn yr Iaith Gymraeg (Beaufort Research, 2004)
- Sgiliau Sylfaenol yn y Gweithle (ASS, 2001)
- Sgiliau Dyfodol Cymru (FSW): Arolwg Sgiliau Generig (2003)
- Arolwg Dysgu Oedolion NIACE (2005)
- Monitro ac Asesu Sgiliau Sylfaenol Estyn (2006)
- Archwiliad Canfyddiad Blynyddol ASS

Bydd materion o ddiddordeb yma'n cynnwys tystiolaeth:

- o raddfa'r pwysigrwydd a briodolir i sgiliau llythrennedd a rhifedd gan unigolion a chyflogwyr
- o'r bwlch rhwng amgyffred unigolion am bwysigrwydd llythrennedd a rhifedd ac amgyffred y cyflogwyr
- o asesiad y defnyddwyr a dargedwyd am ansawdd, perthnasedd a defnydd y deunyddiau ymarfer da

Dangosir y dangosyddion sampl eraill i'w cynnwys yn Nhabl 14 isod.

**Tabl 14 Enghreifftiau o Ystadegau Llinell Sylfaen**

| Ffynhonnell Data | Dangosydd |
|---|---|
| CYBLD | Cymwysterau a enillwyd fel tystiolaeth o blant yn gadael addysg gorfodol gyda sgiliau sylfaenol da. |
| Arolwg blynyddol o'r gweithlu | Canran o oedolion gyda chymwysterau sy'n dynodi adnabyddiaeth o sgiliau sylfaenol da. |
| Adroddiad Meincnod llythrennedd a rhifedd | Canran o oedolion oed gweithio sydd â sgiliau |

| | |
|---|---|
| Oedolion, 2001 / NABS, 2004 | llythrennedd a rhifedd Lefel 1 ac uwch cyn cyflwyno'r Strategaeth. |
| LLWR | Canran o'r cyfranogwyr mewn addysg sydd wedi'i noddi gan arian cyhoeddus sy'n ymgymryd ag asesiad sgiliau sylfaenol.<br>Canran o'r cyfranogwyr mewn addysg wedi'i noddi gan arian cyhoeddus sy'n ymgymryd â hyfforddiant sgiliau sylfaenol. |

Bydd yr adolygiad yn cael ei ailadrodd tua diwedd y cyfnod gwerthuso, ar gyfer y ffynonellau sy'n gallu cynnig data newydd ac er mwyn ymgorffori unrhyw ffynhonnell newydd fydd ar gael yn ystod y cyfnod cyfamserol. Y disgwyliadau cyfredol yw y bydd Adolygiad NABS yn cael ei ailadrodd yn 2009. Efallai y bydd adolygiad Sgiliau Dyfodol Cymru (FSW) yn cael ei adolygu yn 2008, ond nid yw'n debygol y gwneir penderfyniad ar hyn cyn Ebrill 2007. Bydd Archwiliad Canfyddiad Blynyddol yr ASS yn cael ei ddiweddaru fel mae'r enw'n awgrymu yn flynyddol.

### 9.2 Lefel 3: Gwerthuso'r Broses Gyflenwi / Datblygiad Isadeiledd

Mae'r cam hwn o'r gwaith yn cynrychioli cyfran arwyddocaol o weithgaredd dros gyfnod y gwerthuso. Ei fwriad fydd delio â'r materion sy'n codi o gwmpas llwyddiant amcanion y cynllun cyflenwi, ansawdd y berthynas rhwng isgontractwyr ASS / NSP a buddiolwyr y cynllun cyflenwi (darparwyr, athrawon, cyflogwyr etc) a'r deilliannau a brofwyd gan fuddiolwyr y cynllun cyflenwi.

Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei gyflawni ar sail matrics, fel y disgrifiwyd yn Adran 6 o'r adroddiad hwn, gyda'r gwaith wedi'i ddyrannu i ymgynghorwyr sy'n arwain yn bennaf ar sail NSP/ Grŵp Blaenoriaeth, wedi'i groesgyfeirio i ardaloedd astudiaethau achos ble mae hynny'n briodol.

Bydd y gweithgareddau allweddol yn y cam hwn yn cynnwys:

- Adolygiad o ddata monitro a gwerthuso sy'n ymwneud â gweithgareddau penodol NSP / Grŵp Blaenoriaeth – gan ddefnyddio ffynonellau o'r tu fewn a'r tu allan i'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflenwi.
- Cyfweliadau ansoddol o fuddiolwyr y Cynllun Cyflenwi (Wedi'u cynllunio ar gyfer blynyddoedd dilynol)
- Arolygon ansoddol gyda buddiolwyr y Cynllun Cyflenwi (Wedi'u cynllunio ar gyfer blynyddoedd dilynol)

### Adolygiad o Ddata Monitro a Gwerthuso sy'n Ymwneud â Gweithgareddau Penodol NSP / Grŵp Blaenoriaeth (24 diwrnod)

Bydd yr adolygiad cyfredol o ddata sy'n benodol i'r NSP / Grŵp Blaenoriaeth yn darparu y llinell sylfaen ar gyfer llinynnau unigol o'r gwerthusiad, o ran deall treiddiad presennol ymwybyddiaeth sgiliau sylfaenol a chyfranogi mewn dysgu ar gyfer pob NSP / Grŵp Blaenoriaeth.

Bydd yr ymgynghorwyr sy'n arwain yn gyfrifol am weithio gyda ASS a phob NSP unigol i leoli ffynonellau'r data ac i gasglu dogfen sy'n crynhoi safle pob un o'r llinynnau. Bydd angen i ganlyniadau'r elfen hon o'r gwaith gael ei groesgyfeirio yn erbyn adroddiadau golau traffig ASS i ddarparu archwiliad cyffredinol o ansawdd monitro'r wybodaeth.

Mae'r tablau sy'n dilyn yn cyflwyno'r ffynonellau data sydd o ddiddordeb a rhai o'r cwestiynau allweddol sydd i'w hateb yn ystod y cyfnod hwn o'r gwaith.

**Blynyddoedd Cynnar**

| Ffynonellau Data | Dangosyddion / Cwestiynau Allweddol |
|---|---|
| Adroddiad AALl wedi'u cyflwyno i'r ASS | Perfformiad yn erbyn Targedau ChAl / ChAR<br>Perfformiad yn erbyn Targedau Rhaglenni Teulu |
| Adroddiadau monitro ASS | 10% o Raglenni ChAl wedi'u gwirio ar hap<br>10% o Raglenni Teulu wedi'u gwirio ar hap<br>10% o Fuddiolwyr NSP wedi'u gwirio ar hap |

**Ysgolion**

| Ffynonellau Data | Dangosyddion / Cwestiynau Allweddol |
|---|---|
| Arolwg ASS o SIG, Marc Safon Sylfaenol / Eilaidd a Grantiau Hyfforddi.<br>Archwiliad Amgyffred Blynyddol ASS | Canran o athrawon, hyfforddwyr a gweithwyr cynnal sy'n gwella ymarfer o ganlyniad i hyfforddiant wedi'i gyllido neu i weithgareddau lledaenu ymarfer da. Canran o ddisgyblion wedi'u targedu gan ymyriadau a cyllidwyd gan SIG gyda chyrhaeddiad amgenach mewn llythrennedd / rhifedd |
| Adroddiadau Estyn ar ddarparwyr mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | I ba raddau mae agenda sgiliau sylfaenol wedi'u hintegreiddio â darpariaeth ysgolion.<br><br>Ansawdd ymarfer dysgu ac asesu |
| Asesiadau Athrawon | Canran o blant gyda gwell sgiliau iaith, llythrennedd a/ neu rhifedd. |
| | |
| Adroddiadau AALl wedi'u cyflwyno i Gronfa Data Marc Safon yr ASS | Perfformiad yn erbyn targedau Marc Safon.<br>Ysgolion sy'n ennill a chadw Marc Safon.<br>Athrawon Uwchradd / LSA a chefnogwyr eraill yn Ardaloedd Astudiaethau Achos yn cwblhau modiwlau sgiliau sylfaenol.<br>Athrawon Uwchradd / LSA a chefnogwyr eraill mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos yn llwyddo / dal cymwysterau sgiliau sylfaenol. Nifer y staff |

| | |
|---|---|
| | sy'n cael hyfforddiant o ganlyniad i grantiau hyfforddi. |
| Adroddiadau gwaith maes staff ASS<br>Adroddiadau Golau Traffig i ASS<br>Adroddiadau o Seminarau Monitro Ansawdd yr ASS | Cysondeb ac ansawdd asesiad AALl o ysgolion |
| Astudiaeth o Ysgolion Monitro Ansawdd.<br>Adroddiadau o Seminarau Monitro Ansawdd yr ASS | Canran o ysgolion sy'n gwella eu darpariaeth o ganlyniad i ledaenu ymarfer da mewn perthynas â Marc Safon<br>Cyfran o athrawon sgiliau sylfaenol a'u cefnogwyr sy'n gymwysedig ar gyfer lefelau 2, 3 a 4. |
| Astudiaeth o Ysgolion Monitro Ansawdd.<br>Adroddiadau o Seminarau Monitro Ansawdd yr ASS | Canran o ysgolion sy'n gwella eu darpariaeth o ganlyniad i ledaenu ymarfer da mewn perthynas â SIG |
| Adroddiadau archwiliad gan dimau monitro. | Effeithiolrwydd Monitro Ansawdd ar hap<br>10% o Ysgolion Marc Safon wedi'u gwirio ar hap<br>10% o waith sydd wedi'i gyllido gan SIG wedi'i wirio ar hap.<br>10% o Fuddiolwyr NSP wedi'u gwirio ar hap |
| Gwerthusiad dal i fyny SIG<br>Adroddiadau AALl a gyflwynwyd i ASS | Y graddau mae amcanion, nodau a thargedau'r prosiectau a gyllidwyd wedi'u cyflawni. |
| Dogfennau canllaw LICC ar faterion i ysgolion | Y graddau mae sgiliau sylfaenol yn cael eu pwysleisio yng nghanllaw LICC i ysgolion |
| Adroddiadau swyddog Datblygu ASS | Canran o AALl sy'n derbyn cyfarwyddyd a chyngor |

**Ôl-16**

| Ffynonellau Data | Dangosyddion / Cwestiynau Allweddol |
|---|---|
| Adroddiad Estyn ar Systemau Asesiad Cychwynnol Sgiliau Sylfaenol, Cynnal a Monitro (2006) | Y graddau mae agenda sgiliau sylfaenol wedi'u hintegreiddio i'r ddarpariaeth ôl-16. |
| Adroddiadau Estyn ar ddarparwyr yn Ardaloedd Astudiaethau Achos<br>Adroddiadau Archwiliad Ardal Estyn | Canran hyfforddwyr a gweithwyr cynnal ôl-16 sy'n gwella ymarfer o ganlyniad i hyfforddiant wedi'i gyllido neu gweithgareddau lledaenu ymarfer da. |
| System AADGOS LLWR<br>Arolwg Monitro Marc Safon ASS | Canran y myfyrwyr sy'n dechrau hyfforddiant wedi'i gyllido gan arian cyhoeddus gyda sgiliau llythrennedd neu rhifedd dan lefel 1<br>Nifer y myfyrwyr ôl-16 sy'n dechrau hyfforddiant sgiliau sylfaenol. |
| Cronfa Ddata Marc Safon<br>Adroddiadau Golau Traffig i ASS | Darparwyr yn ennill a chadw Marc Safon. |
| Astudiaeth o Ddarparwyr Monitro Ansawdd<br>Adroddiadau o Seminarau Monitro Ansawdd yr ASS | Canran o ddarparwyr ôl-16 sy'n gwella'u darpariaeth o ganlyniad i ledaenu ymarfer da mewn perthynas â Marc Safon |
| Cronfa Ddata Addewid y Cyflogwr/ Adroddiadau Chwarterol | Nifer o gyflogwyr sy'n gwneud neu'n adnewyddu Addewid y Cyflogwr<br>Nifer o weithwyr cyflogedig sydd dan Addewid y Cyflogwr<br>% o gyflogwyr sy'n ymrwymo i Addewid y Cyflogwr sy'n:<br>• Asesu angen<br>• Gosod amcanion wedi'u cyfyngu gan amser<br>• Cyflwyno adnoddau i'w gweithredu |

| | |
|---|---|
| | Lefel y sylw a roir i faterion sgiliau sylfaenol mewn papurau cyfarfodydd grŵp allweddol o'r "Bartneriaeth".<br>Y graddau mae rhanddeiliaid yn trafod ac yn ystyried materion sgiliau sylfaenol wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau |
| Materion dogfennau canllaw LICC i ddarparwyr ôl-16 | Y graddau mae sgiliau sylfaenol yn cael eu pwysleisio yng nghanllaw LICC i ddarparwyr. |
| Trefniadau pwysoli y System Gynllunio a Chyllido Genedlaethol (NPFS) AADGOS | Faint mae dysgu mewn perthynas â sgiliau sylfaenol yn denu cyllid premiwm neu gyllid datblygu gan AADGOS |
| System SIR AADGOS | Llythrennedd Oedolion / rhifedd / tiwtoriaid ESOL yn ennill / dal cymwysterau priodol |
| Adroddiadau Swyddog Datblygu ASS | Canran o ddarparwyr dysgu sy'n derbyn cyfarwyddyd a chyngor |
| Adroddiadau Monitro ASS | 10% o fuddiolwyr NSP wedi'u gwirio ar hap |
| Cronfa Ddata Addewid y Cyflogwr | Niferoedd o bobl a gyflogwyd gan y cwmnïoedd sydd wedi ymrwymo i Addewid y Cyflogwr<br>Niferoedd y gweithwyr mewn busnesion a ymrwymodd i Addewid y Cyflogwr sy'n derbyn cefnogaeth |

**Traws Gyfnod / Aml Gyfnod**

| Ffynonellau Data | Dangosyddion / Cwestiynau Allweddol |
|---|---|
| Gwerthuso Ymgyrch Rhifedd | Faint o amser ar yr awyr a gafwyd gan y cyfryngau yn ystod yr ymgyrch?<br>Beth oedd niferoedd y gwylwyr ar gyfer yr ymgyrch?<br>Faint o fodfeddi colofn o sylw y llwyddwyd i'w gael yn y wasg? |
| Gwerthuso Ymgyrch Llythrennedd | Faint o amser ar yr awyr a gafwyd gan y cyfryngau yn ystod yr ymgyrch?<br>Beth oedd niferoedd y gwylwyr ar gyfer yr ymgyrch?<br>Faint o fodfeddi colofn o sylw y llwyddwyd i'w gael yn y wasg?<br>Nifer a chyfran o lyfrgelloedd/ ysgolion yn dangos deunyddiau'r ymgyrch "Darllenwch filiwn o eiriau" |
| Adolygiad o wefan ASS<br>Adolygiad o wefan y Strategaeth | Lefel deunyddiau arfer da sy'n gyraeddadwy drwy wefan ASS Cymru.<br>I ba raddau mae adroddiadau ymchwil a gwerthuso ar gael yn gyhoeddus drwy wefan y Strategaeth |
| Adolygiad o System Reoli Gwybodaeth | I ba raddau y gwneir adroddiadau ymchwil a gwerthuso'n gyraeddadwy i randdeiliaid drwy System Rheoli Gwybodaeth (KMS) |
| Arolwg o Gyfathrebu ASS wedi'i anelu at godi ymwybyddiaeth o ganlyniadau ymchwil a gwerthuso. | I ba raddau mae canlyniadau ymchwil a gwerthuso'n cael eu hyrwyddo'n ragweithiol i'r rhanddeiliaid priodol |
| Manylebau prosiect ar gyfer Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus | Asesiad o resymeg a dyluniad Ymgyrchoedd marchnata / Cysylltiadau Cyhoeddus, hysbysebion papurau newydd a phecynnau hyrwyddo, yn nhermau codi ymwybyddiaeth grwpiau targed, cyflogwyr, darparwyr ac ymwybyddiaeth mwy cyffredinol o bwysigrwydd |

| | |
|---|---|
| | sgiliau sylfaenol. |
| Manylebau'r prosiect ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo i LPF | I ba raddau mae cynllun grant yn tynnu grwpiau a sefydliadau at ei gilydd i hyrwyddo dysgu sgiliau sylfaenol ar y cyd.<br>I ba raddau mae cynllun grant yn hyrwyddo prosiectau sy'n canolbwyntio ar ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf |
| Gwerthuso mewnol / gwerthuso allanol ASS Cymru | Asesiad o arolwg cwmpasu a phrosesau dylunio<br>Asesiad o reoli comisiynu arolygon<br>Asesiad o ledaenu canfyddiadau gwerthuso |
| Arolygon NSP o fodlonrwydd y derbynnydd | Asesiad o arolwg cwmpasu a phrosesau dylunio<br>Asesiad o gomisiynu a rheoli arolygon |

**Ardaloedd Astudiaethau Achos**

| Ffynonellau Data | Dangosyddion / Cwestiynau Allweddol |
|---|---|
| Cynigion prosiect peilot | Effeithiolrwydd prosiectau peilot mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos |
| Papurau grŵp partneriaeth, gan gynnwys CCET, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, CGS | Lefel y sylw a roir i faterion sgiliau sylfaenol ym mhapurau cyfarfodydd grŵp "Partneriaeth" allweddol.<br>I ba raddau mae rhanddeiliaid yn trafod ac yn ystyried materion sgiliau sylfaenol wrth gynllunio a chyflenwi'r gwasanaethau. |

**Adolygiad o Ddata Monitro a Gwerthuso sy'n Ymwneud â Gweithgareddau Penodol NSP / Grŵp Blaenoriaeth (24 diwrnod)**

Bydd yr adolygiad sydd ar y gweill o ddata sy'n benodol i'r NSP / Grŵp Blaenoriaeth yn darparu cyfeirbwynt di-dor ar gyfer llinynnau unigol o'r gwerthusiad, o ran deall treiddiad presennol i ymwybyddiaeth sgiliau sylfaenol a chyfraniad i ddysgu ar gyfer pob NSP / Grŵp Blaenoriaeth. Bydd hefyd yn caniatau i'r ymgynghorwyr sy'n arwain i ddeall mannau cyflenwi ble bu anhawsterau, neu ble bu ymyriadau yn arbennig o lwyddiannus.

**Cyfweliadau Ansoddol gyda Buddiolwyr y Cynllun Cyflenwi (107 Diwrnod)**

Bydd y rhaglen gyfweliadau ansoddol yn darparu i ymgynghorwyr sy'n arwain asesiad llinell sylfaen gynhwysfawr o gryfderau a gwendidau datblygiad isadeiledd Sgiliau Sylfaenol a'r gefnogaeth iddynt. Cynhelir cyfweliadau cyn gynted ag y bydd yn ymarferol yn y broses werthuso, gan ddechrau yng Ngwanwyn 2007. Ein bwriad yw ailedrych ar y broses tuag at ddiwedd y broses werthuso, yn 2009/10.

Cynhelir cyfweliadau wyneb yn wyneb gan aelodau neilltuedig o'r tîm gwerthuso a byddant yn lled strwythurol yn eu cynnwys, yn seiliedig ar ganllawiau pwnc i'w cytuno ymlaen llaw gyda Grŵp Llywio'r Gwerthusiad.

Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi eto gan ddefnyddio meddalwedd "*Mind Manager*" i fapio materion ar draws llinynnau cyflenwi a grwpiau o fuddiolwyr ac i adnabod themâu cyson.

**Blynyddoedd Cynnar**

| Cyfweleion | Dangosyddion / Cwestiynau Allweddol |
|---|---|
| Sampl o ddarparwyr ChAI/ChAR mewn ardaloedd astudiaethau achos | Canfyddiad ymarferwyr o'u gwybodaeth o raglenni ChAI/ChAR |

**Ysgolion**

| Cyfweleion | Dangosyddion / Cwestiynau Allweddol |
|---|---|
| AALI mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Asesiad o werth y gefnogaeth hyfforddi a/neu ddeunyddiau hyfforddi a dderbyniwyd gan yr ASS:<br>Asesiad o'r:<br>• Broses gwneud cais<br>• Broses hawlio<br>• Broses taliadau |
| AALI / Ysgolion yn methu â chyrraedd targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos[61] | Asesiad o ansawdd y cyngor a'r gefnogaeth a dderbyniwyd |
| Ysgolion mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Asesiad o ansawdd y cyngor a'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan ddarparwyr drwy ymweliadau ac asesiadau'n ymwneud â Rheoli Ansawdd (QM) |

**Ôl-16**

| Cyfweleion | Dangosyddion / Cwestiynau Allweddol |
|---|---|
| Canolfannau Byd Gwaith mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Asesiad o werth y gefnogaeth hyfforddi a/neu'r deunyddiau hyfforddi a dderbyniwyd gan yr ASS |
| Carchar / Gwasanaeth Prawf / NOMS | Asesiad o werth y gefnogaeth hyfforddi a/neu'r deunyddiau hyfforddi a dderbyniwyd gan yr ASS |
| Learndirect / UfI | Asesiad o werth y gefnogaeth hyfforddi a/neu'r deunyddiau hyfforddi a dderbyniwyd gan yr ASS |
| Darparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Asesiad o werth y gefnogaeth hyfforddi a/neu'r deunyddiau hyfforddi a dderbyniwyd gan yr ASS. Asesiad o ansawdd y cyngor a'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan ddarparwyr trwy ymweliadau ac asesiadau'n ymwneud â Rheoli Ansawdd |
| Cyrff Gwirfoddol mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Asesiad o werth y gefnogaeth hyfforddi a/neu'r deunyddiau hyfforddi a dderbyniwyd gan yr ASS |
| TUC Cymru | Asesiad o werth y gefnogaeth hyfforddi a/neu'r deunyddiau hyfforddi a dderbyniwyd gan yr ASS |
| Darparwyr yn methu â chyrraedd targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Asesiad o ansawdd y cyngor a'r gefnogaeth a dderbyniwyd |
| Darparwyr mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos yn derbyn | Asesiad Buddiolwyr o ansawdd y cyngor a'r gefnogaeth a dderbyniwyd |

[61] Gellid cynnwys ysgolion sy'n methu â chyrraedd targedau yn y sampl cyffredinol o ysgolion.

| | |
|---|---|
| cefnogaeth ymgynghorol gan yr ASS | |
| Cyflogwyr mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos yn derbyn cefnogaeth ymgynghorol gan yr ASS | Asesiad Buddiolwyr o ansawdd y cyngor a'r gefnogaeth a dderbyniwyd |

**Ardaloedd Astudiaethau Achos**

| Cyfweleion | Dangosyddion / Cwestiynau Allweddol |
|---|---|
| Sampl o ddarparwyr, buddiolwyr a rhanddeiliaid eraill (AALI, CCET etc.) o fewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Y graddau y mae datblygiadau a gychwynnwyd trwy'r Strategaeth wedi ymwreiddio mewn arfer lleol, e.e. effeithiau hyfforddiant ar ymarfer dysgu.<br>Cwmpas gwybodaeth sefydliadau partneriaeth o raglenni Teulu<br>Asesiad sefydliadau derbynwyr o'r graddau a'r ffyrdd y mae cefnogaeth ASS wedi'u helpu hwy.<br>Asesiad defnyddwyr targed o ansawdd, perthnasedd a defnyddioldeb defnyddiau arfer da. |

### 9.3 Gwerthuso'r Effaith ar Fuddiolwyr y Strategaeth

Bydd y cyfnod hwn o'r gwaith yn cynnwys pum elfen allweddol yn ystod 2007/08:

- Profion cyn dechrau dysgu ar lefelau sgiliau sylfaenol yr oedolion sy'n dysgu (gweinyddir gan ddarparwyr dysgu)
- Ymgysylltiad cychwynnol unigolion yn yr arolwg eang o Oedolion sy'n Dysgu
- Cyfweliadau ansoddol gydag is-sampl o Oedolion sy'n Dysgu
- Arolygon meintiol o ymarferwyr
- Mesur i fynd i'r afael ag allanoldebau a'r gwrthffeithiol

**Profi Lefelau Sgiliau Sylfaenol Oedolion sy'n Dysgu – Cynt, Wedyn a Dilynol**

Caiff ein dull ni o brofi sgiliau sylfaenol oedolion sy'n dysgu ei nodi yn Adran 5 o'r adroddiad hwn. Ein cynnig craidd yw gweithio gyda darparwyr mewn amrywiaeth o osodiadau sy'n ymwneud â chyflenwi Sgiliau Sylfaenol Oedolion, gan ganolbwyntio ar ardaloedd astudiaethau achos ble bo hynny'n briodol.

Cyn dechrau ar y rhaglen brofi a chyfweliadau, bydd angen inni gytuno ar ddull o recriwtio myfyrwyr i'r rhaglen ymchwil tair blynedd a sut i'w cadw hwy i gymryd rhan mewn elfennau dilynol o'r ymchwil.

Bydd angen ystyried nifer o ffactorau yma:

- Adnabod set o ddarparwyr dysgu mewn gwahanol osodiadau a lleoliadau sy'n fodlon cymryd rhan yn yr ymchwil

- Adnabod set o ddarparwyr dysgu sy'n defnyddio dull cyffredin o brofi Sgiliau Sylfaenol - naill ai model yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol neu un Coleg Gorllewin Nottingham, o ddewis wedi'i weinyddu'n electronig er mwyn lleihau y nifer o wallau dynol yn y canlyniadau
- Rhaid i ddarparwyr fod yn barod i gydgysylltu'r profion cynt ac wedyn gyda chyfweliadau ychwanegol gan ein tîm, cyn dysgu ac wedi hynny
- Rhaid i ddarparwyr a myfyrwyr fod yn barod i rannau data a gasglwyd trwy'r profion gyda'r tîm gwerthuso – ar gyfer dibenion yr ymchwil hwn yn unig.

**Arolwg Eang o Oedolion sy'n Dysgu: Cyfweliadau Cychwynnol (46 Diwrnod)**

Ein bwriad yw cychwyn yr arolwg eang gyda sampl strwythurol o 600 o oedolion sy'n dysgu a dynnwyd o'r gosodiadau canlynol, mewn ardaloedd astudiaethau achos lle bo hynny'n briodol:

- Myfyrwyr Ôl-16 mewn Gosodiadau Addysg Bellach
- Myfyrwyr Ôl-16 mewn Chweched Dosbarth Ysgolion
- Myfyrwyr mewn Addysg Barhaus i Oedolion (ACE) (5 awr+ yr wythnos)
- Troseddwyr / Cyn-droseddwyr
- Myfyrwyr Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) / Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL) Ôl-16
- Oedolion sy'n Dysgu yn cymryd rhan mewn Rhaglenni Teulu
- Myfyrwyr ar Lwfans Ceisio Gwaith
- Myfyrwyr mewn gosodiadau gweithle

Bydd pawb o'r myfyrwyr yn cael eu cyfweld pan fyddant yn cychwyn eu rhaglen ddysgu Sgiliau Sylfaenol, er mwyn adnabod eu nodweddion personol ac ymagweddol a'u disgwyliadau o effeithiau cymryd rhan mewn dysgu sgiliau sylfaenol. Bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb ar safleoedd ble mae'r darparwyr, yn agos o ran amser i'r asesiad sgiliau sylfaenol cychwynnol.[62]

Caiff holiaduron yr arolygon eu cytuno ymlaen llaw gyda Grŵp Llywio'r prosiect a bydd y cynnwys wedi'i seilio'n fanwl ar y fframwaith gwerthuso.

[62] Yn amlwg, bydd yn rhaid i'r cyfweliadau hyn gael eu cynnal ar ôl yr asesiadau cychwynnol, er mwyn sicrhau bod y sampl wedi'i hadnabod fel rhai ag angen sgiliau sylfaenol.

**Cyfweliadau Ansoddol gydag Oedolion sy'n Dysgu: Cyfweliadau Cychwynnol (30 Diwrnod)**

Yn ychwanegol at yr arolwg meintiol eang o Oedolion sy'n Dysgu, bwriadwn gynnal cyfres o gyfweliadau dyfnach, ansoddol gyda sampl ychwanegol o 10% o fyfyrwyr [63].

Bydd y pynciau a gaiff sylw'n cynnwys y canlynol, fel lleiafswm:

- Barn myfyrwyr o'r gwahaniaeth a wnaeth bod â sgiliau llythrennedd neu rifedd gwael i'w statws cyflogaeth, rhagolygon swydd, enillion, tueddfryd i gymryd rhan mewn dysgu a'u ymdeimlad cyffredinol o deimlo'n dda
- Barn myfyrwyr am y gwahaniaeth y gallai cyfranogi mewn dysgu sgiliau sylfaenol ac, ar wahân, gwella eu sgiliau llythrennedd neu rifedd, ei wneud i'w:
- Statws cyflogaeth a/neu ragolygon swydd
- Enillion
- Tueddfryd i ymgymryd â dysgu ehangach
- Iechyd ac ymdeimlad o deimlo'n dda
- Effeithiau eraill y mae dysgwyr yn disgwyl i gyfranogi ei gael ar eu bywydau

**Arolwg Meintiol o Athrawon Cynradd (12 Diwrnod)**

Bydd arolwg trwy'r post o athrawon mewn ysgolion cynradd a leolir mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos (neu y tu hwnt os bydd angen) yn cael ei gynnal er mwyn canfod eu barn ar:

- Ymwybyddiaeth o faterion Sgiliau Sylfaenol
- Ymwybyddiaeth o ymyraethau Sgiliau Sylfaenol sy'n effeithio ar Ysgolion Cynradd
- Deall Marc Safon Ysgolion Cynradd
- Lefelau sgiliau plant wrth ddechrau dysgu
- Newidiadau yn lefelau sgiliau plant wrth ddechrau dysgu dros y dair blynedd ddiwethaf
- Effeithiolrwydd rhaglenni hyfforddi athrawon ar Lefel Cynradd

Bydd cyfanswm o 600 o holiaduron arolwg yn cael eu hanfon allan, gan ddisgwyl cyfradd ymateb o 50%. Cydnabyddir fod yn rhaid i'r arolwg hwn a'r un o athrawon ysgolion uwchradd dderbyn sêl bendith gan y Panel Cynghori Gweithlu Ysgolion (SWAP).

**Asesu'r Gwrthffeithiol – Dadansoddiad Data Cychwynnol (9 Diwrnod)**

Yn ystod yr ail flwyddyn, bydd ein cydweithwyr o Ysgol Fusnes Caerdydd yn parhau gyda'r gwaith o ddatblygu setiau dangosyddion monitro a'r dyddlyfr ffactorau allweddol. Fel yr

[63] Gallai'r 10% hwn fod yn ychwanegol, neu'n is-sampl o'r garfan feintiol.

amlygwyd uchod, byddem hefyd yn diswyl cadw llygad ar waith ymchwil sy'n ymddangos mewn mannau eraill.

Gan ddefnyddio'r darganfyddiadau o'r arolwg meintiol, byddem yn gweithio i gynhyrchu dadansoddiad clwstwr dros dro (gweler adran 4.7) fydd yn darparu teipoleg o grwpiau buddiolwyr a'u nodweddion cyffredin. Byddwn yn defnyddio'r canlyniadau hyn mewn cysylltiad â'n set ni o ddangosyddion monitro i nodi'r cynnydd mewn grwpiau tebyg ledled Cymru. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni beilota ein dull, ac yn caniatáu  disgrifiad cychwynnol o sut y gallai grwpiau tebyg fod wedi dod yn eu blaenau ledled Cymru o ystyried amodau'r farchnad waith ac o gymryd i ystyriaeth unrhyw sioc i'r system, fel cau gweithfeydd mawr yn lleol, ymyriadau polisi eraill etc. yn y cyfnod cychwynnol hwn.

Bydd yr ystyriaeth gychwynnol o'r gwrthffeithiol yma a'r canlyniadau o'r dadansoddiad clwstwr yn ein cynorthwyo i fireinio ymhellach offer yr arolwg ar gyfer ei ddefnyddio mewn gweithgareddau ymchwil dilynol hyd at 2009/10.

**Gweithdy Tîm Mewnol (5 Diwrnod)**

Tuag at ddiwedd y flwyddyn, byddwn yn galw gweithdy tîm mewnol at ei gilydd, i drafod themâu sy'n esblygu, adnabod meysydd o arfer gorau a thynnu sylw at unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r dull gwerthuso.

## 9.4 Trefniadau Adrodd, Monitro a Rheoli Prosiect

Y prif gynhyrchion yn ystod y cyfnod 2007/08 fydd:

- Adroddiad Gwerthuso Strategol
- Adroddiad Effeithiolrwydd Rheoli
- Tablau arolygon meintiol ac adroddiad trosolwg
- Adroddiad gweithdy tîm mewnol
- Adroddiad gwerthuso llinell sylfaen

Cynhelir cyfarfodydd Grŵp Llywio unwaith eto fel bo'r angen, trwy drefniant.

# 10 Rhaglen Waith 2008/09

## 10.1 Gwerthuso'r Broses Gyflenwi / Datblygiad Isadeiledd

Yn ystod 2008/09, y gweithgaredd allweddol yn ystod y cyfnod hwn fydd adolygiad pellach o ddata monitro a gwerthuso sy'n ymwneud â gweithgareddau penodol NSP / Grŵp Blaenoriaeth.

### Adolygiad o Ddata Monitro a Gwerthuso sy'n Ymwneud â Gweithgareddau Penodol NSP / Grŵp Blaenoriaeth (24 diwrnod)

Yr un modd ag yn 2007/08, bydd yr adolygiad cyfredol o ddata sy'n benodol i'r NSP / Grŵp Blaenoriaeth yn darparu cyfeirnod parhaol ar gyfer llinynnau unigol o'r gwerthusiad, o ran deall treiddiad presennol ymwybyddiaeth o sgiliau sylfaenol a'r ymrwymiad i ddysgu ar gyfer pob NSP / Grŵp Blaenoriaeth. Fe fydd hefyd yn galluogi ymgynghorwyr sy'n arwain i ddeall meysydd o gyflenwi ble bo anawsterau wedi digwydd, neu ble mae ymyraethau wedi bod yn arbennig o lwyddiannus.

### Cyfweliadau Ansoddol Pellach gyda Buddiolwyr y Cynllun Cyflenwi (29 Diwrnod)

Bydd y rhaglen cyfweliadau ansoddol yn parhau o'r flwyddyn flaenorol

Cynhelir cyfweliadau wyneb yn wyneb gan aelodau neilltuedig o'r tîm gwerthuso a byddant yn lled strwythurol yn eu cynnwys, yn seiliedig ar ganllawiau pwnc i'w cytuno ymlaen llaw gyda Grŵp Llywio'r Gwerthusiad.

Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi eto gan ddefnyddio meddalwedd "*Mind Manager*" i fapio materion ar draws llinynnau cyflenwi a grwpiau o fuddiolwyr ac i adnabod themâu cyson.

**Blynyddoedd Cynnar**

| Cyfweleion | Dangosyddion / Cwestiynau Allweddol |
|---|---|
| Sampl o ddarparwyr ChAI/ChAR mewn ardaloedd astudiaethau achos | Canfyddiad ymarferwyr o'u gwybodaeth o raglenni ChAI/ChAR |

**Ysgolion**

| Cyfweleion | Dangosyddion / Cwestiynau Allweddol |
|---|---|
| AALl mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Asesiad o werth y gefnogaeth hyfforddi a/neu ddeunyddiau hyfforddi a dderbyniwyd gan yr ASS:<br>Asesiad o'r: |

| | |
|---|---|
| | • Broses gwneud cais<br>• Broses hawlio<br>• Broses daliadau |
| AALI / Ysgolion yn methu â chyrraedd targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos[64] | Asesiad o ansawdd y cyngor a'r gefnogaeth a dderbyniwyd |
| Ysgolion mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Asesiad o ansawdd y cyngor a'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan ddarparwyr drwy ymweliadau ac asesiadau'n ymwneud â Rheoli Ansawdd (QM) |

**Ôl-16**

| Cyfweleion | Dangosyddion / Cwestiynau Allweddol |
|---|---|
| Canolfannau Byd Gwaith mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Asesiad o werth y gefnogaeth hyfforddi a/neu'r deunyddiau hyfforddi a dderbyniwyd gan yr ASS |
| Carchar / Gwasanaeth Prawf / NOMS | Asesiad o werth y gefnogaeth hyfforddi a/neu'r deunyddiau hyfforddi a dderbyniwyd gan yr ASS |
| Learndirect / UfI | Asesiad o werth y gefnogaeth hyfforddi a/neu'r deunyddiau hyfforddi a dderbyniwyd gan yr ASS |
| Darparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Asesiad o werth y gefnogaeth hyfforddi a/neu'r deunyddiau hyfforddi a dderbyniwyd gan yr ASS. Asesiad o ansawdd y cyngor a'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan ddarparwyr trwy ymweliadau ac asesiadau'n ymwneud â Rheoli Ansawdd |
| Cyrff Gwirfoddol mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Asesiad o werth y gefnogaeth hyfforddi a/neu'r deunyddiau hyfforddi a dderbyniwyd gan yr ASS |
| TUC Cymru | Asesiad o werth y gefnogaeth hyfforddi a/neu'r deunyddiau hyfforddi a dderbyniwyd gan yr ASS |
| Darparwyr yn methu â chyrraedd targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Asesiad o ansawdd y cyngor a'r gefnogaeth a dderbyniwyd |
| Darparwyr mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos yn derbyn cefnogaeth ymgynghorol gan yr ASS | Asesiad Buddiolwyr o ansawdd y cyngor a'r gefnogaeth a dderbyniwyd |
| Cyflogwyr mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos yn derbyn cefnogaeth ymgynghorol gan yr ASS | Asesiad Buddiolwyr o ansawdd y cyngor a'r gefnogaeth a dderbyniwyd |

**Ardaloedd Astudiaethau Achos**

| Cyfweleion | Dangosyddion / Cwestiynau Allweddol |
|---|---|
| Sampl o ddarparwyr, buddiolwyr a rhanddeiliaid eraill (AALI, CCET etc.) o fewn Ardaloedd Astudiaethau Achos | Y graddau y mae datblygiadau a gychwynnwyd trwy'r Strategaeth wedi ymwreiddio mewn arfer lleol, e.e. effeithiau hyfforddiant ar ymarfer dysgu.<br>Cwmpas gwybodaeth sefydliadau partneriaeth o raglenni Teulu<br>Asesiad sefydliadau derbynwyr o'r graddau a'r ffyrdd y mae cefnogaeth ASS wedi'u helpu hwy.<br>Asesiad defnyddwyr targed o ansawdd, perthnasedd a defnyddioldeb defnyddiau arfer da. |

[64] Gellid cynnwys ysgolion sy'n methu â chyrraedd targedau yn y sampl cyffredinol o ysgolion.

### 10.2 Gwerthuso'r Effaith ar Fuddiolwyr y Strategaeth

Bydd y cyfnod hwn o'r gwaith yn cynnwys pum elfen allweddol yn ystod 2008/09:

- Cynnal profion ar lefelau sgiliau sylfaenol oedolion ar ôl iddynt orffen dysgu. (Darparwyr dysgu fydd yn eu cynnal)
- Ail don o gyfweld yn yr arolwg eang o Oedolion sy'n Dysgu.
- Cyfweliadau ansoddol pellach gydag is-sampl o Oedolion sy'n Dysgu
- Arolwg Meintiol gydag Athrawon Ysgolion Uwchradd
- Grwpiau ffocws gyda is-grwpiau o fyfyrwyr yn yr Ardaloedd Astudiaethau Achos
- Mesur i ymwneud ag allanoldebau a'r gwrthffeithiol

**Arolwg Eang o Oedolion sy'n Dysgu: Cyfweliadau ar ôl Cwblhau Dysgu Sgiliau Sylfaenol (46 Diwrnod)**

Bydd y myfyrwyr a holwyd wrth iddynt ddechrau yn 2007/08 yn cael eu cyfweld eto wrth i'r rhaglen dysgu sgiliau sylfaenol ddod i ben, i adnabod unrhyw newid yn eu nodweddion personol, yn eu hagwedd a'u disgwyliadau yn dilyn effeithiau ymwneud â dysgu sgiliau sylfaenol[65]. Cynhelir y cyfweliadau wyneb yn wyneb ar dir y darparwyr yn agos at amser asesiad olaf y sgiliau sylfaenol.

Bydd holiaduron arolwg wedi'u cytuno o flaen llaw gyda Grŵp Llywio'r prosiect a bydd y cynnwys wedi derbyn gwybodaeth gan y Fframwaith Gwerthuso. Bydd materion o ddiddordeb yn cynnwys:

- Yn weithredol yn economaidd fel % o fyfyrwyr yn cymryd rhan yn yr arolwg
- Canran o'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y dysgu sydd â'u hincwm yn is na 60% o incwm canolradd cyn costau tai.
- Cynydd yn enillion canolradd y myfyrwyr ar ôl bod yn rhan o ddysgu sgiliau sylfaenol.
- Canran o'r myfyrwyr sy'n rhan o'r arolwg sy'n mynd yn eu blaen i ddysgu ymhellach wedi gorffen y cyfnod cyntaf o ddysgu sgiliau sylfaenol.

[65] Cydnabyddir y bydd peth cynnen o ran y garfan, oherwydd bydd rhai myfyrwyr wedi gadael yn gynnar neu wedi troi eu cefn ar ddysgu.

- Canran o'r rhai a holwyd sy'n dangos gwelliant mewn sgiliau sylfaenol uwch na'u lefelau cyn iddynt ddechrau dysgu, gan ddefnyddio offer asesiad ASS / Gorllewin Nottingham neu Canolfan Ymchwil a Datblygu Cenedlaethol (NRDC)

**Arolwg Meintiol o Athrawon Ysgolion Uwchradd (19 diwrnod)**

Cynhelir arolwg drwy'r post o athrawon mewn ysgolion uwchradd sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd astudiaethau achos (neu tu hwnt os oes angen) i ganfod eu barn ar:

Ymwybyddiaeth o faterion Sgiliau Sylfaenol
Ymwybyddiaeth o effaith ymyriadau Sgiliau Sylfaenol ar Ysgolion Uwchradd
Dealltwriaeth o Farc Safon Ysgolion Uwchradd
Sgiliau Plant wrth gychwyn dysgu
Newidiadau yn Sgiliau Plant wrth gychwyn dysgu yn ystod y tair blynedd diwethaf
Effeithiolrwydd rhaglenni hyfforddi athrawon ar Lefel Uwchradd

Bydd cyfanswm o 1200 o holiaduron arolwg yn cael eu postio, unwaith eto gyda'r disgwyliad o dderbyn ymateb o 50%.

**Cyfweliadau Ansoddol gydag Oedolion sy'n Dysgu: Cyfweliadau ar ôl Cwblhau Dysgu Sgiliau Sylfaenol (30 Diwrnod)**

Ymwelir â'r is-sampl o 60 o fyfyrwyr i'w holi'n ddwys am rai o'r newidiadau yn eu hagwedd ar ôl cyfnod o ymroi i ddysgu. Bydd y pynciau a drafodir yn cynnwys, fel lleiafswm:

- Sylwadau'r myfyrwyr am y gwahaniaeth wnaeth bod yn rhan o ddysgu sgiliau sylfaenol i lefelau eu llythrennedd a'u rhifedd
- Sylwadau'r myfyrwyr ar y gwahaniaeth wnaeth bod yn rhan o ddysgu sgiliau sylfaenol ac, ar wahân, gwella eu sgiliau llythrennedd neu eu sgiliau rhifedd ei wneud i'w:
  - Statws cyflogaeth a/neu ragolygon swydd
  - Enillion
  - Tueddfryd i ymgymryd â dysgu ehangach
  - Iechyd ac ymdeimlad o deimlo'n dda
- Effeithiau eraill wnaeth cymryd rhan yn y cwrs gael ar eu bywyd.

**Cyfweliadau Ansoddol gyda Rhieni Myfyrwyr (9 Diwrnod)**

Yn y fan hon, bwriadwn holi sampl bach o rieni sy'n rhan o weithgareddau sgiliau sylfaenol drwy Raglenni'r Teulu. Cynhelir y cyfweliadau gan ymgynghorwyr sy'n arwain, wyneb yn wyneb a byddant yn ymwneud â'r canlynol, fel lleiafswm:

- Safbwyntiau'r rhieni ar sut y bu i weithgareddau sgiliau sylfaenol effeithio lefelau eu sgiliau sylfaenol.
- Safbwyntiau'r rhieni ar sut y bu i weithgareddau effeithio'u gallu i helpu'u plant.
- Safbwyntiau'r rhieni ar sut y bu i gymryd rhan mewn gweithgaredd Sgiliau Sylfaenol ac, ar wahân, pa wahaniaeth wnaeth gwella eu sgiliau llythrennedd neu rifedd ei wneud i'w:
- Statws cyflogaeth a/neu ragolygon swydd
- Enillion
- Tueddfryd i ymgymryd â dysgu ehangach
- Iechyd ac ymdeimlad o deimlo'n dda
- Agweddau tuag at addysg eu plant

Cytunir ar ganllawiau pwnc ar gyfer y cyfweliadau o flaen llaw gyda'r Grŵp Llywio'r Prosiect.

**Grwpiau Ffocws Bach gyda Myfyrwyr â Diffygion Sgiliau Sylfaenol yn yr Iaith Gymraeg (16 diwrnod)**

Cynhelir cyfres o bedwar grŵp ffocws bach gyda myfyrwyr sgiliau sylfaenol yn yr Iaith Gymraeg o Ardaloedd Astudiaethau Achos (ble mae'n bosibl). Bydd y grwpiau yn anelu at ddelio gydag amgyffred y myfyrwyr o'u profiadau a'u disgwyliadau o unrhyw newidiadau a ddigwydd drwy ddysgu sgiliau sylfaenol.
Bydd angen i'r recriwtio gael ei wneud drwy gydweithio gyda'r NSP perthnasol.

**Grwpiau Ffocws Bach gyda Myfyrwyr ESOL/EAL (16 Diwrnod)**

Cynhelir cyfres o bedwar grŵp ffocws bach gyda myfyrwyr sgiliau sylfaenol ESOL/EAL mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Bydd y pynciau a drafodir yn adlewyrchu'r rhai yn grŵp myfyrwyr yr Iaith Gymraeg.
Unwaith eto bydd angen i'r recriwtio gael ei wneud drwy gydweithio gyda'r NSP perthnasol.

**Grwpiau Ffocws Bach gyda Myfyrwyr mewn Perygl o gael eu Allgáu'n Gymdeithasol (24 Diwrnod)**

Cynhelir cyfres o chwech grŵp ffocws gyda chyfranwyr a adnabyddir fel rhai sy'n perthyn i grwpiau sydd mewn perygl o gael eu allgáu'n gymdeithasol, sy'n gwneud peth hyfforddiant

mewn sgiliau sylfaenol mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Bydd y pynciau a drafodir yn adlewyrchu'r rhai yn grŵp myfyrwyr Iaith Gymraeg

Unwaith eto bydd angen i'r recriwtio gael ei wneud drwy gydweithio gyda'r NSP perthnasol.

**Asesu'r Gwrthffeithiol – Dadansoddiad Data Pellach (9 Diwrnod)**

Yn y rhan hon o'r gwaith, bydd y data o'r ail don o arolygu meintiol yn cael ei ddadansoddi yng nghyd-destun y data eilaidd ehangach, gyda'r bwriad o ddechrau asesu'r gwrthffeithiol.

Bydd y gwaith hwn yn rhoi gwybod am unrhyw welliant y dylid ei wneud i offer yr arolwg er mwyn ei defnyddio mewn gweithgareddau ymchwil dilynol hyd at 2009/10.

### 10.3 Trefniadau Adrodd, Monitro a Rheoli'r Prosiect

Y prif gynhyrchion yn ystod y cyfnod 2008/09 fydd:

- Tablau arolygon meintiol ac adroddiad trosolwg
- Adroddiadau grwpiau ffocws
- Adroddiad gwerthuso ar Ganol y Tymor

Cynhelir cyfarfodydd y Grŵp Llywio unwaith eto fel bo'r angen, trwy drefniant.

# 11 Rhaglen Waith 2009

## 11.1 Ailymweld â Gwerthuso Strategol (34 Diwrnod)

Tua diwedd y gwerthusiad yn Haf 2009, ein bwriad yw ailymweld â'r adolygiad polisi a'r cyfweliadau gyda'r rhanddeiliaid a restrwyd yn Adran 0, i holi os yw cyd-destun y polisi a'r agweddau tuag at, a phrofiadau o'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol a'r cyflenwi wedi newid yn ystod y cyfnod.

Bydd y pynciau trafod yn aros fwy neu lai yr un, ond gyda'r dimensiwn ychwanegol o newid dros amser. Bydd y cyfweliadau'n anelu at ganfod os yw gweithgareddau a gyflenwyd o dan y Strategaeth wedi llwyddo i newid agweddau ac ymddygiad y rhanddeiliaid dros gyfnod o ddwy neu dair mlynedd.

Bydd cynnyrch y cyfweliadau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad gwerthuso terfynol.

## 11.2 Gwerthuso'r Broses Gyflenwi / Datblygiad Isadeiledd

Yn ystod 2009, y gweithgareddau allweddol yn y cyfnod hwn fydd adolygiad terfynol o ddata monitro a gwerthuso mewn perthynas â gweithgareddau penodol NSP/ Grŵp Blaenoriaeth a chyfres o ailadrodd cyfweliadau gyda buddiolwyr y Cynllun Cyflenwi.

### Adolygiad Terfynol o Ddata Monitro a Gwerthuso sy'n Ymwneud â Gweithgareddau Penodol NSP / Grŵp Blaenoriaeth (24 diwrnod)

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, bydd yr adolygiad cyfredol o ddata sy'n benodol i'r NSP / Grŵp Blaenoriaeth yn darparu cyfeirnod parhaol ar gyfer llinynnau unigol o'r gwerthusiad, o ran deall treiddiad presennol ymwybyddiaeth sgiliau sylfaenol a bod yn rhan o ddysgu ar gyfer pob NSP / Grŵp Blaenoriaeth. Fe fydd hefyd yn galluogi yr ymgynghorwyr sy'n arwain i ddeall meysydd o gyflenwi ble bo anawsterau wedi digwydd, neu ble mae ymyriadau wedi bod yn arbennig o lwyddiannus.

### Cyfweliadau Ansoddol gyda Buddiolwyr y Cynllun Cyflenwi (71 Diwrnod)

Bydd ailymweld â rhaglen gyfweld ansoddol yn darparu mewnwelediad llawn i gryfderau a gwendidau datblygiad a chynhaliaeth isadeiledd Sgiliau Sylfaenol ar gyfer yr ymgynghorwyr sy'n arwain.

Cynhelir cyfweliadau wyneb yn wyneb gan aelodau neilltuedig o'r tîm gwerthuso a bydd yn lled strwythurol mewn cynnwys, yn seiliedig ar ganllawiau pwnc i'w cytuno ymlaen llaw gyda Grŵp Llywio'r Gwerthusiad.

Unwaith eto dadansoddi'r y canlyniadau'n drwy ddefnyddio meddalwedd "*Mind Manager*" i fapio materion ar draws llinynnau cyflenwi a grwpiau o fuddiolwyr ac i adnabod themâu cyson.

### 11.3 Gwerthuso'r Effaith ar Fuddiolwyr y Strategaeth

Bydd y cyfnod hwn o'r gwaith yn cynnwys pedair elfen allweddol yn ystod 2009:

- Profion yn y cartref ar lefelau sgiliau sylfaenol myfyrwyr sy'n oedolion tua blwyddyn ar ôl cwblhau'r dysgu.
- Y drydedd don o gyfweliadau yn yr arolwg eang o Oedolion sy'n Dysgu
- Cyfweliadau ansoddol terfynol gydag is sampl o Oedolion sy'n Dysgu
- Mesur i fynd i'r afael ag allanooldebau a'r gwrthffeithiol

#### Profion yn y Cartref ac Arolwg Eang o Oedolion sy'n Dysgu: Cyfweliadau 12 Mis ar ôl Cwblhau Dysgu Sgiliau Sylfaenol (59 Diwrnod)

Bydd gymaint o unigolion ag sy'n bosibl o'r garfan o 600 o'r myfyrwyr gwreiddiol yn cael eu hasesu ar lefelau Sgiliau Sylfaenol, yn y cartref gan ddefnyddio yr un math o brofion â'r rhai a ddefnyddiwyd gan eu darparwyr penodol blaenorol. Yn ychwanegol ac ar yr un pryd, byddwn yn cynnal arolwg meintiol o'r garfan sy'n weddill. Bydd y pynciau a drafodir yn cynnwys, fel lleiafswm:

- Gweithredol yn economaidd fel % o'r myfyrwyr sy'n rhan o'r arolwg
- Canran o'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn dysgu sydd â'u hincwm yn is na 60% o incwm canolrif cyn costau tai.
- Cynnydd yn enillion canolrif y myfyrwyr ar ôl bod yn rhan o ddysgu sgiliau sylfaenol
- Canran o'r rhai a gafodd gyfweliad sy'n dangos bod eu sgiliau sylfaenol wedi gwella yn uwch na lefelau cyn-dysgu gan ddefnyddio offer asesu yr ASS/ Gorllewin Nottingham neu Canolfan Ymchwil a Datblygu Cenedlaethol (NRDC).

#### Cyfweliadau Ansoddol gydag Oedolion sy'n Dysgu: Cyfweliadau 12 Mis ar ôl Cwblhau Dysgu Sgiliau Sylfaenol (21 Diwrnod)

Cyfwelir 10% o sampl o'r garfan sydd ar ôl mewn mwy o ddwyster, i dreiddio ymhellach i newidiadau mewn ymddygiad ac amgylchiadau yn dilyn dysgu sgiliau sylfaenol.
Bydd y pynciau a gaiff sylw'n cynnwys y canlynol, fel lleiafswm:

- Barn myfyrwyr o'r gwahaniaeth y gwnaeth cymryd rhan mewn dysgu sgiliau sylfaenol i'w lefelau llythrennedd a rhifedd

- Barn myfyrwyr o'r gwahaniaeth y gwnaeth cymryd rhan mewn dysgu sgiliau sylfaenol ac, ar wahân, y gwnaeth gwella eu sgiliau llythrennedd neu sgiliau rhifedd ei wneud i'w:
  - Statws cyflogaeth a/neu ragolygon swydd
  - Enillion
  - Tueddfryd i ymgymryd â dysgu ehangach
  - Iechyd a theimlo'n dda
- Effeithiau eraill a gafodd cymryd rhan ar eu bywydau
- Eu huchelgais i'w plant

**Mesur i Ymdrin ag Allanoldebau a'r Gwrthffeithiol (29 Diwrnod)**

Ar ôl cael meddiant o'r darganfyddiadau ymchwil ar gyfer blynyddoedd 1 i 3 byddem yn gallu, yn y flwyddyn olaf ddadansoddi yn llawn gynnydd y grwpiau cyfeirnod. Byddem yn derbyn gwybodaeth am hyn drwy set o ddangosyddion monitro a sefydlwyd dros bedair blynedd a drwy ddadansoddi dyddlyfr pedair blynedd yn nodi prif ddigwyddiadau dylanwadol ar lefel awdurdodau unedig. Byddai hyn yn rhoi i'r tîm ymchwil werthfawrogiad o'r 'sŵn' yn y system dros y cyfnod, ac yn caniatáu i'r tîm ymchwilio deilliannau ar gyfer elfennau tebyg yn y gweithlu. Yng ngweithgaredd y flwyddyn olaf bydd y tîm yn casglu at ei gilydd y darganfyddiadau o'r rhaglen gwaith maes (gweler y crynodeb yn adran 4.8, tud. 80) i roi gwybodaeth am yr uchod.

Byddwn yn defnyddio'r dulliau a ddisgrifiwyd yn Adran 4 o'r adroddiad hwn i ymdrin â'r gwrthffeithiol ac i weld a ellid sefydlu cysylltiadau achlysurol rhwng cymryd rhan mewn Dysgu Sgiliau Sylfaenol a gwelliant mewn lefelau Sgiliau Sylfaenol a/neu newidiadau i amgylchiadau economaidd a chymdeithasol.

### 11.4 Monitro'r Prosiect a Rheoli'r Prosiect

Y prif gynhyrchion yn ystod y cyfnod 2009 fydd:

- Tablau arolygon meintiol ac adroddiad trosolwg
- Adroddiad gwerthuso terfynol

Bydd yr adroddiad gwerthuso terfynol yn darparu asesiad cynhwysfawr o effeithiolrwydd cyflenwi y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol a bydd yn cynnig rhai mewnwelediadau i effaith y Strategaeth ar fywydau'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau Sgiliau Sylfaenol.
Yn ychwanegol cyflwynir argymhellion i newid cyflenwi'r dyfodol, gyda chyfrifoldebau a graddfeydd amser.

Cyflwynir pob adroddiad ar ffurf drafft i'w ystyried gan y Grŵp Llywio, cyn dod â'r mater i ben a'i gyfieithu.

Cynhelir cyfarfodydd o'r Grŵp Llywio fel bo'r angen yn ystod 2009/10, trwy drefniant.
Rydym wedi prisio tri chyflwyniad terfynol o'r canlyniadau i'r rhanddeiliaid. Darperir cyflwyniadau ychwanegol drwy drefniant.

Nick Miller fydd Cyfarwyddwr y Prosiect a Lindsey Roberts fydd yn gweithredu fel Rheolwr y Prosiect. Y rhain fydd y prif gysylltiadau ar gyfer pob ymholiad. Fodd bynnag bydd ymgynghorwyr unigol sy'n arwain ar gael bob amser i drafod cylchoedd eu cyfrifoldeb.

**Sut beth fydd Llwyddiant?**

Bydd gwerthusiad llwyddiannus yn darparu trosolwg trwyadl o bob agwedd o'r Strategaeth a'i pheirianwaith cyflenwi. Bydd pob set o ymyriadau yn cael eu gwerthuso gan grŵp blaenoriaeth a, ble mae'n briodol, gan ardal astudiaethau achos i roi darlun sy'n esblygu o ba agweddau o'r strategaeth gyflenwi sydd wedi bod yn neilltuol o lwyddiannus, neu ble mae sialensiau yn parhau. Amlygir enghreifftiau o ymarfer da a bydd monitro ar gyrhaeddiad cydweithio yn ddaearyddol neu ar draws Prosiectau Cefnogaeth Cenedlaethol (NSP).
Defnyddir y canlyniadau o arolygon meintiol i benderfynu i ba raddau y gwnaeth ymwneud ag ymyriadau Sgiliau Sylfaenol greu newid mewn ymddygiad ac amgylchiadau buddiolwyr unigol. Er fod hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar oedolion sy'n dysgu ac is-setiau o'r grŵp hwn, bydd hefyd yn cwmpasu athrawon, cyflogwyr a rhieni pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni sgiliau sylfaenol.
Bwriedir i'r arolwg eang, asesiad o oedolion sy'n dysgu a dadansoddiad dilynol ddarparu peth arwydd o effaith ymyriadau sgiliau sylfaenol, yn nhermau gwella sgiliau sylfaenol buddiolwyr ac yn yr effeithiau ehangach ar fesurau economaidd, cymdeithasol a lles. Er mai hwn yn ddiamheuol yw agwedd mwyaf heriol y gwaith, rydym yn hyderus fod yr amrywiaeth o dechnegau sydd ar gael i ni yn cynnig cyfleoedd i godi lefel ein dealltwriaeth yn y cylchoedd hyn.

## 12 Trefniadau Staffio

Mae 5 isod yn dangos y trefniadau awgrymedig ar gyfer cyfrifoldebau arweiniol mewn perthynas â NSP a gweithgareddau cyflenwi eraill. Yr ymgynghorwyr / ymgynghoriaethau sydd wedi'u lliwddangos fydd yn gyfrifol am sicrhau fod yr elfen hon o'r rhaglen waith yn digwydd yn unol â'r Cynllun Prosiect.

**Tabl 15 Cyfrifoldebau Arwain ac Amserlen Waith**

| **Prosiect Cefnogaeth Cenedlaethol (NSP)** | Ymgynghorwyr arweiniol | Gweithredoedd 2006/07 | Gweithredoedd 2007/08 | Gweithredoedd 2008/09 | Gweithredoedd 2009/10 | Sgôp Daearyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blynyddoedd Cynnar | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a System Gwybodaeth Rheoli (MIS) sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau gyda sampl o Ddarparwyr ChAI / ChAR mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau gyda staff Dechrau Da. | | Cyfweliadau gyda sampl o Ddarparwyr LAP / NAP mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau gyda staff Dechrau Da. | Astudiaeth Achos – Awdurdod Unedol |
| Pobl Ifanc | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gydag AALI / Cynrychiolyddion ysgol mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gydag AALI / Ysgolion sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Arolwg Meintiol o athrawon Ysgolion Cynradd ac Uwchradd | | Cyfweliadau ansoddol gydag AALI / Cynrychiolyddion ysgol mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gydag AALI / Ysgolion sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Astudiaeth Achos - Awdurdod Unedol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Troseddwyr / Cyn droseddwyr | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gydag Staff Carchardai / NOMS. Cyfweliadau ansoddol gydag staff y Gwasanaeth Prawf staff mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Arolwg Meintiol o Droseddwyr yn cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | Arolwg Meintiol o Droseddwyr yn cymryd rhan mewn dysgu SS (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | Cyfweliadau ansoddol gydag Staff Carchardai / NOMS. Cyfweliadau ansoddol gydag staff y Gwasanaeth Prawf staff mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Arolwg Meintiol a Phrofi Sgiliau Sylfaenol Troseddwyr sy'n cymryd rhan mewn Dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | Cymru / Lleoliadau Carchardai |
| Hyfforddi a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gyda staff Learndirect / UfI. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n derbyn Cefnogaeth Ymgynghorol gan yr ASS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gydag cynrychiolyddion CCET mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | | Cyfweliadau ansoddol gyda staff Learndirect / UfI. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n derbyn Cefnogaeth Ymgynghorol gan yr ASS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gydg chynrychiolyddion CCET mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Astudiaeth Achos - Awdurdod Unedol |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Iaith Gymraeg | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n derbyn Cefnogaeth Ymgynghorol gan yr ASS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Grwpiau Ffocws bychan gyda myfyrwyr mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n derbyn Cefnogaeth Ymgynghorol gan yr ASS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Astudiaeth Achos Awdurdod Unedol | - |
| ESOL/EAL | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau Gyda Darparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gydag Darparwyr sy'n derbyn Cefnogaeth Ymgynghorol gan yr ASS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Grwpiau Ffocws bychan gyda myfyrwyr mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Cyfweliadau Gyda Darparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n methu cyrraedd y targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n derbyn Cefnogaeth Ymgynghorol gan yr ASS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Astudiaeth Achos Awdurdod Unedol | - |
| Grwpiau mewn perygl o allgáu cymdeithasol | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gyda CGS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Grwpiau Ffocws bychan gyda myfyrwyr mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Cyfweliadau ansoddol gyda CGS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Astudiaeth Achos Awdurdod Unedol | - |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addewid y Cyflogwr - Gweithlu | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gyda sampl o Gyflogwyr mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda chyflogwyr sy'n derbyn Cefnogaeth Ymgynghorol gan yr ASS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Arolwg Meintiol o Fyfyrwyr y Gweithle sy'n cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. | Astudiaeth Achos Awdurdod Unedol | - |
| | | | Arolwg Meintiol o Fyfyrwyr y Gweithle sy'n cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | Cyfweliadau ansoddol gyda sampl o Undeb Cynrychiolyddion Dysgu mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Arolwg Meintiol a Phrofi Sgiliau Sylfaenol o Fyfyrwyr yn y Gweithle sy'n cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | | |
| Llythrennedd Ariannol | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gyda Phartneriaid Cyflenwi mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. | Astudiaeth Achos Awdurdod Unedol | - |
| Prosiectau wedi'i harwain gan y Sector Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gyda Phartneriaid Cyflenwi mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. | Astudiaeth Achos Awdurdod Unedol | - |
| Oedolion sy'n Dysgu | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n methu cyrraedd y | Arolwg Meintiol o Oedolion sy'n Dysgu sy'n cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. | Astudiaeth Achos Awdurdod Unedol | - |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | targedau mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Cyfweliadau ansoddol gyda Darparwyr sy'n derbyn Cefnogaeth Ymgynghorol gan yr ASS mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | | | |
| | | | Arolwg Meintiol o Oedolion sy'n Dysgu sy'n cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | | Arolwg Meintiol a Phrofi Sgiliau Sylfaenol o Oedolion sy'n Dysgu sy'n cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol | |
| | | | Arolwg Meintiol o Ddarparwyr Hyfforddiant mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. Arolwg Meintiol o Fyfyrwyr yn y Gweithle sy'n cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | Arolwg Meintiol o Fyfyrwyr yn y Gweithle sy'n cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | Arolwg Meintiol a phrofi Sgiliau Sylfaenol o gyn fyfyrwyr yn y Gweithle 12 mis ar ôl terfyn y dysgu (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | |
| Ceiswyr Gwaith | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | Cyfweliadau ansoddol gyda Canolfan Byd Gwaith a Staff mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos. | Arolwg Meintiol o Geiswyr Gwaith yn cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. | Canolfan Byd Gwaith Rhanbarth / Astudiaeth Achos - Awdurdod Unedol |
| | | | Arolwg Meintiol o Geiswyr Gwaith yn cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg eang o fyfyrwyr) | | Arolwg Meintiol a Phrofi Sgiliau Sylfaenol o gyn Geiswyr Gwaith yn cymryd rhan mewn dysgu Sgiliau Sylfaenol (fel is sampl o arolwg | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | eang o fyfyrwyr) | |
| Gweithgaredd Arall | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. Adolygiad o ddeunyddiau a MIS sydd eisoes yn bod. | | Cyfweliadau gyda swyddogion prosiect. | Amrywiol |

**Allwedd**

| | | |
|---|---|---|
| Miller Research | Dateb | Jennifer Twelvetrees |
| Old Bell3 | Caroline Challoner | Beaufort Research |

Mae 16 isod yn lliwddangos y cyfrifoldebau arweinyddol ar gyfer yr Ardaloedd Astudiaethau Achos. Ymgynghoriaethau arweiniol fydd yn gyfrifol am gydosod golwg cyffredinol o'r sefyllfa ym mhob un o'u hardaloedd eu hunain, ynghyd ag arwydd o ychwanegolrwydd a gyflawnwyd drwy drawsgyswllt gweithgaredd.

**Tabl 16 Cyfrifoldebau Arwain - Ardaloedd Astudiaethau Achos Daearyddol**

| | Canolbarth Cymru | Gogledd Cymru | De Ddwyrain Cymru | De Orllewin Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Dinesig | | | | **Abertawe** |
| Y Cymoedd | | | **Torfaen** | |
| Gwledig | **Gwynedd (Meirionnydd)** | **Gwynedd (ag eithrio Meirionnydd)** | | **Sir Gaerfyrddin** |
| Cymysg Dinesig / Gwledig | | **Sir y Fflint** | **Bro Morgannwg** | |

**Allwedd**

| | |
|---|---|
| Miller Research | Dateb |
| Old Bell3 | |

## 13 Rhaglen Waith a Chostau

Mae Tabl 7 isod yn cyflwyno golwg cyffredinol o ymdriniaeth NSP yn nhermau gwaith maes a graddfa amser

**Tabl 17 Matrics o Ymdriniaeth Bosibl drwy Grwpio Cynulleidfa a Graddfa Amser**

| | | 2006-7 | | 2007-8 | | 2008-9 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Prosiect Cefnogaeth Cenedlaethol (NSP)** | Meintiol | Ansoddol | Meintiol | Ansoddol | Meintiol | Ansoddol | Meintiol | Ansoddol |
| **1** | **Blynyddoedd Cynnar** | | ✓ | | ✓ | | | | ✓ |
| **2** | **Pobl Ifanc** | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| **3** | **Troseddwyr a chyn droseddwyr** | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| **4** | **Hyfforddiant a CPD** | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ |
| **5** | **Yr Iaith Gymraeg** | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| **6** | **ESOL / EAL** | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| **7** | **Grwpiau mewn perygl o allgáu cymdeithasol** | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| **8** | **Addewid y Cyflogwr - Gweithle** | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **9** | **Llythrennedd Ariannol** | | ✓ | | ✓ | | | | ✓ |
| **10** | **Prosiectau wedi'i harwain gan y Sector Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)** | | ✓ | | ✓ | | | | ✓ |
| **11** | **Oedolion sy'n Dysgu** | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| **12** | **Ceiswyr Gwaith** | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| **13** | **Gweithgaredd Arall** | | ✓ | | | | | | ✓ |

**Tabl 18 Cyfrifoldebau a Chostau'r Prosiect 2006/07**

| **Costau** | MR [66] | OB3 [67] | Dateb | DR | CC | JT | B'fort [68] [69] | WERU | Dydd | £ [70] | Treuliau [71] | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2006/07 | | | | | | | | | | | | |
| **Gwaith Paratoadol** | | | | | | | | | | | | |
| Cyfarfod Dechreuol | 2 | 1 | 1 | | | | 1 | | 5 | 2625 | | |
| Cyfarfod Mewnol y Tîm | 1.5 | 1 | 0.5 | 0.5 | 0.5 | 0.5 | 0.5 | | 5 | 2625 | | |
| Gweithdy Cychwynnol gyda'r ASS a'r Partneriaid Cyflenwi | 3 | 1 | 1 | | 1 | | | | 6 | 3150 | | |
| **Gwerthuso Strategol** | | | | | | | | | | | | |
| Adolygu Polisi | | 15 | | | | | | | 15 | 7875 | | |
| Cyfweliadau Rhanddeiliaid | 8 | 6 | 5 | 4 | 5 | 2 | | | 30 | 15750 | | |
| **Gwerthuso Rheolaeth Cyflenwi** | | | | | | | | | | | | |
| Cyfweliadau gyda Staff ASS a Chontractwyr Cyflenwi | 8 | 5 | 5 | | 5 | 3 | | | 26 | 13650 | | |
| Dogfennaeth Strategaeth / Adolygiad MIS | 4 | 2 | 2 | | 2 | 1 | | | 11 | 5775 | | |
| **Gwerthuso'r Effaith ar Fuddiolwyr** | | | | | | | | | | | | |
| **Asesu'r Gwrthffeithiol** | | | | | | | | 9 | 9 | 4725 | | |
| **Rheoli ac Adrodd** | | | | | | | | | | | | |
| Adroddiad Dechreuol | 1 | | | | | | | | 1 | 525 | | |
| Adroddiad Gweithdy ASS / NSP | 1 | | | | | | | | 1 | 525 | | |
| Rheoli'r Prosiect, Gweinyddiaeth y Wefan a Chyfarfodydd | 7 | 1 | 1 | | | | | | 9 | 4725 | | |
| Is-gyfanswm | 35.5 | 32.0 | 15.5 | 4.5 | 13.5 | 6.5 | 1.5 | 9.0 | 118 | 61950 | 4956 | 66906 |

[66] Miller Research (UK) Ltd
[67] Old Bell 3 Ltf
[68] Beaufort Research Ltd
[69] Cost uned wedi'i ddyrannu'n fras i'r hyn sy'n gyfwerth â diwrnod
[70] Cyfraddau ddyddiol £525 y diwrnod
[71] Amcangyfrif fel 8% o gost y prosiect

## Tabl 19 Cyfrifoldebau a Chostau'r Prosiect 2007/08

| **Costau** | MR | OB3 | Dateb | DR | CC | JT | Beaufort | WERU | Dyddiau | £[72] | Treuliau | Cyfanswm 2007/08 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerthuso Rheolaeth Cyflenwi** | | | | | | | | | | | | |
| Adolygu Gwybodaeth Ystadegol Llinell Sylfaen | | | 12 | | | | | | 12 | 6492 | | 6300 |
| Adolygiad Cychwynnol o Fonitro Penodol NSP / Gwerthuso Data | 8 | 5 | 5 | | 4 | 2 | | | 24 | 12984 | | |
| **Gwerthuso'r Broses** | | | | | | | | | | | | |
| Adolygiad ar y gweill o Fonitro Penodol NSP / Gwerthuso Data | 8 | 5 | 5 | | 4 | 2 | | | 24 | 12984 | | |
| Cyfweliadau Meintiol â Buddiolwyr y Cynllun Cyflenwi | 30 | 25 | 25 | 9 | 9 | 9 | | | 107 | 57887 | | |
| **Gwerthuso'r Effaith ar Fuddiolwyr** | | | | | | | | | | | | |
| Arolwg Meintiol o 600 o Oedolion sy'n Dysgu ar Safleoedd y Darparwyr Safleoedd | | | | | | | 47 | | 46 | 24886 | | |
| Arolwg Ansoddol o 60 o Oedolion sy'n Dysgu ar Safleoedd y Darparwyr | 10 | 10 | 10 | | | | | | 30 | 16230 | | |
| Asesu'r Gwrthffeithiol | | | | | | | | 9 | 9 | 4869 | | |
| **Rheoli ac Adrodd** | | | | | | | | | | | | |
| Gweithdy'r Tîm Mewnol | 1.5 | 1 | 0.5 | 0.5 | 0.5 | 0.5 | 0.5 | | 5 | 2705 | | |
| Adroddiad Gwerthuso Strategol | 5 | | | | | | | | 5 | 2705 | | |
| Adroddiad Effeithiolrwydd Rheolaeth | 5 | | | | | | | | 5 | 2705 | | |
| Adroddiad Gwerthuso LLinell Sylfaen | 10 | 5 | 5 | 3 | 5 | 3 | | | 31 | 16771 | | |
| Rheoli'r Prosiect, Gweinyddiaeth y Wefan a Chyfarfodydd | 22 | 3 | 3 | | | | | | 28 | 15148 | | |
| | 99.5 | 54 | 65.5 | 12.5 | 22.5 | 16.5 | 61 | 9 | 338 | 183038 | 14643 | 197681 |

[72] Cyfraddau Dyddiol £540.75 y diwrnod

**Tabl 20 Cyfrifoldebau a Chostau'r Prosiect 2008/09**

| **Costau** 2008/09 | MR | OB3 | Dateb | DR | CC | JT | Beaufort | WERU | Dyddiau | £[73] | Treuliau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerthuso Rheolaeth Cyflenwi** | | | | | | | | | | | | |
| Adolygiad o Fonitro / Data Gwerthuso Penodol NSP | 8 | 5 | 5 | | 4 | 2 | | | 24 | 13356 | | |
| **Gwerthuso'r Broses** | | | | | | | | | | | | |
| Cyfweliadau Ansoddol gyda buddiolwyr y Cynllun Cyflenwi | 10 | 5 | 5 | 3 | 3 | 3 | | | 29 | 15689 | | |
| **Gwerthuso'r Effaith ar Fuddiolwyr** | | | | | | | | | 0 | | | |
| Arolwg Meintiol o 600 o Oedolion sy'n Dysgu ar Safleoedd Darparwyr | | | | | | | 46 | | 46 | 24000 | | |
| Arolwg Ansoddol o 60 o Oedolion sy'n Dysgu ar Safleoedd Darparwyr | 10 | 10 | 5 | | 5 | | | | 30 | 16695 | | |
| Arolwg Ansoddol o 18 o Rieni Myfyrwyr | 3 | 3 | 1.5 | | 1.5 | | | | 9 | 5009 | | |
| Arolwg Meintiol o 1200 Athrawon Ysgolion Uwchradd mewn ardaloedd astudiaethau achos | | | | | | 19 | | 19 | 100 | | | |
| Grwpiau Ffocws Bach gyda Myfyrwyr Cymraeg eu hiaithx4 | | | | | | | 16 | | 16 | 8367 | | |
| Grwpiau Ffocws Bach gyda Myfyrwyr ESOL / EAL x4 | | | | | | | 16 | | 16 | 8367 | | |
| Grwpiau Ffocws Bach gyda Myfyrwyr o Gategori Perygl o allgáu cymdeithasol x6 | | | | | | | 24 | | 24 | 12550 | | |
| Asesu'r Gwrthffeithiol | | | | | | | | 9 | 9 | 5009 | | |
| **Rheoli ac Adrodd** | | | | | | | | | | 0 | | |
| Adroddiad Hanner Tymor | 10 | 5 | 5 | | | | | | 20 | 11130 | | |
| Rheoli'r Prosiect, Gweinyddu'r Wefan a Chyfarfodydd | 20 | 2 | 2 | | | | | | 24 | 13356 | | |
| Is-gyfanswm | 61 | 30 | 23.5 | 3 | 13.5 | 5 | 121 | 9 | 266 | 147774 | 11822 | 159595 |

---

[73] Cyfraddau Dyddiol £556.50


**Tabl 21 Cyfrifoldebau a Chostau'r Prosiect 2009**

| 2009/10 | **Costau** | MR | OB3 | Dateb | DR | CC | JT | Beaufort | WERU | Days | £[74] | Expenses | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ailymweld â Gwerthusiad Strategol** | | | | | | | | | | | 0 | | |
| | Diweddariad Polisi | | 5 | | | | | | | 5 | 2861 | | |
| | Cyfweliadau Rhanddeiliaid | 8 | 6 | 5 | 5 | 3 | 2 | | | 29 | 16595 | | |
| **Gwerthuso'r Broses** | | | | | | | | | | | | | |
| | Adolygiad o Fonitro / Data Gwerthuso Penodol NSP | 8 | 5 | 5 | | 4 | 2 | | | 24 | 13734 | | |
| | Cyfweliadau Ansoddol gyda Buddiolwyr y Cynllun Cyflenwi | 20 | 15 | 15 | 6 | 9 | 6 | | | 71 | 40630 | | |
| **Gwerthuso'r Effaith ar Fuddiolwyr** | | | | | | | | | | | 0 | | |
| | Profion ac Arolwg Meintiol yn y Cartref o 400 o Oedolion | | | | | | | 59 | | 59 | 31190 | | |
| | Arolwg Meintiol yn y Cartref o 42 o Oedolion | 7 | 7 | 7 | | | | | | 21 | 12017 | | |
| | Asesu'r Gwrthffeithiol (WERU) | | | | | | | | 29 | 29 | 15225 | | |
| **Rheoli ac Adrodd** | | | | | | | | | | | 0 | | |
| | Adroddiad Gwerthusiad Terfynol | 20 | 10 | 10 | | | | | | 40 | 22890 | | |
| | Rheoli'r Prosiect, Gweinyddu'r Wefan, Cyfarfodydd | 20 | 2 | 2 | | | | | | 24 | 13734 | | |
| | Is-gyfanswm | 83 | 50 | 44 | 11 | 16 | 10 | 59 | 29 | 302 | 168877 | 13510 | 182387 |
| | | | | | | | | | | | 0 | | |
| | **Cyfanswm y Prosiect** | **279** | **166** | **148.5** | **31** | **66** | **38** | **242** | **56** | **1024** | 561638 | **44931** | **606569** |

[74] Cyfraddau Dyddiol £572.25


**Ffigur 9 Cynllun Prosiect 2006 / 2007**

| ID | Enw'r Dasg |
|---|---|
| 1 | **2006/07** |
| 2 | **Gwaith Paratoi 2006/07** |
| 3 | Cyfarfod Dechreuol |
| 4 | Cyfarfod Mewnol y Tîm |
| 5 | Gweithdy Cychwynnol gyda'r ASS a'r Partneriaid Cyflenwi |
| 6 | **Gwerthuso Strategol** |
| 7 | Adolygiad Polisi |
| 8 | **Cyfweliadau Rhanddeiliaid** |
| 9 | Topic Guide Development |
| 10 | Identification of Stakeholder contacts |
| 11 | Fieldwork |
| 12 | **Gwerthuso Rheoli Cyflenwi** |
| 13 | Gweithdy Cychwynnol gyda staff yr ASS a Phartneriaid Cyflenwi |
| 14 | Dogfennaeth y Strategaeth / Adolygiad MIS |
| 15 | **Gwerthuso'r Effaith ar Fuddiolwyr** |
| 16 | Asesu'r Gwrthffeithiol |
| 17 | **Rheoli a Chyflwyno Adroddiadau** |
| 18 | Adroddiad Dechreuol |
| 19 | Adroddiad Gweithdy ASS / NSP |
| 20 | Rheoli'r Prosiect, Gweinyddu'r Wefan a Chyfarfodydd |




**Ffigur 10 Cynllun Prosiect 2007 / 2008**

| ID | Enw'r Dasg |
|---|---|
| 1 | **2007/08** |
| 2 | **Gwerthuso Rheoli Cyflenwi** |
| 3 | Adolygu Gwybodaeth Ystadegol y Linell Sylfaen |
| 4 | Adolygu Monitro / Data Gwerthuso Penodol NSP |
| 5 | **Gwerthuso'r Broses Gyflenwi** |
| 6 | Adolygu Monitro / Data Gwerthuso Penodol NSP |
| 7 | Cyfweliadau Ansoddol gyda Buddiolwyr y Cynllun Cyflenwi |
| 8 | **Gwerthuso Effaith ar Fuddiolwyr** |
| 9 | Arolwg Meintiol o 600 o Oedolion sy'n Dysgu ar Safleoedd Darparwyr |
| 10 | Arolwg Ansoddol o 60 o Oedolion sy'n Dysgu ar Safleoedd Darparwyr |
| 11 | Arolwg Meintiol o 600 o Athrawon Ysgolion Cynradd mewn Ardaloedd Astudiaethau Achos |
| 12 | Asesu'r Gwrthffeithiol |
| 13 | **Rheoli a Chyflwyno Adroddiadau** |
| 14 | Adroddiad Gwerthuso Strategol |
| 15 | Adroddiad Effeithiolrwydd Rheoli |
| 16 | Gweithdy Tîm Mewnol |
| 17 | Adroddiad Gwerthuso'r Llinell Sylfaen |
| 18 | Rheoli'r Prosiect, Gweinyddu'r Wefan a Chyfarfodydd |




**Ffigur 11 Cynllun Prosiect 2008 / 2009**

| ID | Enw'r Dasg |
|---|---|
| 1 | **2008/09** |
| 2 | **Gwerthuso Rheolaeth Cyflenwi** |
| 3 | Addygiad o Fonitro / Data Gwerthuso Penodol NSP |
| 4 | **Gwerthuso Effaith ar Fuddiolwyr** |
| 5 | Grwpiau Ffocws Bach gyda Myfyrwyr Cymraeg eu Hiaith x4 |
| 6 | Grwpiau Ffocws Bach gyda'r rhai sy'n dysgu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill x4 |
| 7 | Grwpiau Ffocws Bach gyda Myfyrwyr o Gategori Perygl o Allgáu Cymdeithasol x6 |
| 8 | Arolwg Meintiol o 600 o Oedolion sy'n Dysgu ar Safleoedd Darparwyr |
| 9 | Arolwg Ansoddol o 60 o Oedolion sy'n Dysgu ar Safleoedd Darparwyr |
| 10 | Arolwg Ansoddol o 18 o Rieni sy'n Dysgu |
| 11 | Asesu'r Gwrthffeithiol |
| 12 | **Rheoli a Chyflwyno Adroddiadau** |
| 13 | Adroddiad Canol Tymor |
| 14 | Rheoli'r Prosiect, Gweinyddu'r Wefan a Chyfarfodydd |



**Ffigur 12 Cynllun Prosiect 2009 / 2010**

| ID | | Enw'r Dasg |
|---|---|---|
| 1 | | **2009/2010** |
| 2 | | **Gwerthuso Strategol** |
| 3 | | Diweddaru Polisi |
| 4 | | Cyfweliadau Rhanddeiliaid |
| 5 | | **Gwerthuso Rheoli Cyflenwi** |
| 6 | | Adolygiad o Fonitro / Data Gwerthuso Penodol NSP |
| 7 | | **Gwerthuso'r Broses Gyflenwi** |
| 8 | | Cyfweliadau Ansoddol gyda Buddiolwyr y Cynllun Cyflenwi |
| 9 | | **Gwerthuso Effaith ar Fuddiolwyr** |
| 10 | | Profion ac Arolwg Meintiol yn y Cartref o 400 o Oedolion |
| 11 | | Arolwg Ansoddol yn y Cartref o 42 o Oedolion |
| 12 | | Asesu'r Gwrthffeithiol (WERU) |
| 13 | | **Rheoli a Chyflwyno Adroddiadau** |
| 14 | | Adroddiad Gwerthuso Terfynol |
| 15 | | Rheoli'r Prosiect, Gweinyddu'r Wefan a Chyfarfodydd |



## Atodiad 1 Gwersi Ymchwil Diweddar i Fethodoleg

### 1. Cyflwyniad

Bwriad y papur byr hwn a ysgrifennwyd yng nghyfnod cynnar datblygiad y broses gwerthuso, yw adolygu peth o'r dystiolaeth ddiweddar ynglŷn â "beth sy'n llwyddo" yn nhermau ymchwil i effaith sgiliau sylfaenol ar gyrhaeddiad sgiliau sylfaenol ac ar y deilliannau economaidd a chymdeithasol ehangach a ddymunir, fel cynnydd yng ngraddfeydd gweithgaredd economaidd, gwell canlyniadau yn nhermau cyflogaeth a gwell iechyd. Yn gyntaf mae'n adolygu gwaith diweddar yn y maes hwn (gwaith wedi'i gwblhau a gwaith sydd ar y gweill) ac yna'n symud ymlaen i ystyried beth yw goblygiadau hyn i fethodoleg gwerthuso ail gyfnod Strategaeth Sgiliau Sylfaenol yng Nghymru. Mae'r papur yn canolbwyntio ar elfennau o'r strategaeth sy'n ymwneud ag oedolion: yn ymarferol, hyd yn oed oddi fewn i oes pedair blynedd y gwerthuso hwn, dim ond ar gyfer oedolion y mae deilliannau ehangach darpariaeth sgiliau sylfaenol yn debyg o gael eu dilyn.

Mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r papur hwn yn adolygiad llenyddol ffurfiol, ond yn hytrach yn bapur cwmpasu wedi'i seilio ar adolygiad dethol o lenyddiaeth berthnasol. Mae'r astudiaethau a adolygwyd fel sail i'r papur hwn fel a ganlyn:

- Literature Review of the Effects of Improvements In Adult Basic Skills (McIntosh, Canolfan Perfformiad Economaidd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2004)
- Arolwg Cenedlaethol Sgiliau Sylfaenol yng Nghymru (BMRB, i'r ASS, 2004)
- Evaluation of the Impact of Basic Skills Learning: Report on WAVE 1 (Meadows a Metcalf, NIESR, i'r DfES, 2004)
- Evaluation of the Impact of Basic Skills Learning: Report on Sweep 2 (Meadows a Metcalf, NIESR, i'r DfES, 2005)
- Measuring Basic Skills for Longtitudinal Study: The design and development of instruments for use with cohort members in the age 34 follow-up in the 1970 British Cohort Study (BCS 70) (Bynner a Parsons, NRDC, 2005)
- New Light on Literacy and Numeracy: Results of the Literacy and Numeracy Assessment in the Age 34 Follow-up of the 1970 Cohort Study (BCS70) (Bynner a Parsons, NRDC, 2005)
- Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003 (Experian/Mori i Sgiliau Dyfodol Cymru, 2004)
- The Benefits to Employers of Raising Workforce Basic Skills: A Review of the Literature (Ananiadou, Jenkins a Wolf, NRDC, 2003)
- Does Numeracy Matter More (Bynner and Parsons, NRDC, 2005).
- Basic Skills Strategy Evaluation: Main Report (York Consulting, 2005)

Rydym hefyd wedi cael gair byr gyda Richard White a John Doherty yn y DfES ynglŷn ag astudiaeth NIESR.

## 2. Y Man Cychwyn: Y "senario delfrydol" a'r ymchwil gorffenedig a gyhoeddwyd hyd yn hyn

Wrth gyflwyno ei adolygiad llenyddol, mae McIntosh yn dechrau drwy amlinellu model o beth yn ddelfrydol sydd ei angen gan astudiaeth er mwyn dangos a mesur mewn ffordd gynhwysfawr effaith gwelliannau mewn cyraeddiadau sgiliau sylfaenol ar ddeilliannau cymdeithasol ac economaidd perthnasol, tebyg i ganlyniadau cyflogaeth. Mae'n dadlau tra bod **cydgysylltiad** sgiliau sylfaenol gwael gyda nifer o nodweddion perthnasol tebyg i raddfeydd diweithdra sy'n uwch na'r cyfartaledd a diffyg gweithgaredd economaidd, cyflog isel ac iechyd gwael, wedi'i ddangos gan ymchwil sy'n bodoli eisoes, nid yw'r darganfyddiadau hyn yn profi achosiaeth ynddynt eu hunain (gan fod sgiliau sylfaenol gwael a nodweddion eraill a nodwyd yn gallu bod yn ganlyniad i nodweddion nas nodwyd), yn llai fyth y byddai gwella perfformiad sgiliau sylfaenol felly'n arwain at wella canlyniadau eraill. Mae'n mynd ymlaen i ddadlau y byddai astudiaeth ddelfrydol yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Profi'n wrthrychol gallu sgiliau sylfaenol sampl mawr o fyfyrwyr sgiliau sylfaenol cyn iddynt ddechrau dysgu sgiliau sylfaenol;

- Profi'n wrthrychol, gan ddefnyddio'r un profion, sampl o fyfyrwyr sgiliau sylfaenol ar ddiwedd eu cwrs dysgu, er mwyn mesur os yw eu sgiliau sylfaenol wedi gwella ai peidio;

- Wedi mesur gwelliant gwrthrychol mewn perfformiad sgiliau sylfaenol, archwilio'r effaith yn nhermau deilliannau perthnasol ehangach (e.e. cyflogaeth neu gyflogau) drwy sylwi ar y canlyniadau hyn dros gyfnod o amser.

- Dilysu priodoldeb y gwelliannau a nodwyd mewn perfformiad sgiliau sylfaenol ac mewn deilliannau ehangach eraill i ymyrraeth benodol drwy gymharu â grŵp rheolydd, sydd ddim yn ymwneud â dysgu sgiliau sylfaenol, drwy eu profi ar yr un pwyntiau a chymharu unrhyw newidiadau yn eu perfformiad sgiliau sylfaenol ac yn y deilliannau ehangach gyda rhai o'r prif sampl. I fod yn wirioneddol rymus, byddai angen cael dyraniad ar hap rhwng y prif sampl a'r grŵp rheolydd; ond yn ymarferol, byddai'n amhosibl cyflawni hyn, felly rhaid dewis grŵp rheolydd sy'n cydweddu cyn agosed â phosibl yn nhermau ystod eang iawn o nodweddion cefndir y sylwyd arnynt ac fel rheolydd nodweddion cyfnewidiol eraill gan ddefnyddio dadansoddiad atchweliad (dyna felly'r angen am sampl ar raddfa fawr).

Heb gynnal profion, y ddadl yw, y gall newidiadau a welir mewn canlyniadau eraill fod yn ganlyniad manteision eraill o ddilyn cwrs Sgiliau Sylfaenol (e.e. rhyngweithio cymdeithasol, cynnydd mewn hyder) yn fwy na chynnydd mewn Sgiliau Sylfaenol ynddo ei hun. Yn y cyd-destun hwn mae'n werth nodi fod y dystiolaeth yn awgrymu:

- Fod pobl yn gyffredinol ddim yn llawn werthfawrogi neu'n tan gyflwyno eu methiannau mewn sgiliau sylfaenol: er enghraifft, darganfu BMRB fod 51% o'r rhai yn ôl y profion oedd a dim ond sgiliau llythrennedd ar lefel mynediad ganddynt, yn hawlio fod eu sgiliau darllen yn "dda iawn"; tra dim ond 7% o'r rhai yn y sampl oedd yn dweud fod safon bob dydd eu mathemateg yn "wan", dim ond sgiliau rhifyddeg safon mynediad oedd gan 53% ohonynt – gyda 27% ar Lefel Mynediad 2 neu'n is. Mae NRDC yn adrodd fod astudiaethau *Cohort* yn y DU wedi darganfod yn gyson mai dim ond 3 – 4% oedd yn cydnabod fod ganddynt drafferthion darllen, tra yr oedd profion gwrthrychol o 10% o sampl Astudiaeth y *British Cohort* yn 1991 ac yn 2000, y naill a'r llall, wedi darganfod fod 24% a 22% â safon llythrennedd isel neu isel iawn.

- Nad yw amgyffred myfyrwyr sgiliau sylfaenol am faint mae eu sgiliau wedi gwella yn cyd-fynd yn agos â chanlyniadau a ddilyswyd gan y profion: darganfu NIESR fod profion a roddwyd i gyfranogion sgiliau sylfaenol yn gynnar wedi iddynt ymuno â'r cwrs yn dangos 12 mis yn ddiweddarach eu bod yn dal i fod ar yr un lefel mewn llythrennedd a rhifyddeg (er, yn rhannol fod y canlyniadau siomedig hyn i'w priodoli i'r ffaith nad oedd y profion bach a ddefnyddiwyd wedi'u cynllunio i fesur cynnydd yn gymaint â lefel) tra roedd 88% yn credu fod eu sgiliau wedi gwella, 65% yn credu "eu bod yn well o lawer".

Mae McIntosh, fodd bynnag, yn nodi nad oedd "yr un astudiaeth oddi fewn i'r llenyddiaeth yn cyfateb â'r ddelfryd hon" ac yn priodoli hyn i'r anhawster (a'r gost) o ymgymryd â phrofion sgiliau sylfaenol ar raddfa digon eang i ddarparu canlyniadau cadarn. Mae'n dadlau, fodd bynnag, "*y gellid ymgymryd ag astudiaeth ar raddfa fach, gan ystyried y cyfranogion sydd ar gwrs astudiaeth sengl, hwyrach gan ddefnyddio profion wedi'u gweinyddu yn y fan ble cynhelir eu hastudiaethau, os gellid sicrhau caniatâd i ddefnyddio'r fath wybodaeth*" (er bod hyn braidd yn osgoi'r anhawster i ba raddau y byddai'n bosibl rheoli rhif digon mawr o newidynnau posibl eraill).

Yn gyffredinol, mae McIntosh yn casglu fod "*y dystiolaeth yn siomedig o fach*". Dim ond un astudiaeth ar raddfa fawr y darganfu'r adolygiad o'r llenyddiaeth (gan Brooks *et al* ar Cynnydd mewn Llythrennedd Oedolion [Progress in Adult Literacy]) wnaeth asesu'n gadarn y cynnydd mewn cyrhaeddiad sgiliau sylfaenol o ganlyniad i gyfranogi mewn dysgu sgiliau sylfaenol – ond nid oedd yr astudiaeth hon yn defnyddio grŵp rheolydd. Roedd hyn yn cytuno, i ryw raddau, â darganfyddiadau NIESR uchod, a darganfu fod y ganran uchaf o fyfyrwyr (41% i gyd) yn dangos dim newid o gwbl yn eu lefel o sgiliau darllen a aseswyd, er yn gyffredinol, roedd cynnydd ystadegol arwyddocaol mewn llythrennedd, gyda 37% wedi gwella'u perfformiad o'u gymharu â 22% a ddangosodd eu bod o leiaf un lefel islaw'u cyrhaeddiad ynghynt ar y cwrs.

Yn nhermau effaith gwelliant sgiliau sylfaenol ar ganlyniadau economaidd a di-economaidd, mae McIntosh yn dyfynnu fel "*un o astudiaethau gwerthuso cyrsiau sgiliau sylfaenol mwyaf gofalus sydd ar gael"* gwerthusiad meintiol cyrsiau Pathfinder Extension gan Bonjour a Smeaton (2003), sy'n cymharu deilliannau dysgu a chyflogaeth i gyfranogion o safbwynt

agweddau arbrofol tuag at ddysgu sgiliau sylfaenol gyda grŵp rheolydd nid o bobl nad oeddent yn fyfyrwyr ond rhai sy'n dilyn cyrsiau sgiliau sylfaenol confensiynol. Methodd yr astudiaeth â darganfod unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng y ddau grŵp yn nhermau deilliannau dysgu, ond gwahaniaeth arwyddocaol yn nhermau canlyniadau cyflogaeth. Y diddordeb yn yr astudiaeth hon yw eu bod wedi defnyddio grŵp rheolydd (er nad oedd yn un ble roedd rhai heb fod yn dysgu) a bod ymdrechion mawr wedi'u gwneud i sicrhau dilysrwydd y gymhariaeth rhwng y ddau grŵp drwy arwain dadansoddiad "cydweddu sgoriau tueddiad". Fodd bynnag, doedd yr astudiaeth ddim yn cynnwys profi gwelliant gwrthrychol y cyfranogion mewn sgiliau sylfaenol.

Ar wahân i hyn, mae McIntosh yn dyfynnu ymchwil ar y garfan o 1958 o unigolion oddi fewn i Astudiaeth Genedlaethol o Ddatblygiad y Plentyn [National Child Development Study - NCDS] (yn arbennig profi sampl o 10% ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn 1995) a'r Adolygiad Rhyngwladol Llythrennedd Oedolion [International Adult Literacy Survey] fel ffynonellau'r dystiolaeth am y cydgysylltiad (ond yn bendant nid y priodoldeb) rhwng sgiliau sylfaenol isel a deilliannau economaidd gwael a gwaith tynnu ar y NCDS ac Astudiaeth y *British Cohort* (BCS) i ddangos y cysylltiad rhwng sgiliau sylfaenol isel a chanlyniadau di-economaidd (yn arbennig gyda thystiolaeth gref o'r rhai gyda llythrennedd isel ac iechyd gwael a bod llythrennedd isel yn cael ei gysylltu â lefelau uwch o droseddu).

Er bod agwedd McIntosh hwyrach, yn un "perffeithydd", mae gwaith arall a adolygwyd yn cadarnhau ar y cyfan safbwynt y rhan fwyaf o astudiaethau fod effaith darpariaeth sgiliau sylfaenol wedi bod yn ansoddol ac wedi canolbwyntio ar gynnydd canfyddedig y myfyrwyr (o'i gymharu â chanlyniadau allanol dilys) ac, yn rhai achosion, deilliannau heb archwilio i ba raddau y gellid priodoli'r canlyniadau i'r ymyrraeth sydd ynghlwm (mewn geiriau eraill heb unrhyw asesiad o'r gwrthffeithiol). Mae Ananiadou *et al* wrth edrych ar gylchoedd penodol o adenillion i fasnach o fuddsoddi mewn sgiliau sylfaenol (ac edrych nid yn unig ar DU ond ar dystiolaeth ryngwladol) yn dod i'r casgliad fod "*ein gwybodaeth o sgiliau sylfaenol ac effeithiau sgiliau sylfaenol yn y gweithle yn ddarniog ac annigonol iawn. O gofio pwysigrwydd y pwnc, mae'n gwbl ryfeddol pa mor gyfyngedig yw ein hastudiaethau yn y maes hwn. Yn y bôn mae diffyg ymchwil da yn y maes yn deillio o absenoldeb data da, yn ansoddol ac yn feintiol.*"

**3. Astudiaethau Cyfredol**

Er mai dim ond dwy flynedd sydd ers pan ysgrifennodd McIntosh ei adolygiad o'r llenyddiaeth, daeth yn glir o ganlyniad i ymwybyddiaeth gynyddol ynglŷn â diffygion sylfeini ymchwil, fod yna nifer o astudiaethau cyfredol sy'n defnyddio technegau mwy soffistigedig i edrych ar effaith sgiliau sylfaenol gwael. Y ddau bwysicaf o'r rhain yw gwerthusiad cyfredol

NIESR o effaith Dysgu Sgiliau Sylfaenol (i DfES) a gwaith gan NRDC ar ddatblygu a chymhwyso profi sgiliau sylfaenol i garfan gyfan y BCS yn 2004. Edrychwn ar y ddau yma yn eu tro.

Comisiynwyd gwerthusiad NIESR gan DfES yn 2002 fel adolygiad eang i werthuso effaith y Rhaglen Sgiliau Bywyd yn Lloegr (ar y cyfan rhaglen debyg i Strategaeth Sgiliau Sylfaenol, ond wedi'i chyfyngu i oedolion sy'n dysgu). Digwyddodd y don gyntaf o'r ymchwil rhwng Medi 2002 a Gorffennaf 2003 (gyda'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn Medi 2004) a'r ail don yn digwydd rhwng Ionawr ac Awst 2004 (gyda'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn hwyr yn 2005). Digwyddodd y drydedd don (yn wreiddiol bwriadwyd i hon fod yr olaf) o ymchwil yn hanner cyntaf 2005, ond nid yw'r adroddiad wedi'i gyhoeddi eto, tra mae DfES wedi gwneud cytundeb ar ôl hynny i ymgymryd â phedwaredd don (bydd y canlyniadau yn annhebyg o ymddangos tan 2007). Yn allweddol, o ystyried yr hyn sydd yn Adran 2 uchod, mae'r gwerthusiad nid yn unig yn ystyried profiad, cynnydd a deilliannau sampl mawr o fyfyrwyr sgiliau sylfaenol (2,012 yn Nhon 1 o'r rhai y cafodd 1,094 eu hail gyfweld yn llwyddiannus ar gyfer Ton 2) ond hefyd grŵp rheolydd neu grŵp "cymharu" (2,255 yn Nhon 1 o'r rhai y cafodd 1,122 eu cyfweld yn llwyddiannus ar gyfer Ton 2).

Roedd dewis grŵp rheolydd ar gyfer gwaith NIESR mae'n amlwg yn drylwyr ac yn canolbwyntio ar gasglu grŵp cymharu o unigolion gyda sgiliau sylfaenol isel, a'u proffil ar y cyfan yn cydymffurfio â'r sampl o fyfyrwyr sgiliau sylfaenol gan ddefnyddio proses "cydweddu". Casglwyd y grŵp rheoli o dair ffynhonnell:

- Adolygiad Cenedlaethol o Oedolion sy'n Dysgu: 673 o unigolion a oedd wedi eu cyfweld cyn hyn ar gyfer yr adolygiad o'r boblogaeth gyfan ac a oedd - oherwydd eu cymwysterau a'u cyrhaeddiad addysgol – yn debyg o fod â sgiliau sylfaenol isel. Ailgysylltwyd â hwy a gwahoddwyd hwy i fod yn rhan o'r ymchwil. Cynhyrchodd hyn 429 o gyfweliadau yn y grŵp rheolydd.

- Astudiaeth Llinell Sylfaen Sgiliau Bywyd (astudiaeth debyg i Adolygiad Cenedlaethol Sgiliau Sylfaenol yng Nghymru): Ailgysylltwyd â 1,087 o unigolion a gafodd eu cyfweld a'u profi ynghynt ar naill ai Lefel Mynediad mewn rhifedd neu islaw Lefel 1 mewn llythrennedd a'u gwahodd i fod yn rhan o'r gwaith ymchwil. Cynhyrchodd hyn 759 o gyfweliadau yn y grŵp rheolydd.

- Sampl "rhwydd canfod" a seiliwyd ar sampl gwreiddiol o ddewis ar hap o gartrefi yn yr ardaloedd mwy difreintiedig, gan sgrinio am unigolion sydd â sgiliau sylfaenol isel. I gyd, sgriniwyd mwy na 31,000 o unigolion mewn 19,000 o gartrefi am oedran, a chafodd 12,627 eu cyfweld i'w sgrinio am sgiliau sylfaenol, gan gynhyrchu 1,067 o gyfweliadau yn y grŵp rheolydd.

Yn nhermau methodoleg, dyma nifer o bwyntiau diddorol eraill:

- Mae'r astudiaeth yn cynnwys asesu ystod eang o effeithiau posibl, gan gynnwys statws cyflogaeth, enillion, bodlonrwydd â'r cyflog, dyrchafiad a sicrwydd gwaith, newid ym mynegai ymrwymiad i gyflogaeth, newid yn statws iechyd (datblygu neu gael gwared â chyflwr iechyd hir dymor; gwelliant neu ddirywiad mewn iechyd yn gyffredinol; ymweliadau â Meddyg Teulu etc) amgyffred o welliant mewn rhifedd a llythrennedd; newidiadau mewn boddhad â bywyd a hunan barch; newidiadau mewn mynegai ymrwymiad i addysg a hyfforddiant; cymorth roddir i blant i ddarllen neu i ddefnyddio'r cyfrifiadur.

- Sylfaenir y gwaith ymchwil i gyd ar gyfweliadau personol wyneb yn wyneb gyda chymorth cyfrifiadur (naill ai yn y cartref, neu i fyfyrwyr yn y don gyntaf yn y Coleg).

- Canolbwyntir y gwerthusiad yn unig ar fyfyrwyr sgiliau sylfaenol mewn lleoliadau Addysg Bellach. Yr amcan gwreiddiol oedd cynnwys oddi fewn i'r categori myfyrwyr, sampl o fyfyrwyr sgiliau sylfaenol oedd yn astudio cyrsiau ESF gydag elfen sylweddol o sgiliau sylfaenol oedd ar ddarpariaeth y talwyd amdano gan Ganolfan Byd Gwaith ac a oedd yn astudio drwy *Learndirect*. Fodd bynnag doedd dim cronfa ddata dibynadwy ar gyfer darparwyr *Learndirect* a'r niferoedd o fyfyrwyr sy'n astudio gyda hwy ar gael; yn ogystal dim ond 15% o ddarparwyr Canolfan Byd Gwaith (260 allan o 1,557) a atebodd yr holiadur gwreiddiol, gan arwain at bryder ynglŷn â dilysrwydd y sampl o fyfyrwyr. Penderfynwyd felly i adael allan y ddwy ffynhonnell hon o ddarpariaeth cyn crynhoi'r sampl. Rhoddwyd y gorau hefyd i gyrsiau ESF yn ddiweddarach fel ffynonellau myfyrwyr, oherwydd o'r 60 o ddarparwyr oedd yn ymddangos yn berthnasol oedd yn y sampl, dim ond 4 oedd yn gymwys ac yn barod i gymryd rhan.

- Canolbwyntiwyd y gwerthusiad ar unigolion o oed gwaith yn unig (oherwydd y diddordeb mewn canlyniadau economaidd). Gan adlewyrchu sylfaen Addysg Bellach, darganfu'r don gyntaf fod y mwyafrif llethol o fyfyrwyr Sgiliau Bywyd yn Lloegr (68%) yn y grŵp oedran 16 - 18. Roedd yn rhaid i'r astudiaeth felly dan samplo'r oedran o 16 - 19.

- Mae'r gwerthusiad wedi gorfod cynnwys profi'r unigolion yn annibynnol i fesur eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Seiliwyd hyn ar brofion a ddyfeisiwyd ar gyfer Sgiliau Bywyd (Lloegr)/ Adolygiad Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol (Cymru) gan adolygiadau'r Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Dysgu Gydol Oes (CDELL) ym Mhrifysgol Nottingham. Fodd bynnag, oherwydd pryderon am hyd y cyfweliadau defnyddiwyd fersiwn fyrrach o'r profion – gyda phrawf llythrennedd a rhifedd ar y cyd yn para chwarter awr. Mae'n ymddangos bod rhai pryderon ynglŷn ag oedd y prawf, o ganlyniad, yn ddigonol i olrhain newidiadau cynnil mewn lefelau llythrennedd a rhifedd (gweler isod).

Er bod y ddau adroddiad hyd yn hyn yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth ar nodweddion myfyrwyr a'r sampl rheoli, nid oedd yr Ail Don yn gallu adrodd ar unrhyw ddarganfyddiadau mawr yn nhermau effeithiau ar gyflogaeth. Er bod cynnydd arwyddocaol mewn cyflogaeth ymhlith y grŵp a samplwyd (o 19% i 33% yn nhermau rhai sy'n cael eu cyflogi'n llawn amser), roedd hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu'r don gyntaf o gyfweleion oedd a'u haddysg llawn amser yn dod i ben ac yr oedd yr effaith gadarnhaol yn diflannu o'i gymharu â'r grŵp rheolydd oedd yn defnyddio cydweddu sgoriau tueddiad (techneg i addasu'r gwahaniaethau yn y samplau).

Yn wir, dim ond nifer bach o ganlyniadau ble roedd y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol ar lefel 5% a ddarganfu'r adroddiad. Roedd y rhain yn cyfeirio'n bennaf at welliant oedd yn cael ei amgyffred mewn llythrennedd a rhifedd, y newid mewn ymrwymiad i addysg a hyfforddiant, ac i wragedd, cynnydd mewn hunan barch a bodlonrwydd gyda bywyd a gwelliant mewn iechyd.

Fodd bynnag, mae'r awduron yn pwysleisio nad oeddent yn disgwyl gweld effeithiau arwyddocaol ar y cam yma (yn bennaf gan fod 33% o'r cyfweleion yn dal i fod ar eu cwrs pan gynhaliwyd cyfweliad yr ail don, gyda 19% wedi "syrthio allan" a dim ond 48% wedi cwblhau'r cwrs).

Mae'r adroddiad yn amlygu fod buddiannau sy'n cael eu hamgyffred (yn nhermau cyflogaeth, er enghraifft, yn ogystal â gwelliant mewn sgiliau gwirioneddol) a ddeilliodd o fod yn rhan o gwrs sgiliau sylfaenol yn uwch na'r gwir fuddiannau a aseswyd gan y tîm ymchwil wrth ddefnyddio grŵp cymharu. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at lefel isel y cynnydd mewn sgiliau gan y sampl: roedd dwy ran o dair wedi aros ar yr un lefel mewn llythrennedd a rhifedd, gyda thua un ymhob pump yn sgorio'n uwch a chyfran debyg yn cael sgoriau is. Mae'r awduron yn nodi ei bod "*yn bwysig i sylweddoli fod y profion a ddatblygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon ... yn fyr a chyfyngedig. Y prif bwrpas oedd gweithredu fel dyfais sgrinio i sicrhau fod y rhai yn y grŵp rheolydd yn cael problemau gyda llythrennedd a rhifedd (ac yn yr un ffordd i gadarnhau fod y rhai oedd yn y grŵp myfyrwyr ag anghenion y gellid eu hadnabod, nid diffyg cymwysterau'n unig). Roedd hi felly'n bwysig eu bod yn adnabod trothwy uchaf swyddogaeth llythrennedd a rhifedd na'u bod yn adnabod yn gywir y graddau oedd yn is na'r trothwy."* Mae hyn hwyrach yn dod yn agos at awgrymu nad yw'r profion yn gweddu i'r pwrpas o fesur cynnydd y myfyriwr. Mae hefyd yn ddiddorol, yn groes i fodel "delfrydol" Mcintosh, na fu ail brawf ar y grŵp rheolydd yn nhon 2.

Yr ail astudiaeth berthnasol gyfoes yw un yr NRDC sy'n edrych ar brofiad y sgiliau sylfaenol oddi fewn i'r *British Cohort Study* yn 1970. Mae NRDC wedi datblygu cyfres newydd o brofion sy'n addas ar gyfer astudiaethau eang o lythrennedd a rhifedd, ac maent wedi defnyddio'r rhain i roi prawf ar garfan gyfan y BCS yn 2004.

Yn "*Measuring Basic Skills for Longtitudinal Study*", mae Bynner a Parsons yn gosod allan y fethodoleg a ddefnyddiwyd i ddatblygu cyfres o gyfryngau ar gyfer profi sgiliau llythrennedd a rhifedd oedolion a phlant. Roedd y gwaith datblygu'n cynnwys datblygu a chynnal peilot:

- o Holiadur ar anawsterau a fynegwyd gan yr unigolyn amdano'i hun h.y. ystyried barn y cyfwelai o'i sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mewn arolygon cyn hyn gyda'r BCS ac Astudiaeth Carfan 1958 (NCDS) roedd cwestiynau am anawsterau gyda darllen, ysgrifennu a rhifau yn cynnwys cwestiwn uniongyrchol am anawsterau ("Ers gadael ysgol ydych chi wedi cael anawsterau gyda darllen?" "Ers gadael ysgol ydych chi wedi cael unrhyw broblemau gydag ysgrifennu a sillafu?" Ers gadael ysgol ydych chi wedi cael problemau gyda gwaith rhif a mathemateg sylfaenol?") yn cael ei ddilyn gan gwestiwn sgrinio ynglŷn ag anawsterau gyda darllen, ysgrifennu a rhifau (e.e. "Fedrwch chi ysgrifennu llythyr i gyfaill i ddiolch iddo am y rhodd neu i'w wahodd i ymweld â chi; Pan fyddwch yn prynu pethau mewn siopau gyda phapur pump neu ddeg punt, fedrwch chi fel arfer ddweud os ydych chi wedi cael y newid cywir?") Dim ond y rhai hynny oedd yn arwyddo fod ganddynt broblem gafodd eu holi ymhellach i archwilio maint a natur eu problem. Yn achos astudiaeth 2004, penderfynodd NRDCC i ofyn i bob cyfwelai ystod o gwestiynau oedd wedi'u cynllunio i archwilio os oeddent yn cael trafferthion ymarferol gyda thasgau bob bydd na fyddent yn broblem i'r rhai hynny oedd â llythrennedd a rhifedd gweithredol (e.e. "Fedrwch chi fel arfer ddarllen neu ddeall unrhyw waith papur neu ffurflenni a fyddai'n dod i'ch dwylo fel rhan o'ch gwaith?" [ateb: fedraf, na fedraf, gyda chryn anhawster] "Pan fyddwch yn ceisio ysgrifennu rhywbeth, ydych chi'n cael anhawster i sillafu rhai geiriau'n gywir?" [ydwyf, nac ydwyf]; " Ydych chi'n cael trafferth ambell dro gyda symiau tynnu - hynny ydy tynnu un rhif oddi wrth un arall?" [bob amser, weithiau, nac ydwyf]).

- o Prawf 40 munud ar lythrennedd a rhifedd (30 munud) a dyslecsia (10 munud) wedi'i seilio ar ddewis amrywiol a chwestiynau ymateb agored. Datblygwyd gan NCDR drwy dynnu'n gryf ar gwestiynau a ddefnyddiwyd gan BMRB mewn Astudiaethau Llinell Sylfaen yn Lloegr a Chymru (i sicrhau y byddai'r canlyniadau'n cael eu mapio yn erbyn canfyddiadau'r Arolygon hynny), yn ogystal â chwestiynau a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau cynt o sgiliau sylfaenol mewn 10% o samplau gan ddwy Astudiaeth Carfan (yn 1991 a 1995). Roedd cynnwys y cwestiynau ymateb agored a gymerwyd o astudiaethau carfan cynharach wedi'i gynllunio i alluogi cymhariaeth eang gyda chanlyniadau arolwg 1991 - gan adael yr elfen hon o'r neilltu, parhaodd y prawf ar gyfartaledd tua 22 funud. Roedd y prawf llythrennedd yn cynnwys "prawf addasol" ble roedd y cyfweleion, ar ôl y set gychwynnol o gwestiynau sgrinio, yn cael eu cyfarwyddo i un o ddwy lefel wahanol o gwestiynau (un i rai ar lefel 1 neu 2 neu'n uwch, un ar gyfer y rhai hynny oedd yn is na Lefel 1): ar ôl cynllunio prawf peilot ar gyfer y prawf rhifedd, penderfynwyd y byddai un set o gwestiynau'n fwy addas ar gyfer pob un cyfwelai ar gyfer rhifedd. Bwriadwyd i'r profion gael eu gweinyddu gan dechnoleg Hunan Gyfweliad wedi'i gynorthwyo gan Gyfrifiadur, gyda'r cyfwelai'n ateb cwestiynau ar liniadur.

- o Set o gyfryngau ar gyfer cyfweld rhieni oddi fewn i'r garfan a'u plant fel rhan o'r astudiaeth rhwng cenedlaethau, sy'n cynnwys profion dirnadol i'r plant gan ddefnyddio profion wedi'u seilio ar Ail Argraffiad y Graddfeydd Gallu Prydeinig (BAS II).

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion llawn am y ffordd y datblygwyd yr offer a sut y cafodd y prawf peilot ei weithredu (yn gyntaf gyda sampl o'r boblogaeth gyfan ar hap ac wedyn yn benodol gyda sampl bach o Arolwg y *British Cohort,* 1970 eu hunain). Mae Bynner a Parsons yn pwysleisio mai canlyniadau'r gwaith oedd datblygu set o brofion cadarn y gellid eu defnyddio'n eang:

*"Nawr mae gennym gyfresi o offerynnau dibynadwy y gwyddom y gellid eu defnyddio'n effeithiol yn nhai pobl gan gyfwelwyr a gafodd eu hyfforddi mewn ffordd addas. ... prif amcanion yr adroddiad oedd dangos "addasrwydd i bwrpas" yn yr ymchwil a ymgymerwyd i gefnogi'r Strategaeth Sgiliau Bywyd a chyflenwi manylion y dyluniad a fydd o gymorth wrth ddehongli canlyniadau'r gwaith ymchwil. Mae'r adroddiad hefyd yn gweithredu fel llyfr ffynonellau i alluogi eraill i ddyblygu'r agwedd tuag at asesu dyluniad ar sampl newydd o oedolion a phlant. Yn gyffredinol mae'r gwaith datblygu wedi darparu sail i gyfraniad sylweddol i'r sylfaen wybodaeth y mae Sgiliau Bywyd yn y pendraw yn dibynnu arni."*

Nid yw canlyniadau llawn y defnydd o'r profion i BCS 1970 wedi'u cyhoeddi eto, ond mae adroddiad rhagbaratoawl (wedi'i seilio ar 7,180 o aelodau o'r garfan gychwynnol a gwblhaodd y broses – 369 ohonynt yng Nghymru) yn dangos rhai canlyniadau diddorol:

- Wrth symud y cwestiwn sgrinio dangosodd y rhagolwg raddau uwch o adroddiadau hunan fynegiant oedd yn cyfaddef anawsterau gyda llythrennedd a rhifedd. Roedd hyn yn llawer mwy tebyg i ganlyniadau profion gwrthrychol, gyda 8% yn adrodd fod ganddynt anhawster darllen, 25% yn adrodd fod ganddynt beth anhawster ysgrifennu ac 11% yn adrodd fod ganddynt beth anhawster gyda mathemateg/rhifau (o'i gymharu â 3%, 4% a 2% pan ofynnwyd i'r un garfan y cwestiynau sgrinio yn2000).

- Roedd Aelodau o'r Garfan yng Nghymru yn fwy tebyg o adrodd am anawsterau na'u cymheiriaid yn Lloegr a'r Alban (gyda 27% yn dweud fod ganddynt anawsterau gydag ysgrifennu a 14% anawsterau gyda rhifau, o'i gymharu, er enghraifft, â 18% a 7% yn yr Alban).

- Dim ond 3% o'r Garfan ddywedodd eu bod erioed wedi bod ar gwrs i'w cynorthwyo i wella'u sgiliau darllen, ysgrifennu neu eu sgiliau gyda rhifau a mathemateg (er bod hyn wedi codi i 4% yn achos Cymru). Pur anaml oedd y grwpiau a wnaeth waethaf yn y profion wedi bod yn agos i gyrsiau sylfaenol llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn unol â darganfyddiadau eraill sy'n dangos mai cymharol isel fu graddfa treiddiad hyfforddiant sgiliau sylfaenol. Fodd bynnag dywedodd mwy nag un ymhob pump eu bod am wella'u darllen, ysgrifennu a'u sgiliau rhifau, a chododd hyn i 38% o ddynion a 40% o wragedd a ddywedodd eu bod hwy wedi cael peth anawsterau gydag o leiaf rhai agweddau ar lythrennedd a rhifedd.

- Yn nhermau asesiad llythrennedd (gan ddefnyddio'r profion), bu i'r Astudiaeth asesu 62% ar lythrennedd Lefel 2 neu'n uwch - o'i gymharu â 44% yn yr Adolygiad Llinell Sylfaen - ac 8% ar lefel Mynediad yn unig - o'i gymharu â 13% yn yr Adolygiad Llinell Sylfaen. Mae angen cofio fod yr Adolygiad Llinell Sylfaen yn trin pob oedran, tra bod astudiaeth BCS yn delio'n unig ag un garfan o bobl 34 mlwydd oed - a'r rhai yn eu tridegau a ddarganfuwyd i fod â'r lefel isaf o anawsterau sgiliau sylfaenol yn yr Arolygon Llinell Sylfaen. Fodd bynnag, roedd y canlyniadau yng Nghymru'n waeth, gyda dim ond 50% yn cael Lefel 2 ac uwch ac 11% yn cyrraedd Lefel Mynediad yn y prawf.

- Roedd y patrymau'n debyg ar gyfer rhifedd, er (fel gydag Adolygiad Llinell Sylfaen) gyda'r boblogaeth i gyd yn amlwg yn dangos lefel is o sgiliau rhifedd o'i gymharu â llythrennedd. Dim ond Lefel Mynediad yn unig gafodd 39% ym mhrawf y BCS (47%

yng Nghymru ) gyda dim ond 27% (20% yng Nghymru) ar Lefel 2 neu'n uwch . Roedd hyn yn cymharu â 46% gyda Sgiliau Lefel Mynediad a 25% gyda Lefel 2 neu'n uwch yn yr astudiaeth linell sylfaen.

- Roedd yr astudiaeth yn cadarnhau'r cysylltiadau cryf rhwng sgiliau sylfaenol isel a rhes o ddeilliannau gan gynnwys cymwysterau academaidd, cyflogaeth (dim ond 74% o'r rhai â llythrennedd Mynediad Lefel 2 oedd mewn gwaith o'i gymharu â 93% o'r rhai hynny â Lefel 2 ac uwch), mynediad i hyfforddiant cysylltiedig â gwaith, perchnogaeth cartrefi, dibyniaeth ar fudd-daliadau ac iechyd corfforol a meddyliol gwael. Fodd bynnag fel mae'r astudiaeth yn ein hatgoffa ni:

1 *"Er bod llawer o gysylltiadau negyddol yn cael eu dangos yma rhwng sgiliau gwael a deilliannau yn oedran 34, mae angen ystyried ffactorau pwysig eraill fel cymwysterau a daearyddiaeth i enwi dim ond dau cyn y gellid hawlio unrhyw achosiaeth yn y berthynas."*

- Drwy gymharu canlyniadau prawf 900 o unigolion a gwblhaodd yr holiadur a'r profion yn 2004 ac a oedd hefyd yn rhan o'r profion a roddwyd i sampl 10% o'r un garfan yn 1991, roedd yn bosibl cynnwys elfen eang. Roedd hyn yn awgrymu tra roedd y mwyafrif o unigolion â lefelau tebyg o lythrennedd a rhifedd (wedi'u barnu ar ddeuoliaeth amrwd "da" - "gwael") yn 34 mlwydd oed fel roedd ganddynt yn 21 mlwydd oed, roedd lleiafrif arwyddocaol yn ymddangos eu bod wedi newid lefel eu sgiliau - (1 ym mhob 5 yn achos llythrennedd, 1 ym mhob 3 yn achos rhifedd), gyda chymaint o unigolion yn dangos dirywiad ymddangosiadol yn lefel eu sgiliau o "da" i "gwael" ac roedd yn dangos gwelliant o "gwael" i "da" (er bod y rhai cyntaf yn cynrychioli cyfran llawer llai o'r rhai gyda sgiliau da yn oedran 21 nag roedd y rhai olaf fel cyfran o rhai a sgiliau gwael yn oedran 21).

- Fodd bynnag, roedd yr astudiaeth hefyd yn awgrymu fod y rhai sydd wedi gwella'u sgiliau sylfaenol rhwng oedran 21 a 34 hefyd yn amlwg yn dangos gwell deilliannau economaidd mewn nifer o gylchoedd (e.e. meddiant o'u cartrefi, cyflogaeth amser llawn, defnydd o Gyfrifiaduron Personol yn eu gwaith, derbyn hyfforddiant yn eu gwaith) na'r rhai hynny oedd â'u sgiliau sylfaenol yn parhau'n wael.

**4. Sylfaen y dystiolaeth Gymreig**

Yn olaf, cyn troi at gasgliadau'r uchod ar gyfer methodoleg o'r gwerthusiad sydd ar ddod o Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru, rydym yn adolygu'n fyr ffynonellau allweddol y data sy'n bodoli am sgiliau sylfaenol yng Nghymru.

Y dystiolaeth bwysicaf heb os nac oni bai yw'r Adolygiad Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol yng Nghymru a wnaethpwyd gan BRMB yn hwyr yn 2003, gan ddefnyddio profion a ddyfeisiwyd ar gyfer astudiaeth gyfochrog Arolwg Llinell Sylfaen Sgiliau Bywyd yn Lloegr.

Roedd y prif gyfweliadau a gynhaliwyd gan BMRB yn cynnwys cyfweliad "cefndir" 20 - 25 munud gydag unigolyn ac wedyn prawf llythrennedd a rhifedd, pob un yn para 20 - 25 munud (mewn geiriau eraill yn drawiadol hirach na'r prawf a ddatblygwyd wedyn gan NCDR ar gyfer astudiaeth BCS neu a ddefnyddiwyd gan NIESR), gan ddefnyddio Cyfweliadau Personol wedi'u Cynorthwyo gan Gyfrifiadur. CDELL ddyfeisiodd y profion ym Mhrifysgol Nottingham a'u defnyddio i wneud profion addasol - mewn geiriau eraill defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol i asesu lefelau llythrennedd a rhifedd y rhai oedd yn ymateb ar sail gyfredol drwy'r prawf i osgoi gofyn cwestiynau unigol a oedd yn rhy hawdd neu'n rhy anodd. Cwblhaodd BMRB 2,554 o'r cyfweliadau hyn gyda sampl cynrychioladol o oedolion o Gymru 16 - 65 mlwydd oed. Cwblhaodd 1,503 o'r unigolion hyn ail gyfweliad, oedd yn cynnwys prawf sgiliau TGCh a phrawf sillafu. Roedd prif ganlyniadau'r arolwg fel a ganlyn:

- Roedd cymaint â 25% o'r rhai a gafodd gyfweliad yn cyrraedd lefel mynediad yn y prawf, gyda'r gweddill yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng Lefel 1 (38%) a Lefel 2 ac uwch (37%).

- O ran rhifedd, dim ond sgiliau mynediad oedd gan fwy na'u hanner - 53% - gyda 25% ar Lefel 1 a 22% ar Lefel 2 ac uwch.

- Dim ond 15% lwyddodd i gyrraedd sgôr Lefel 2 neu uwch mewn llythrennedd a rhifedd

- Roedd y perfformiad hwn yn arwyddocaol yn waeth nag yn Lloegr, yn arbennig mewn llythrennedd, ble mai dim ond 25% oedd ar lefel mynediad o'i gymharu â 16% yn Lloegr (ac roedd yn uwch nag unrhyw ranbarth yn Lloegr). Awgrymir efallai mai rhan o'r eglurhad yw bod defnydd o'r Gymraeg yn gostwng llythrennedd cyfrwng Saesneg ar ran unigolion gafodd addysg dda ond oedd a'r iaith Gymraeg fel eu dewis iaith yn y cartref.

- Roedd lefelau llythrennedd a rhifedd wedi'u cysylltu'n gryf â dosbarth, tra roedd y rhai oedd yn cyflwyno gwybodaeth am afiechyd neu anabledd tymor hir hefyd yn fwy tebygol o sgorio'n isel. Mae dadansoddiad aml amrywedd yn awgrymu mai'r effaith olaf hwn sy'n wir yn yr achos hwn, hyd yn oed wedi ei reoli o ran oed a dosbarth cymdeithasol.

- Er nad oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng dynion a merched mewn llythrennedd, roedd gwahaniaeth nodedig mewn rhifedd gyda 61% o ferched yn cyrraedd lefel mynediad mewn prawf o'i gymharu â 46% o ddynion. Mae'r "bwlch rhifedd" hwn i'w ganfod yn gyson ar draws ystod oedran, dosbarth cymdeithasol etc.

- O ran oedran, ar gyfer llythrennedd a rhifedd, roedd y perfformiad salaf yn y grŵp 16 – 19 a'r rhai yn y grŵp oedran 40 – 49, a'r rhai uchaf ymhlith y rhai oedran 30 – 39, yn cael eu dilyn gan rai o 20 – 29. Awgrymir y gallai'r ffenomenon hon (a ddarganfuwyd hefyd yn yr un ffordd yn Lloegr) fod yn ganlyniad i effeithiau oedran (gyda sgiliau'n gwella unwaith wedi dechrau gweithio ond yna'n dirywio gydag oedran) yn hytrach nag effaith y garfan – er y cydnabyddir y bydd angen astudiaethau eang i brofi hyn.

- Tra bod cydberthynas agos rhwng cymwysterau a sgiliau sylfaenol, nid yw hyn mor agos ag y gellid disgwyl. Mae canran ryfeddol o uchel o'r rhai a gafodd eu haddysgu hyd at NVQ lefel 3 ac yn uwch yn dangos llythrennedd gwael (16% ar lefel mynediad) a rhifedd (47%), er bod hyn yn arbennig o wir am rai â chymwysterau galwedigaethol o'i gymharu â chymwysterau academaidd. O ran rhifedd, mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad mai dim ond y rhai hynny â gradd y gellid disgwyl iddynt fod â sgiliau rhifedd addas, gyda dim ond lleiafrif (40%)o'r rhai hynny a lwyddodd i gael A* - C TGAU mewn Mathemateg yn cyrraedd asesiad Lefel 2.

- Ar yr un pryd. Mae'r rhai hynny sy'n gadael ysgol ar y cyfle cyntaf (15 – 16) yn sgorio'n gyson yn waeth na'r cyfartaledd mewn llythrennedd a rhifedd.

- Mae'r ffenomenon o sgiliau sylfaenol yn gwella ar ôl bod yn y gweithle yn ymddangos yn unigryw yn y DU (yn ôl Arolwg Rhyngwladol Llythrennedd Oedolion).

- Roedd cydberthynas gref rhwng statws cyflogaeth a llythrennedd a rhifedd, gyda 41% o'r rhai oedd yn ddi-waith ac yn chwilio am waith â sgiliau llythrennedd lefel mynediad yn unig o'i gymharu â 19% o'r rhai mewn gwaith. (Roedd ffigurau cyfwerth ar gyfer rhifedd yn 72% a 47% yn ôl eu trefn).

- Roedd bwlch bach yng nghyrhaeddiad llythrennedd rhwng gweithwyr amser llawn a gweithwyr rhan amser ond bwlch mwy mewn rhifedd.

- Yn yr un ffordd mae cydberthynas gref rhwng enillion a sgiliau sylfaenol, gyda dim ond 6% o'r rhai â sgiliau llythrennedd lefel mynediad yn ennill £30,000+ y flwyddyn o'i gymharu â 22% o'r rhai ar sgiliau lefel 2, a gyda rhai gyda sgiliau rhifedd Lefel 2 yn ennill ar gyfartaledd £26,000 y flwyddyn, o'i gymharu â'r cyfartaledd cyffredinol o £19,500.

- Fel y nodwyd yn Adran 2 uchod, roedd hunan asesiad o lythrennedd a rhifedd yn dangos bwlch amlwg rhwng y realiti a dadlennwyd gan brofion gwrthrychol, gyda dim ond 4% yn dweud bod eu darllen yn "is na'r cyfartaledd" neu'n waeth, 6% yn nodi fod eu hysgrifennu yn "is na'r cyfartaledd" neu'n waeth a 7% a ddywedodd bod eu rhifedd yn "is na'r cyffredin" neu'n waeth.

- Dim ond 6% o'r rhai a gafodd eu harolygu ddywedodd eu bod wedi derbyn unrhyw addysg neu hyfforddiant mewn siarad, darllen neu ysgrifennu erioed mewn Saesneg ers eu dyddiau ysgol. Dim ond traean o'r rhain (44 allan o 2,554 a gafodd eu holi i gyd) oedd wedi ymgymryd â hyfforddiant llythrennedd yn ystod y tair blynedd olaf ac 11% (15 unigolyn allan o 2,554 a holwyd) oedd yn cael hyfforddiant yn ystod cyfnod y cyfweliad (arwydd o ba mor anodd yw codi gwybodaeth am brofiad penodol o ddysgu sgiliau sylfaenol oddi wrth arolygon cyffredinol o'r boblogaeth). Roedd y nifer fach a adroddodd eu bod wedi derbyn hyfforddiant yn gyffredinol â sgôr uwch na'r sgôr llythrennedd cyffredin. Dim ond 4% o'r rhai a gafodd eu harolygu dywedodd eu bod erioed (ar ôl gadael ysgol) wedi derbyn hyfforddiant mewn mathemateg sylfaenol, gyda llai na 1% yn derbyn hyfforddiant ar hyn o bryd.

Fel y nodwyd, er bod yr Arolwg Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth am lythrennedd a rhifedd yng Nghymru, ychydig o wybodaeth mae'n gynnwys, os

o gwbl, am effeithiolrwydd strategaeth sgiliau sylfaenol y sector gyhoeddus, oherwydd treiddiad isel y fath ymdrechion ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol.

Yn yr un modd, tra roedd Gwerthusiad o Strategaeth Sgiliau Sylfaenol yng Nghymru gan *York Consulting* yn cynnwys dadansoddiad trylwyr o ddata cynnyrch mewn perthynas â'r Strategaeth ac yn cynnwys gwaith maes ansoddol eang gyda darparwyr a phartneriaid eraill, nid oedd yn cynnwys cyfweliadau na phrofion annibynnol gyda myfyrwyr ôl-16. Roedd felly'n methu â gwneud penderfyniadau cadarn am effeithiolrwydd elfennau'r oedolion o'r Strategaeth wrth wella sgiliau sylfaenol y myfyrwyr – llai fyth i archwilio unrhyw ddeilliannau ehangach o ganlyniad i ymyriadau a oedd yn cael eu cyllido gan y Strategaeth.

Yn olaf dylid nodi fod yr Arolygon Sgiliau Rhywogaethol a ymgymerwyd gan Sgiliau Dyfodol Cymru (Future Skills Wales) - ac yn neilltuol yr arolwg cartref, a gynhaliwyd yn 2003 - yn darparu peth tystiolaeth o'r amgyffred o bwysigrwydd sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae'r arolwg cartref yn dangos fod yr ymatebwyr sydd mewn gwaith ar y cyfan yn credu fod ganddynt lefelau uchel o sgiliau llythrennedd (gyda dim ond 8% yn dweud mai sylfaenol oedd eu sgiliau; 18% yn dweud canolig, 50% yn dweud uchel a 23% yn dweud o safon uwch), gyda sgôr cymedrig o 2.9. Roedd hyn yn gosod llythrennedd yn hanner uchaf y sgiliau generig y gofynnwyd amdanynt (er bod unigolion yn ystyried eu sgiliau'n uwch mewn chwe set o sgiliau eraill - gallu i ddilyn cyfarwyddiadau; addasrwydd/hyblygrwydd; sgiliau cyfathrebu; dangos menter; gweithio mewn tîm; a deall anghenion y cwsmer). Fodd bynnag - yn cydymffurfio â'r amgyffred cyffredinol fod sgiliau'r ymatebwyr yn uwch na'r hyn ddisgwylid ganddynt yn eu gwaith presennol - roedd llai'n teimlo fod angen sgiliau llythrennedd arnynt yn eu gwaith cyfredol (sgôr cymedrig o 2.5). Roedd 6% yn mynnu nad oedd angen llythrennedd ar gyfer eu gwaith a 15% ar ben hynny'n dweud mai dim ond sgiliau sylfaenol llythrennedd oedd eu hangen arnynt. Eto roedd hyn yn gosod sgiliau sylfaenol oddi fewn i hanner uchaf yr holl sgiliau generig, ond yn sicr ddim ar y brig.

Ystyrid sgiliau rhifedd yn llai pwysig – ac yn llai cyffredin. Y sgôr cymedrig ar gyfer "hunanasesiad" oedd 2.7% (yn sefyll yn 10fed allan o'r 18 o sgiliau yr holwyd amdanynt), gyda 63% yn ystyried eu sgiliau rhifedd fel "uwch" neu "ymhell ar y blaen", 1% yn dweud nad oedd ganddynt sgiliau rhifedd ac 11% yn dweud fod eu sgiliau rhifedd yn rhai sylfaenol. O ran yr angen am sgiliau rhifedd yn eu gwaith presennol, dywedodd 11% nad oedd angen rhifedd arnynt ac ychwanegodd 18% ymhellach mai dim ond sgiliau sylfaenol oedd eu hangen, a 49% yn dweud fod eu gwaith yn gofyn am lefelau rhifedd gwell neu lefelau uwch. Roedd y sgôr cymedrig o 2.2 yn golygu fod rhifedd yn cael ei weld eto fel y 10fed pwysicaf o 18 sgil generig.

Roedd canlyniadau'r rhai sy'n ddi-waith ar hyn o bryd ar y cyfan yn debyg, er bod llythrennedd yn cael ei ystyried fymryn yn llai pwysig gan y grŵp hwn yn nhermau gofynion y cyflogwyr.

Yn ddiddorol, roedd asesiad cyflogwyr o lythrennedd a rhifedd ar y cyfan yn debyg i amgyffred y gweithwyr, gyda llythrennedd yn sefyll yn 8fed yn nhermau'r sgôr cymedrig a rhifedd ar y cyd yn 9fed o'r 18 sgiliau rhywogaethol yr holwyd amdanynt. Fodd bynnag, roedd 19% o'r cyflogwyr oedd wedi recriwtio'r rhai oedd yn gadael ysgol neu goleg yn dweud eu bod wedi darganfod fod sgiliau llythrennedd yn ddiffygiol ac yn yr un ffordd sgiliau rhifedd - dim ond ffigurau sgiliau cyfathrebu (48%) a "dangos menter" (22%) oedd yn uwch.

**5. Casgliadau: Gwersi ar gyfer y Gwerthusiad**

Mae'r adolygiad wedi amlygu peth ymarfer da wrth ymwneud â'r cwestiwn allweddol o'r effaith ar ddarpariaeth sgiliau sylfaenol oedolion yn ogystal ag awgrymu nad yw'r maes wedi'i ddatblygu'n dda. Mae nifer o gasgliadau cychwynnol yn ymddangos:

- Mae'n glir fod unrhyw ymdrech i ddod i gasgliadau am faint y gellid priodoli deilliannau a nodwyd yn nhermau cyflogaeth, cynnydd iechyd, a hunan-barch (ac yn wir gwelliant mewn sgiliau sylfaenol eu hunain) i'r ddarpariaeth a gyllidwyd dan Strategaeth Sgiliau Sylfaenol, angen cynnwys profion lefel sgiliau sylfaenol cyn ac wedi bod yn rhan o'r ddarpariaeth Mae hefyd angen ymchwilio i'r newidiadau yn amgylchiadau personol perthnasol y buddiolwyr unigol dros amser gyda chyfeiriad at y gwrthffeithiol – os yn bosibl drwy grwpiau rheolydd.

- Nid yw amgyffred yr unigolion - er wrth gwrs yn ddangosyddion pwysig o hunan hyder a hunan barch - yn ffordd ddirprwyol dda o fesur llwyddiannau gwrthrychol, o ystyried natur sensitif iawn problemau sgiliau sylfaenol. Fodd bynnag, mae ymchwilio i anawsterau hunan ddatguddiedig am lythrennedd a rhifedd drwy gwestiynau am faterion ymarferol gyda thasgau bob dydd yn debyg o ildio gwybodaeth fwy gwerthfawr nac wrth ofyn cwestiynau uniongyrchol am broblemau gyda darllen, ysgrifennu neu rifau.

- Mae nifer o systemau profi yn bodoli a ellid (yn ddarostyngedig i sicrhau cytundeb i'w defnyddio) eu haddasu i'w defnyddio yn ein gwerthusiad, yn arbennig y prawf a ddatblygwyd gan NRDC ar gyfer yr astudiaeth eang, y profion a ddefnyddiwyd gan BRMB yn yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol yng Nghymru a'r prawf a ddatblygwyd gan NIESR gyda CDELL ar gyfer gwerthuso Sgiliau Bywyd. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod cyfnewid rhwng yr amser sydd ei angen i sefyll y profion (15 munud i brawf NIESR, 30 munud - neu 22 munud gan gynnwys dim ond yr elfennau dewis amrywiol - i astudiaeth NRDC a thua 40 - 50 munud ar gyfer gwaith BRMB) ac effeithiolrwydd y profion wrth fesur y gwahaniaethau cymharol fach mewn llythrennedd a rhifedd. Hwyrach yn fwy difrifol, fod yr astudiaethau wedi ei chael hi'n anodd olrhain mymryn o welliant yn lefelau sgiliau sylfaenol drwy brofion "cyn" ac "wedi'r" (a all awgrymu problemau gyda methodoleg y prawf neu sy'n bwrw amheuaeth ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth).

- Mae graddfa'r adnoddau sydd eu hangen i ymgymryd ag astudiaeth sy'n wirioneddol gadarn o'r math a ymgymerwyd gan NIESR (er bod rhai cwestiynau yma dros faint y bydd hyd yn oed yr astudiaeth hon yn gallu amcanu ynglŷn â gwelliannau yn lefelau sgiliau sylfaenol, hyd yn oed os yw'n gallu olrhain effeithiau yn nhermau deilliannau ehangach) yn debyg o fod tu hwnt i'n gwerthusiad ni. Roedd ymgymryd â thon gyntaf o gyfweliadau ar gyfer y grwpiau astudiaeth a'r grwpiau rheolydd yn unig yn debyg o fod wedi costio pris a oedd gyfwerth â chyllideb y gwerthusiad Cymreig yn gyfan. Mae angen arolygon ar raddfa eang i ganiatáu rheolaeth dros ddigon o newidynnau i alluogi priodoldeb cadarn y deilliannau gwahaniaethol sydd dan sylw ar gyfer y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol. Mae'n debyg na fydd yr agwedd lem tuag at recriwtio grŵp rheolydd yn ymarferol oddi fewn i'r gyllideb - er bod yr egwyddor o "gydweddu'r" sampl gyda'r grŵp rheolydd heb ymgymryd â darpariaeth mor agos ag sy'n bosibl yn un y gellid ei dynwared. Er bod y posibilrwydd o ail gysylltu ag unigolion a holwyd fel rhan o'r Arolwg Cenedlaethol i'w defnyddio fel grŵp rheolydd yn un y gellid ei ystyried, byddai hyn yn dibynnu ar ystyriaethau Deddf Diogelu Data, er bod y rhain wedi'u goresgyn yn achos y NIESR gan ddefnyddio data o'r Arolwg Llinell Sylfaen Sgiliau Bywyd.

- Yr anawsterau wrth ddynwared agwedd NIESR yw nid yn unig arian: mae agwedd yr NIESR wedi'i harneisio i ymchwilio effaith un math o ddarpariaeth, tra bod Cylch Gorchwyl ein gwerthusiad Cymreig yn golygu y bydd gofyn i ni archwilio (hyd yn oed oddi fewn i elfennau oedolion) ystod o wahanol ddarpariaethau o dan wahanol flaenoriaethau er mwyn cynorthwyo i adnabod agweddau sy'n ymddangos yn fwy effeithiol. (Yn yr ystyr hon, mae'r ffaith fod ein gwerthusiad ni i fod un o broses ac o effaith yn un heriol).

- Er bod hyn ar un ystyr yn ddigalon, gall casgliad McIntosh fod astudiaethau o ymyriadau penodol ar raddfeydd llai (ar yr amod y cedwir llygad ar y prawf i wneud yn siŵr ei fod yn wrthrychol ac yn asesiad ystyrlon o'r gwrthffeithiol) fod o werth ac yn werth ei ail adrodd.

- Nid yw arolygon cyffredinol o'r boblogaeth yn debyg o ildio unrhyw wybodaeth ddefnyddiol am fyfyrwyr sgiliau sylfaenol sy'n oedolion, gan fod y ganran sydd â phrofiad (diweddar) o'r ddarpariaeth mor fach. Mae'r ffaith fod llai na 1% o'r rhai a holwyd (a'u profi) fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Sgiliau Sylfaenol wedi cael profiad oddi fewn y tair blynedd ddiwethaf o'r fath ddarpariaeth (ar waetha'r ffaith fod y cam cyntaf yn y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol wedi hen ddechrau yn y cyfnod pan oedd gwaith maes yn cael ei wneud yn hwyr yn 2003) yn dangos hyn. Fodd bynnag, byddai ailadrodd yr Arolwg hwn (gyda phrofion gwrthrychol) - oedd yn ymddangos oddi wrth y Cyfarfod Cychwynnol y byddai'n cael ei gynnal yn annibynnol ar ein gwerthusiad ni - yn gallu ildio gwybodaeth ddefnyddiol am dueddiadau cyffredinol oddi fewn i boblogaeth Cymru o ran sgiliau sylfaenol a ellid eu defnyddio fel "rheolydd rhithwir " i'w gymharu â newidiadau a welwyd ym mhlith buddiolwyr y ddarpariaeth. Efallai y gallai arolygon poblogaeth gyfan ddweud wrthym ni rywbeth am bwysigrwydd ymddangosiadol sgiliau sylfaenol (ac felly ein galluogi i ffurfio barn ar effeithiolrwydd y rhan hon o'r Strategaeth sy'n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth) ond mae'n debyg y gellid olrhain unrhyw newidiadau yn yr amgyffred drwy arolygon cartrefi newydd Sgiliau Dyfodol Cymru.

Gan gasglu hyn at ei gilydd, gallwn ddod i'r casgliad:

- Mae'n rhaid i unrhyw werthusiad o'r effaith gynnwys astudiaeth eang o ddeilliannau'r unigolion sy'n ymgymryd â darpariaeth sgiliau sylfaenol. Dylem anelu at gael sampl o

nifer o wahanol fathau o ddarpariaeth fel bod unrhyw amrywiaeth yn y perfformiad - er na fyddai'r rhain yn ystadegol gryf - yn gallu cael eu harchwilio. Dylem anelu at holi unigolion ar dri achlysur (ar ddechrau'r ddarpariaeth, wedi'i gwblhau - mwy na thebyg ar ôl bwlch o 12 mis - ac ar ôl tua 12 mis arall i amcangyfrif yr effeithiau tymor hir. Bydd angen i ni benderfynu (yng ngoleuni'r mater o "brofi" isod) faint o sampl yn gyffredinol sy'n bosibl oddi fewn i gyfyngiadau ariannol y cytundeb ac yn caniatáu am y ffaith fod y rhaglen waith, ar y cyfan, angen cynnwys ynddo cyfweliadau ansoddol gyda darparwyr a hysbyswyr allweddol yn ogystal â gwerthusiad o elfennau cyn ysgol ac oed ysgol y Strategaeth. Bydd yn bwysig cynnwys graddau athreuliad tebygol rhwng tonau dilynol o waith maes (yn achos NIESR, ychydig dros 50% o'r rhai a holwyd yn nhon 1 gafodd eu holi'n llwyddiannus yn nhon 2).

- Mae dadl gref dros i'r tîm ymchwil brofi'r sampl o fyfyrwyr sgiliau sylfaenol sy'n oedolion yn annibynnol ar ddechrau ac ar ddiwedd eu darpariaeth (mwy na thebyg gyda bwlch o 12 mis rhwng y ddau). Mae angen i'r dewisiadau ar gyfer defnyddio'r profion gwahanol sydd wedi'u datblygu gael eu hystyried ymhellach: byddai manteision clir o ddefnyddio'r profion a ddefnyddiwyd gan BRMB fel y gellid cymharu'r canlyniadau yn uniongyrchol â'r rhai o'r Arolwg Cenedlaethol (ac unrhyw ailadrodd) ond y rhain yw'r rhai hwyaf ac maent yn debygol o ddefnyddio meddalwedd perchnogol (pryder mawr i NIESR). Pa 'run bynnag byddai ddefnyddio profion a ddatblygwyd gan eraill yn golygu datblygu cynhwysedd yn CAPI neu CASI a gofalu fod pa staff bynnag a ddefnyddir wedi'u hyfforddi'n llawn. Gallai hyn olygu cydweithrediad/cymorth gan arbenigwyr allanol. Byddai hefyd yn golygu sicrhau fod gennym y cofnod data a'r sgiliau dadansoddol i wneud defnydd llawn o'r data. Fodd bynnag, os bernir fod profion annibynnol gan y tîm ymchwil yn rhy ddrud neu'n rhy gymhleth, mae dau ddewis arall. Gallem **naill** ai gweithio gyda darparwyr a oedd yn barod i weinyddu profion mynediad a'r profion terfynol eu hunain a rhoi'r canlyniadau i ni, **neu** yn syml, derbyn os yw'r newidiadau y sylwyd arnynt i ddeilliannau cymdeithasol ac economaidd ar ôl cymryd rhan mewn cyrsiau sgiliau sylfaenol yn ganlyniad gwelliant gwrthrychol yn y gwir lefelau sgiliau sylfaenol o'u cymharu ag effeithiau llai mesuradwy o fod yn rhan o'r broses, fod hyn yn fater eilaidd o'i gymharu â dangos os yw deilliannau ehangach yn wir yn cael eu cyflawni.

- Prun ai yw profion gwrthrychol yn cael eu cynnwys ai peidio, bydd cyfweliadau gyda buddiolwyr yn golygu ystod cymharol eang o gwestiynau fydd yn ein galluogi i amcangyfrif newid dros amser ac i asesu'r gwrthffeithiol (gweler isod). Ar yr achlysur cyntaf dylai hyn ymdrin ag ystod eang o amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd, gan gynnwys cymwysterau, marchnadoedd gwaith a phrofiad, amgylchiadau personol a theuluol, iechyd ac amgyffred o statws iechyd, yn ogystal â mesur materion "meddalach" fel hunanhyder a hunan barch a materion o gwmpas cymhelliad a dyheadau yn nhermau'r ddarpariaeth. Yn yr ail "don" dylid mynd dros yr un maes, ond hefyd dylid holi ynglŷn â bodlonrwydd gyda'r ddarpariaeth ac i ba raddau mae'r disgwyliadau wedi'u cyflawni. Bydd y drydedd don yn canolbwyntio ar archwilio deilliannau/newidiadau o ran ystod amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd a ddewiswyd yn ogystal â deilliannau "meddalach", tebyg i hunanhyder a hunan barch. Bydd gofyn i bob cyfweliad fod wyneb yn wyneb.

- Oddi fewn i gyfyngiadau amser yr Astudiaeth, er na fydd yn bosibl i rannu'r sampl, fel bydd i gyfweliadau'r "don gyntaf" ddigwydd ar wahanol amserau (er mwyn adlewyrchu gweithredu'r strategaeth), bydd y rhai olaf o gyfweliadau'r "don gyntaf" yn digwydd yn hwyr yn 2008 ar yr hwyraf.

- Mae'r mater o roi prawf ar y gwrthffeithiol yn un allweddol. O gofio'r cyfyngiadau ar yr adnoddau mae'n bosibl rhagweld tri dull gwahanol, sydd angen ei drafod:

- o Ymdrechu i ddilyn y model NIESR, er ar raddfa lai, a sefydlu rheolydd ffurfiol neu grŵp cymharu. Yn ddarostyngedig i wneud materion Deddf Diogelu Data yn glir, gall hyn ddeillio o ailgysylltu ag unigolion a oedd yn rhan o Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol oedd â'u sgôr profion ar Lefel Mynediad mewn rhifedd ac yn ddim uwch na Lefel 1 mewn llythrennedd. Byddai hyn yn cynnig carfan o gwmpas 1,000 – 1,200 o gysylltiadau fel man cychwyn. Fodd bynnag, gan y byddai'r ail gysylltiadau hyn yn golygu galw mewn cartrefi i sicrhau ymateb priodol, byddai sicrhau grŵp rheolaeth o hyd yn oed 150 – 200 yn ymarfer dwys o ran adnoddau ac ni fyddai'n ildio sampl digon mawr ar gyfer reolydd ar gyfer nifer o newidynnau pwysig.

- o Defnyddio dull mwy anffurfiol o "gydweddu" pryd y gofynnir i fuddiolwyr unigol "ddod â chyfaill" (yn llythrennol neu'n drosiadol), i adnabod rhywun yn eu rhwydwaith cymdeithasol agos a oedd (yn eu barn hwy) â phrofiad, cymwysterau a sgiliau oedd yn gyffredinol debyg ac a fyddai'n barod i fod yn rhan o'r ymchwil. Yn amlwg byddai'r data a gasglwyd gan brofion cychwynnol a'r broses gyfweld yn caniatáu i ni ymchwilio pa mor bell y byddai'r "grŵp rheolydd" hwn yn cymharu â sampl y myfyrwyr – ac i gywiro am wahaniaethau amlwg drwy bwysoli.  Mae peryglon mawr yn perthyn i'r dull hwn o ran gallu sicrhau digon o niferoedd o ymgeiswyr priodol a gallu ail gysylltu â hwy ar gyfer tonau dilynol o waith maes. Mae hefyd, wrth gwrs, y perygl mwy neu'r siawns y byddai'r unigolion hyn hefyd yn ymgymryd â darpariaeth sgiliau sylfaenol, o gofio'u cyswllt â'r ymchwil.

- o Derbyn nad yw sefydlu grŵp rheolydd yn bosibl o gofio'r cyfyngiadau adnoddau, ac yn lle hynny adeiladu proffil o sampl y myfyrwyr ac wedyn defnyddio ystod o ffynonellau ystadegol eraill ac o arolygon i gymharu deilliannau ehangach ein sampl gyda deilliannau cyfwerth ar gyfer grwpiau tebyg yn y boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Byddai'r fath ffynonellau'n gallu cynnwys ailadrodd yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol ei hun ac arolygiadau pellach o gartrefi  Sgiliau Dyfodol Cymru (ble y byddai'n bosibl mewnbynnu i'r cynllun ymchwil) yn o gystal â setiau o ddata ehangach  tebyg i Arolwg o'r Llafurlu (i olrhain y llif rhwng cyflogaeth, diweithdra a disymudrwydd), Arolwg Iechyd Cymru (i ddangos tueddiadau cyffredinol mewn iechyd a adroddwyd) a'r Arolwg Blynyddol o Enillion Cartrefi (i ddangos gogwydd mewn enillion). Yn anorfod, byddai hyn yn caniatáu casgliadau, a byddai angen graddfa uchel o arbenigedd i ddehongli'r gwahanol setiau o ddata.

Un mater terfynol nad yw wedi'i ystyried hyd yn hyn yw'r ffordd y gallai neu y dylai'r Gwerthusiad astudio'r gydberthynas rhwng gwahanol linynnau'r gweithgaredd. Un - model eithaf atyniadol - all fod i gyfuno'r dull a amlinellwyd uchod gyda dull astudiaethau achos, ble y tynnwyd holl sampl y myfyrwyr o nifer fach o ardaloedd a dargedwyd yn ofodol, wedi'i fwriadu i adlewyrchu'r amrywiaeth yng Nghymru yn nhermau cymdeithasol ac economaidd, ond o ddarpariaeth wahanol sy'n digwydd yn yr ardaloedd hynny. Byddai hyn hefyd yn ysgafnhau llwyth y gwaith maes. Yn amlwg byddai'n rhaid gosod yn erbyn hyn y materion cyffredinoli fyddai'n codi o'r dull hwn. Eto mae gofyn ystyried ymhellach rhinweddau a gwendidau'r dull hwn.

*Gareth S. Williams*

*Gorffennaf 2006*